Gwasanaeth Erlyn y Goron
Sicrhau cyfiawnder

CPS

2015-16 ADRODDIAD

# TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

(GAN GYNNWYS DATA AR DDYNION A BECHGYN)

# Cynnwys

**Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus** **3**

**Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched** **5**
Trais yn erbyn Menywod a Merched 6
Is-set VAWG 6
Cam-drin domestig 7
Stelcio ac aflonyddu 8
Treisio 8
Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 10
Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod 10
Cam-drin plant 12
Masnachu mewn pobl a phuteindra 12
Pornograffi ac anweddustra 13

**Adroddiad data VAWG** **15**

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Mae'r CPS yn erlyn ac yn collfarnu mwy o ddiffynyddion cam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin rhywiol nag erioed o'r blaen. Yn 2015-16 fe wnaethom sicrhau dros 8,500 yn fwy o gollfarnau am droseddau Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG)[1] – cynnydd o 11% ers 2014-15 a'r drydedd flwyddyn yn olynol i ni weld cynnydd. Mae'r erlyniadau hyn yn awr yn cyfrif am 18.6% o gyfanswm gwaith achos y CPS.

Mae'r CPS yn dynodi, cydnabod ac yn helpu dioddefwyr gwrywaidd troseddau sy'n cael eu dynodi fel troseddau 'VAWG'. Yn ôl hynny, gweithredir ein holl bolisïau VAWG yn deg a chyfartal i holl dramgwyddwyr a dioddefwyr troseddau cam-drin domestig, troseddu rhywiol a throseddau VAWG eraill, beth bynnag yw eu rhyw.

O ran cam-drin domestig, rydym wedi cwblhau'r nifer uchaf erioed o erlyniadau, gan sicrhau mwy na 75,000 o gollfarnau gyda chyfradd gollfarnu o 74.5%. Dechreuasom hefyd erlyniadau am ddwy drosedd newydd yn ymwneud â cham-drin domestig; 'pornograffi dial' a ddaeth i rym yn Ebrill 2015, ac 'ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi' a weithredwyd yn Rhagfyr 2015.

Bu mwy na 200 o erlyniadau pornograffi dial ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym – sy'n arwydd o'r nifer gynyddol o droseddau sy'n digwydd trwy gyfryngau cymdeithasol, tuedd sy'n cael ei hadlewyrchu yn yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn. Mae'n addawol nodi, erbyn Mawrth 2016, roedd eisoes bum erlyniad llwyddiannus am y drosedd o ddefnyddio ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi. Amlygwyd ein gwaith ar erlyniadau cam-drin domestig ehangach mewn pennod o'r rhaglen ddogfen dair rhan gan y BBC, *The Prosecutors: Real Crime and Punishment*.

Mae parhau i wella ein gwaith ar erlyniadau treisio yn parhau yn flaenoriaeth allweddol. Dros y 12 mis diwethaf mae mwy na 80 o erlynyddion wedi eu hyfforddi'n arbennig wedi cael eu recriwtio i Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO), gan fwy na dyblu adnoddau lleol. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi genedlaethol eang i'r holl erlynyddion trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys hyfforddiant ar faterion fel cydsyniad rhywiol.

Ym Medi 2015, gyda chefnogaeth rhanddeiliaid, rhedodd y CPS ei ymgyrch gyntaf ar gyfryngau cymdeithasol ar y mater hwn. Yn dilyn hynny enillodd yr ymgyrch #ConsentIs Wobr Cyfathrebu'r Sector Cyhoeddus 2016 yn y Deyrnas Unedig, gan gydnabod ei effaith wrth annog trafodaeth a dealltwriaeth o'r mater.

Yn dilyn yr ymdrechion hyn mae'n galonogol gweld cynnydd yn y gyfradd gollfarnu am dreisio i 57.9%, gyda gostyngiad yn y nifer o ryddfarnau ar ôl treial. Erlynwyd mwy na 4,600 o ddiffynyddion am

---


[1] Mae data ar gyfer 'troseddau VAWG' wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol ac mae'n cynnwys data am ddynion a bechgyn.

droseddau treisio gyda chollfarnau yn cael eu sicrhau mewn 2,689 o'r rhain - y nifer uchaf erioed ar gyfer rhai o'r achosion mwyaf cymhleth yr ydym yn eu trin.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ein herlyniadau am droseddau cam-drin plant, lle gwelsom gynnydd o bron i 17% yn y nifer o gollfarnau a gyflawnwyd, sy'n cyfateb i 4,643 o gollfarnau yn 2015-16 gyda chyfradd gollfarnu o 74.7%.

Parhaodd rhanddeiliaid yn ein Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG a'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol i roi eu cefnogaeth a'u cyngor arbenigol amhrisiadwy yn ystod 2015-16. Hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith gyda ni yn genedlaethol, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n ein cefnogi ni yn lleol trwy baneli craffu. Yn ychwanegol, rwy'n diolch i'n Cydlynwyr VAWG penodedig, Penaethiaid yr Unedau RASSO a'u timau a holl staff y CPS sy'n ymdrin â'r achosion hyn.

Rydym yn falch o'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud o ran y ffordd yr ydym yn erlyn y troseddau hyn yn 2015-16 a'r effaith y mae'r newidiadau hyn wedi ei gael ar wella collfarnau. Ond, mae mwy i'w wneud i sicrhau bod yr holl ddioddefwyr VAWG yn cael y gwasanaeth y maent yn ei haeddu. Byddwn yn parhau i adeiladau ar ein llwyddiannau, gan weithredu newidiadau o'r gwersi yr ydym wedi eu dysgu a gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau gwasanaeth hyd yn oed yn well i ddioddefwyr y troseddau hyn a'n cymdeithas yn ei chyfanrwydd.



**Alison Saunders CB**

**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

**Medi 2016**

# Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yr Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yw'r nawfed argraffiad i'w gyhoeddi gan y CPS. Mae'n rhoi asesiad o berfformiad wrth erlyn ar droseddau sydd wedi cael eu casglu gyda'i gilydd dan y pennawd Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG), gan eu bod wedi eu dynodi yn rhai a gyflawnir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, gan ddynion yn erbyn menywod. Mae'r CPS yn ymdrin â'r materion hyn dan y fframwaith strategol traws-lywodraethol VAWG, gan gydnabod bod y dioddefwyr yn y grŵp hwn o droseddau yn fenywod i raddau anghymesur. Mae'r dull yn cydnabod VAWG fel un o faterion sylfaenol hawliau dynol a hawliau menywod. Llofnododd a chadarnhaodd llywodraeth y Deyrnas Unedig alwad y Cenhedloedd Unedig i bob gwladwriaeth atal trais yn erbyn menywod ac ymateb iddo. Cydnabyddir VAWG yn fyd-eang, a gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel ffurf o droseddu lle mae rhyw yn chwarae rhan.

Fel y mae'r Cenhedloedd Unedig[2] yn ei ddisgrifio: *'Mae trais yn erbyn menywod yn arddangos y cysylltiadau anghyfartal o ran grym yn hanesyddol a fu rhwng dynion a menywod, sydd wedi arwain at dra-arglwyddiaethu a gwahaniaethu yn erbyn menywod gan ddynion ac atal menywod rhag symud ymlaen yn llawn, a... thrais yn erbyn menywod yw un o'r peirianweithiau cymdeithasol allweddol y mae menywod yn cael eu gorfodi i safle israddol trwyddo mewn cymhariaeth â dynion'.*

Mae'r CPS yn ymroddedig i sicrhau cyfiawnder i *holl* ddioddefwyr y troseddau sy'n cael eu casglu dan y pennawd 'VAWG'. I'r diben hwnnw, rydym yn gynhwysol o ran ein dull. Gweithredir ein holl bolisïau VAWG yn deg a chyfartal i'r holl dramgwyddwyr a dioddefwyr troseddau – beth bynnag yw eu rhyw. Gan gydnabod y gall y troseddau hyn gael eu targedu at ddioddefwyr gwrywaidd a thrawsrywiol yn ogystal â dioddefwyr benywaidd, mae'r adroddiad yn cynnwys *cyfanswm y data ar bob tramgwyddwr a dioddefwr, beth bynnag fo eu rhyw.* Pan fydd yn bosibl mae'r data yn cael ei dorri i lawr, yng nghorff yr adroddiad, yn ôl rhyw yn ogystal â niferoedd cyffredinol a'r cyfrannau.

Mae'r adroddiad yn ddadansoddiad o'r prif faterion erlyn ym mhob maes Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) – cam-drin domestig (DA), stelcio, aflonyddu, treisio, troseddau rhywiol, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, anffurfio organau rhywiol menywod, cam-drin plant, masnachu mewn pobl i gam-fanteisio yn rhywiol, puteindra a phornograffi.

Deillia'r data sy'n sail i'r adroddiad o System Reoli Achosion y CPS a'r System Gwybodaeth Rheoli gysylltiedig sy'n dangos niferoedd y diffynyddion, troseddau a'r dioddefwyr neu dystion.

Dynodir achosion cam-drin domestig, treisio, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, cam-drin plant a masnachu mewn pobl trwy roi llumanau ar y diffynyddion. Dim ond trwy'r gronfa ddata troseddau y gall y data am stelcio, aflonyddu, troseddau rhywiol, puteindra, pornograffi ac anlladrwydd gael eu casglu.

Cedwir y data mewn cronfeydd data ar wahân yn y System Gwybodaeth Rheoli[3]. Rhoddir manylion y gwahanol gronfeydd data yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad.

---

[2] Yn 2003, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig: http://www.ohchr.org/Documents/Issues/Women/15YearReviewofVAWMandate.pdf

[3] Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS. Mae'r CPS yn casglu data i gynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y'u diffiniwyd yn Neddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Yn yr un modd ag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae'r data yn agored i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Rydym yn ymroddedig i wella ansawdd ein data ac o ganol Mehefin 2015 fe wnaethom gyflwyno trefn sicrhau ansawdd data newydd a all esbonio peth amrywio annisgwyl rhwng setiau data. Diben yr adroddiad

Ni all y data gael ei gysoni rhwng y gwahanol gronfeydd data ac felly ni all yr adroddiad roi gwybodaeth ar wahân ar ddeilliannau am y gamdriniaeth a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; nac unrhyw gysoni rhwng rhyw'r diffynnydd a rhyw’r dioddefwr.

## Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yn 2015-16 roedd troseddau wedi eu grwpio fel VAWG yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r CPS a’r llywodraeth, fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Traws-lywodraethol VAWG, a oruchwylir gan y Grŵp VAWG Gweinidogion.

Mae cydlynwyr VAWG lleol yn cefnogi Ardaloedd CPS, sy’n rhoi cyfeiriad strategol ac asesiad ddwywaith y flwyddyn o berfformiad yn uniongyrchol i’r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) trwy System Sicrwydd VAWG. Mae cydlynwyr VAWG yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol drwy Baneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIP). Rhannwyd amrywiaeth o arferion da o ran VAWG ar draws Ardaloedd CPS, a rhoddir y manylion yn yr adrannau data VAWG sydd wedi eu hatodi i’r adroddiad hwn.

Mae VAWG yn trafod amrywiaeth eang o droseddau yn yr adroddiad yn gyffredinol. Ond ar gyfer dibenion rheoli perfformiad, mae’r CPS wedi casglu is-setiau o droseddau – cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol. Rhoddir y data ar gyfer yr is-set o droseddau ‘VAWG’ isod ac yn adran gyntaf yr atodiad data VAWG i’r adroddiad. Rhoddir adroddiad am yr holl feysydd VAWG ar wahân isod ac mewn adrannau penodol o’r atodiad data VAWG i’r adroddiad, o gam-drin domestig hyd at bornograffi. Cydnabyddir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng data a lumanwyd[4] ar gyfer cam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant, ond nid yw’n nifer sylweddol.

## Is-set VAWG

Ar gyfer yr is-set ‘VAWG’ o gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol:

- Yn 2015-16, atgyfeiriwyd 124,737 o ddiffynyddion troseddau ‘VAWG’[5] at y CPS – gostyngiad bychan o 4,320 o atgyfeiriadau (3.3%) ers 2014-15 pan gyrhaeddodd yr atgyfeiriadau’r lefel uchaf a gofnodwyd ar 129,057.

- Asesir y gostyngiad bychan hwn mewn cymhariaeth â chynnydd bychan yn y gyfran o droseddau y cafwyd cyhuddiad ynddynt[6] – 69% mewn cymhariaeth â 68.5% yn 2014-15. In 2015/16, cyhuddwyd 86,067 o ddiffynyddion (dim ond 2.6% yn llai nag yn 2014-15).

---

hwn yw rhoi asesiad o berfformiad ar sail y data gorau sydd ar gael o systemau rheoli achosion y CPS. Mae’r ystadegau swyddogol sy’n ymwneud â throseddau a phlismona yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a’r ystadegau swyddogol sy’n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i’r llys, y llysoedd a’r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[4] Llumanwyd ar gyfer cam-drin domestig, treisio a cham-drin plant.

[5] Nid yw atgyfeiriadau’r heddlu, gan gynnwys y niferoedd a gyhuddwyd, yn cynnwys troseddau rhywiol, ac eithrio treisio

[6] Mae’r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy’n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i’w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i’r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

- Cododd y nifer o droseddau 'VAWG' a erlynwyd[7] yn 2015-16 o 107,104 yn 2014-15 i 117,568, cynnydd o 10,464 o ddiffynyddion – 9.8% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cynyddodd y nifer a gollfarnwyd hefyd o 8,502, o 78,773 yn 2014-15 i 87,275, cynnydd o 10.8% a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cododd y gyfradd gollfarnu i 74.2%, o 73.5% yn y flwyddyn flaenorol.

## Cam-drin domestig

- Gostyngodd y nifer o atgyfeiriadau DA[8] gan yr heddlu ychydig o 122,898 i 117,882 yn 2015-16 – gostyngiad o 5,016 o atgyfeiriadau (4.1%) ers 2014-15.

- Cyhuddwyd 69.7% o'r atgyfeiriadau hyn yn 2015-16, y gyfran gyhuddo uchaf a gofnodwyd erioed (i fyny o 68.9% yn 2014-15) gan arwain at weld 82,157 o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo.

- Cododd niferoedd yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 i 100,930 o 92,779 – cynnydd o 8,151 o ddiffynyddion (8.8%) ers 2014-15 ac eto y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- O'r diffynyddion hynny pan gofnodwyd rhyw, roedd 92.1% yn ddiffynyddion gwrywaidd a 7.9% yn fenywaidd; o'r dioddefwyr hynny pan gofnodwyd rhyw roedd 83.3% yn fenywod a 16.7% yn wryw.

- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 75,235 – cynnydd o 6,634 o gollfarnau (9.7%) ers 2014-15 a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Ochr yn ochr â'r cynnydd yn y niferoedd, cynyddodd y gyfradd gollfarnu o 73.9% i 74.5% yn 2015-16 – yn Chwarter 4, 2015-16 cododd y gyfradd gollfarnu i 75.4%, y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed.

- Yn Rhagfyr 2015, gweithredwyd y drosedd newydd o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi. Rhoddodd y CPS gyfarwyddyd a hyfforddiant i erlynyddion ac mae'n monitro perfformiad.

- Aseswyd canfyddiadau'r adolygiad o Lysoedd Trais Domestig Arbenigol a gynhaliwyd yn 2014-15 a'u rhannu gyda'r Llysoedd a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn 2015-16, i wella perfformiad.

- Arweiniodd y Bwrdd Dioddefwyr a Thystion ar draws y system cyfiawnder troseddol ymarfer cam-drin domestig 'Plymio'n Ddwfn' yn 2015, yn dadansoddi chwe llys a lwyddodd i gael y cyfraddau collfarnu uchaf i ddynodi elfennau arfer gorau. Mae'r ymarfer yn cael ei ymestyn yn 2016, gan brofi'r elfennau.

---

[7] Sylwer bod y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2015-16 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd â'r rhai a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2015-16.
[8] Cyn Rhagfyr 2015, nid oedd trosedd benodol o "drais neu gam-drin domestig", felly roedd achosion "trais neu gam-drin domestig" yn cael eu herlyn dan amrywiaeth o droseddau eraill, yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth. Mae'r CPS yn llumanu pob achos cam-drin domestig, beth bynnag yw'r drosedd, i sicrhau bod cydymffurfiad â pholisi a chyfarwyddyd y CPS yn ogystal â monitro perfformiad.

- Wedi eu hamlinellu yn atodiad data VAWG yr adroddiad hwn mae astudiaethau achos ac arfer da o nifer o Ardaloedd CPS yn dangos y ffyrdd y maent wedi gwella canlyniadau erlyniadau – yn cynnwys achosion sy'n darlunio erlyniadau am gaethwasanaeth, gorfodi a rheoli, stelcio a defnyddio tystiolaeth res gestae.

## Stelcio ac aflonyddu[9]

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,986 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2015-16; sy'n gynnydd o 864 trosedd (7.1%) ers 2014-15 pan gychwynnwyd 12,122 o erlyniadau a dyma'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio y cychwynnwyd eu herlyn, roedd 9,077 (69.9%) yn gysylltiedig â cham-drin domestig – cynnydd o 847 yn gysylltiedig â DA (10.3%) o 8,230 yn y flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cychwynnwyd 1,102 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (yn debyg i 2014-15 pan gychwynnwyd 1,103 o erlyniadau).

- Yn benodol, cychwynnodd 745 o erlyniadau yn gysylltiedig â DA dan y troseddau stelcio.

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 15,384 o droseddau torri gorchmynion atal, cynnydd o 13.5% o 13,559 yn 2014-15 a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed; roedd 85.7% o'r rhain yn gysylltiedig â DA.

- Cychwynnwyd erlyn 6,672 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 7,013 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 4.9%; roedd 93.6% o'r rhain yn gysylltiedig â DA.

- Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am 2015 ar orchmynion atal ac erlyn stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion atal yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2 o atodiad data VAWG yr adroddiad hwn. Dangosodd y data ragor o gollfarnau dan y troseddau stelcio mwy difrifol, Adran 4A (a.4A) stelcio yn cynnwys ofn trais/braw difrifol neu ofid mewn cymhariaeth ag a.2A stelcio gydag ofn/dychryn/gofid.

- Yn dilyn cyfarfod i randdeiliaid yng Ngorffennaf 2015, sefydlwyd gweithgor, yn cynnwys arbenigwr y system cyfiawnder troseddol traws-lywodraethol a chynrychiolwyr asiantaethau'r trydydd sector, i archwilio gwelliannau i hyfforddiant i erlynyddion ar stelcio. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn hwyrach yn 2016-17.

## Treisio

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,855 yn 2015-16 – cynnydd o 696 o atgyfeiriadau (11.3%) ers 2014-15.

- Cyhuddwyd 3,910 (57% o'r atgyfeiriadau hyn), y niferoedd uchaf erioed a chynnydd o 262 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (7.2%) ers 2014-15.
- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 i 4,643 – cynnydd o 107 o erlyniadau (2.4%) ers 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

[9] Sylwer mai dim ond o'r system ddata CPS ar sail trosedd y mae data stelcio ac aflonyddu ar gael ac felly ni allant gynnwys data ar atgyfeiriadau'r heddlu a chyhuddiadau.

- O'r diffynyddion pan gofnodwyd rhyw roedd 98.6% yn wrywaidd a 1.4% yn fenywaidd – mae atodiad data VAWG yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion yn ôl rhyw[10].

- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,689 – cynnydd o 108 diffynnydd (4.2%) ers 2014-15 a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cynyddodd cyfradd gollfarnu'r CPS yn 2015-16 i 57.9% o 56.9% yn 2014-15.

- O'r holl ddeilliannau aflwyddiannus[11], mae'r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor wedi gostwng ychydig i 61.4% yn 2015-16 o 62.7% yn 2014-15.

- Rhoddir ystadegau cenedlaethol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel yr ystadegau swyddogol ar ddiffynyddion a erlynwyd am dreisio yn Atodiad 2 yr atodiad adroddiad data VAWG i roi cyd-destun i ddata'r CPS ac esbonio'r gwahaniaethau yng nghymarebau a chyfraddau collfarnu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r CPS.

- Sefydlwyd Grŵp Llywio Treisio Cenedlaethol gan yr Heddlu a'r CPS yn 2015 i weithredu ar yr offer a'r camau o'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol 2014-15 ac argymhellion o'r adolygiadau annibynnol[12] yn 2014 a 2015.

- Lansiwyd ymgyrch genedlaethol amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol ar gydsyniad (#ConsentIs) yn 2015, gan ennill Gwobr Cyfathrebu'r Sector Cyhoeddus yn 2016.

- Gweithredwyd model adnoddau newydd genedlaethol i Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol yn y CPS gan ddyblu'r adnoddau. Datblygwyd safonau ffeiliau cenedlaethol diwygiedig.

- Sefydlwyd fforwm bob deufis i reolwyr RASSO'r CPS yn 2015 i rannu arfer da a'r gwersi a ddysgwyd, i gyflawni gwelliannau lleol.

- Sefydlwyd tri chynllun treialu ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS i ddatblygu gwell trefniadau i roi cyngor cynnar ar ymchwilio mewn achosion treisio.

- Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar drais yn 2015-16.

- Cyflwynwyd trefniadau lles wedi eu creu i'r diben i arbenigwyr sy'n ymdrin ag achosion treisio ac ymosodiadau rhywiol difrifol yn 2015.

- Cynhwysir arfer da ardaloedd lleol yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn a nifer o astudiaethau achos sy'n dangos materion datgelu, dedfrydu gordrugarog a chefnogaeth i ddioddefwyr bregus.

[10] Nid yw'r cofnodi ar ryw'r dioddefwr mewn achosion treisio yn ddigon cadarn i roi adroddiad am y cyfrannau, ond rhoddir y niferoedd yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad.
[11] Rhoddir y diffiniadau ar gyfer deilliannau aflwyddiannus yn yr eirfa – mae amrywiaeth o resymau yn cynnwys materion dioddefwyr, gwrthddweud yn y dystiolaeth a rhyddfarnau, wedi eu rhannu yn rhai a bennwyd gan farnwr a rhyddfarnau gan reithgor.
[12] Roedd yr adolygiadau yn cynnwys Adroddiad y Fonesig Elish Angiolini ar yr adolygiad o ymdrin ag ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain ac adolygiad HMCPSI o Gael y Dystiolaeth Orau mewn Achosion Cam-drin Plant yn Rhywiol.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)[13]

- Ni all y CPS gofnodi data cyn cyhuddo ar gyfer troseddau rhywiol[14].

- Erlynwyd 11,995 o ddiffynyddion yn 2015-16 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 22.5% o 9,789 yn 2014-15; gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- O'r diffynyddion pan gofnodwyd rhyw roedd 97.3% yn wrywaidd a 2.7% yn fenywaidd – mae atodiad data VAWG yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion yn ôl rhyw, pan fydd hynny'n bosibl.

- Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 9,351 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 23.2% ers 2014-15, sy'n cyfateb i gyfradd gollfarnu o 78%.

# Priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod[15]

## Priodas dan Orfod

- Mae data'r CPS ar briodas dan orfod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014.

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau priodas dan orfod gan yr heddlu i 90 yn 2015-16 – o 82 yn 2014-15.

- Cyhuddwyd 57 (63.3% o'r atgyfeiriadau hyn), y nifer uchaf a gofnodwyd erioed a chynnydd o 58.5% mewn cymhariaeth â 2014-15.

- Cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 i 53 – cynnydd o 46 yn 2014-15.

- O'r diffynyddion pan gofnodwyd rhyw roedd 81.1% yn wrywaidd a 18.9% yn fenywaidd – mae atodiad data VAWG yr adroddiad yn rhoi mwy o fanylion yn ôl rhyw, pan fydd ar gael[16].

- Roedd 60.4% o'r erlyniadau yn llwyddiannus, gostyngiad o 63.0% yn 2014-15.

- Roedd pum erlyniad dan y drosedd priodas dan orfod benodol yn 2015-16 a chwech am dorri gorchymyn diogelu priodas dan orfod.

- Rhoddir manylion gweithio mewn partneriaeth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn.

---

[13] Gall troseddau rhywiol ac eithrio treisio amrywio o droseddau cyffwrdd rhywiol heb gydsyniad i ymosodiadau rhywiol difrifol.
[14] Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys manylion penderfyniadau cyn cyhuddo am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio) ac felly ni all roi data ar atgyfeiriadau'r heddlu na'r diffynyddion a gyhuddwyd.
[15] Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn yng nghyswllt y troseddau hyn.
[16] Nid yw'r cofnodi ar ryw'r dioddefwr mewn achosion priodas dan orfod yn ddigon cadarn i roi adroddiad am y cyfrannau, ond amlinellir y niferoedd yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn.

## Trais ar sail anrhydedd

- Gostyngodd y nifer o atgyfeiriadau troseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV)[17] gan yr heddlu i 216 yn 2015-16 o 251 yn 2014-15.
- Cyhuddwyd 145 (67.1%) o'r atgyfeiriadau hyn; gostyngiad o 157 yn 2014-15.
- Erlynwyd 182 o ddiffynyddion, gostyngiad o 225 y llynedd.
- O'r diffynyddion hynny pan gofnodwyd rhyw, roedd 86.8% yn wrywaidd a 13.2% yn fenywaidd; o'r dioddefwyr hynny pan gofnodwyd rhyw, roedd 76.4% yn fenywaidd a 23.6% yn wrywaidd.
- Collfarnwyd 91 o ddiffynyddion, gostyngiad o 129 yn 2014-15. Gostyngodd y gyfran a gollfarnwyd hefyd o 57.3% i 50%.
- Rhoddir manylion gweithio mewn partneriaeth i ymdrin ag arferion traddodiadol niweidiol yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn.
- Datblygwyd cynllun gweithredu ar FM a HBV i ymateb i adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ar briodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd ac FGM ac mae'n ymdrin â ffyrdd i wella erlyniadau.

## Anffurfio organau rhywiol menywod

- Gall achosion Anffurfio Organau Rhywiol Menywod (FGM) fod yn achosion heriol i'w herlyn am nifer o resymau, ond yn bennaf oherwydd yr anawsterau i gael tystiolaeth gan y dioddefwyr ac wrth sicrhau eu bod yn parhau i ymwneud â'r camau cyfreithiol.
- Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 ym Mawrth 2015 ac fe'i gweithredwyd yn ystod 2015-16[18], gan gyflwyno darpariaethau newydd i ymdrin â throseddau tu allan i'r diriogaeth, methiant i atal FGM, sicrhau bod y dioddefwyr yn ddienw ar hyd eu hoes, gorfodaeth i roi adroddiad a gorchymyn diogelu FGM newydd.
- Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd gan y CPS a chyfarwyddyd statudol i adlewyrchu'r newidiadau hyn yn 2015-16.
- Arweiniodd yr orfodaeth i roi adroddiad ar weithwyr proffesiynol rheng flaen at gynnydd yn y nifer o achosion y rhoddwyd adroddiad amdanynt i'r heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cynhaliwyd galwadau cynadledda cyson gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus gyda Phrif Erlynyddion y Goron (CCP) i fonitro cynnydd ar FGM.
- Mynychodd y DPP gyfarfodydd cyson gyda'r Coleg Obstetreg a Gynaecoleg Brenhinol.
- Mae ardaloedd y CPS wedi cynnal amrywiaeth o gynlluniau i ymdrin â'r nifer isel o atgyfeiriadau am droseddau FGM, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth a chymryd rhan mewn cynadleddau ieuenctid ac iechyd.

---

[17] Rhoddir lluman ar achosion trais ar sail anrhydedd yn y CPS.
[18] Amlinellir y dyddiadau gweithredu yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn.

## Cam-drin plant

- Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant[19] gan yr heddlu i 13,282 yn 2015-16 o 12,840 yn 2014-15, cynnydd o 3.4%.

- Cyhuddwyd 8,889 (66.9% o'r atgyfeiriadau hyn), cynnydd o 193 ers 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 11,130 - cynnydd o 1,085 (10.8%) ers 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- O'r diffynyddion pan gofnodwyd rhyw roedd 89.6% yn wrywaidd a 10.4% yn fenywaidd[20].

- Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant i 8,439 yn 2015-16 o 7,469 yn 2014-15 – y nifer uchaf erioed a chynnydd o 13%.

- Yn 2015-16 roedd 41 o erlyniadau lladdiad cam-drin plant[21], cynnydd o 17 yn 2014-15, gyda 75.6% yn arwain at gollfarnau.

- Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau cam-drin plant yn erbyn yr unigolyn (o 3,192 i 3,582); gyda deilliannau llwyddiannus yn codi o 71.3% i 72.8%, o gymharu â 2014-15; y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant yn 2015-16 o 5,387 i 6,217 – cynnydd o 830 (15.4%) a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

- Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus i erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol o 3,975 i 4,643 y nifer uchaf a gofnodwyd erioed – cynnydd o 16.8%. Cynyddodd y gyfradd gollfarnu o 73.8% yn 2014-15 i 74.7% yn 2015-16.

- Mae'r CPS yn parhau i chwarae rôl ganolog yn y strategaeth draws-lywodraethol dan arweiniad y Swyddfa Gartref i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant.

- Mae astudiaethau achos o Ardaloedd CPS, sydd yn atodiad data VAWG yr adroddiad hwn, yn darlunio erlyn achosion sy'n ymwneud â gwastrodi a cham-drin ymddiriedaeth; ynghyd â manylion peth arfer da lleol.

## Masnachu mewn pobl a phuteindra

- Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl[22].

- Cynyddodd y nifer o ddiffynyddion mewn achosion masnachu mewn pobl a atgyfeiriwyd gan yr heddlu ychydig i 246 yn 2015-16 o 234 yn 2014-15; y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

---

[19] Llumanir achosion cam-drin plant yn y CPS.
[20] Nid yw'r cofnodi ar ryw'r dioddefwr yn ddigon cadarn i roi adroddiad am y cyfrannau, ond amlinellir y niferoedd yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn.
[21] Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.
[22] Ers Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

- Cyhuddwyd 189 (76.8% o'r atgyfeiriadau hyn); gostyngiad o 195 yn y flwyddyn flaenorol (pan gyhuddwyd 83.3% o'r atgyfeiriadau).

- Cyrhaeddodd y nifer o erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn 2015-16 y nifer o 295 cynnydd o 187 yn 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed a chynnydd o 57.8%.

- O'r diffynyddion hynny pan gofnodwyd rhyw, roedd 78.2% yn ddiffynyddion gwrywaidd a 21.8% yn fenywaidd; o'r dioddefwyr hynny pan gofnodwyd rhyw, roedd 60.6% yn fenywaidd a 39.4% yn wrywaidd.

- Roedd cynnydd hefyd yn nifer y collfarnau masnachu mewn pobl o 130 yn 2014-15 i 192 yn 2015-16 (er bod gostyngiad yn y gyfran o 69.5% i 65.1% dros yr un cyfnod).

- Rhoddir data o'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol[23] fel data cyfeirio yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad i ddynodi'r rhaniad rhwng y ddau ryw o ran dioddefwyr posibl a atgyfeiriwyd i gael cymorth – sy'n bennaf yn ddioddefwyr benywaidd cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig a dioddefwyr gwrywaidd cam-fanteisio ar eu gwaith.

- Gweithredwyd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yng Ngorffennaf 2015 a rhoddwyd cyfarwyddyd diwygiedig a hyfforddiant i erlynyddion.

- Mae'r CPS wedi gweithio'n glos gydag awdurdodau erlyn eraill yn y Deyrnas Unedig i roi ymateb mwy cydlyn a chadarn yn y Deyrnas Unedig. Cadeiriodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Gynhadledd ar Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern yn 2016 gyda chynrychiolwyr o'r Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.

- Roedd cynnydd yn nifer y troseddau yn gysylltiedig â phuteindra[24] yn ymwneud â rheoli puteindra (100 o 83) a chadw puteindai (211 o 182) mewn cymhariaeth â gostyngiad mewn erlyniadau am blagio pen ffordd o 227 yn 2014-15 i 153 yn 2015-16. Gostyngodd yr erlyniadau am droseddau stryd o 456 yn 2014-15 i 163 yn 2015-16.

- Mae'r astudiaethau achos yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o erlyniadau am fasnachu mewn pobl i fanteisio yn rhywiol a gwaith trwy orfodaeth.

## Pornograffi ac anweddustra

- Yn 2015-16 bu cynnydd mewn erlyn delweddau o gamdriniaeth plant, o 21,580 yn 2014-15 i 22,545 (4.5%), gan gynnwys erlyniadau a gychwynnwyd am 16,672 o droseddau o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant drwy ffotograffau.

- Roedd cynnydd yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 5,782 i 6,940 yn 2015-16 (20%).

- Roedd tri erlyniad am bornograffi treisio a 206 am bornograffi dial.

[23] Fframwaith yw'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i ddynodi dioddefwyr posibl masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth addas.

[24] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau pan gychwynnwyd erlyniad, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd.

- Mabwysiadodd y CPS, yr heddlu a'r farnwriaeth ddull newydd yn 2016 i symud achosion delweddau anweddus ar-lein ymlaen gyda throseddwyr risg isel yn fwy cyflym a chyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig i erlynyddion yng Ngorffennaf 2016.

- Mae astudiaethau achos yn yr atodiad data VAWG i'r adroddiad hwn yn darlunio erlyniadau am gam-fanteisio ar ddioddefwyr bregus, pornograffi treisio a phornograffi dial.

Rhoddir yr adroddiad data VAWG, sy'n amlinellu data perfformiad am erlyniadau VAWG, astudiaethau achos ac arfer da ar dudalen 17.

# Cynnwys

**Adroddiad data VAWG** **17**
Cyflwyniad 17
Cynlluniau traws-lywodraethol 19

**Trais yn erbyn Menywod a Merched** **20**
Fframwaith VAWG y CPS 20
Gwaith VAWG rhyngwladol 21
Materion dioddefwyr 21
Cyfryngau Cymdeithasol 23
Ansawdd gwaith achos VAWG y CPS 24
Data perfformiad VAWG 24
Perfformiad ardaloedd 28
Materion cydraddoldeb 28

**Cam-drin domestig** **29**
Perfformiad ardaloedd 32
Materion cydraddoldeb 33
Perthynas 33
Materion traws-lywodraethol: 34
Hyfforddiant 36
Llysoedd Arbenigol DV 36
'Plymio'n Ddwfn' i Gam-drin Domestig 37
Lladdiadau domestig 38
Datrysiadau tu allan i'r llys 39
Cyfiawnder adferol 39
Gweithio mewn partneriaeth yn lleol 39
Stelcio ac aflonyddu DA 40
**Gorchmynion atal** 41

**Stelcio ac aflonyddu** **43**
Hyfforddiant 45
Gweithredu traws-lywodraethol 45
Arfer da lleol 46

**Treisio** **47**
Perfformiad ardaloedd 53
Materion cydraddoldeb 54
Materion traws-lywodraethol 55
Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol 56
Adolygiad Thematig HMCPSI ar ddull y CPS o ymdrin â treisio a throseddau rhywiol difrifol 60
Adroddiad y Fonesig Elish Angiolini QC 60
Grŵp Llywio Treisio Cenedlaethol 61
Honiadau ffug honedig 62

**Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)** **63**
Perfformiad ardaloedd 65
Materion cydraddoldeb 65
Cynllun treialu croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw 66

**Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod 68**
Priodas dan Orfod 68
Deddfwriaeth priodas dan orfod 69
Trais ar sail anrhydedd 70
Materion traws-lywodraethol 71
Cyfarwyddyd a Hyfforddiant Cyfreithiol 71
Arferion da Ardaloedd 72
Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 72
Deddfwriaeth 72
Arferion da Ardaloedd 73

**Cam-drin plant 75**
Gweithredu traws-lywodraethol 77
Gwaith partneriaeth 77
Deddfwriaeth 78
Panel Cenedlaethol Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol 79
Rhwydwaith Cam-drin Plant yn Rhywiol 79
Panel Eiriolwyr Treisio a Cham-drin Plant 80
Gangiau 80

**Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern 82**
Deddfwriaeth 85
Cyfarwyddyd a hyfforddiant cyfreithiol 86
Gwaih ar draws y Deyrnas Unedig 86
Gwaith rhyngwladol 87

**Puteindra 88**
Gwaith traws-lywodraethol 90

**Pornograffi ac anweddustra 91**
Datgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd 93
Pornograffi Treisio 94

**Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal 96**

**Atodiad 2: Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder 104**
Ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) am Stelcio, Aflonyddu a Gorchmynion Atal 104
Stelcio ac Aflonyddu: 105
Gorchmynion atal a'u torri: 106
Ystadegau Treisio Cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder 107
Prydlondeb o gyhuddo i'r llys 108

**Geirfa termau 109**

**Geirfa acronymau 117**

# Adroddiad data VAWG

## Cyflwyniad

Yr Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) hwn gan y CPS yw'r nawfed argraffiad i'w gyhoeddi gan y CPS. Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad o berfformiad wrth erlyn ar droseddau sydd wedi cael eu casglu gyda'i gilydd dan y pennawd 'VAWG', sy'n cydnabod bod niferoedd anghymesur o fenywod yn dioddef y grŵp hwn o droseddau. Mae strategaeth VAWG y CPS yn rhan o'r fframwaith strategol trosfwaol traws-lywodraethol VAWG sy'n cydnabod VAWG fel un o faterion sylfaenol hawliau dynol, a hawliau menywod, gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau. Mae rhyddid rhag trais a chamdriniaeth yn cael ei gydnabod yn glir mewn cyfraith ryngwladol o ran hawliau dynol a hawliau rhywiol. Cydnabyddir VAWG – yn fyd-eang, a gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, fel ffurf o droseddu lle mae rhyw yn chwarae rhan.

Fel y mae'r Cenhedloedd Unedig[25] yn ei ddisgrifio: *Mae trais yn erbyn menywod yn arddangos y cysylltiadau anghyfartal o ran grym yn hanesyddol a fu rhwng dynion a menywod, sydd wedi arwain at dra-arglwyddiaethu a gwahaniaethu yn erbyn menywod gan ddynion ac atal menywod rhag symud ymlaen yn llawn, a... thrais yn erbyn menywod yw un o'r peirianweithiau cymdeithasol allweddol y mae menywod yn cael eu gorfodi i safle israddol trwyddo mewn cymhariaeth â dynion.*

Mae'r polisïau trosedd wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn eistedd dan fframwaith cyffredinol 'VAWG' i ymdrin â throseddau sydd wedi cael eu cyflawni yn bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod. Mae'r CPS yn ymroddedig i sicrhau cyfiawnder i *holl* ddioddefwyr y troseddau sy'n cael eu casglu dan y pennawd 'VAWG'. I'r diben hwnnw, rydym yn gynhwysol o ran ein dull. Gweithredir ein holl bolisïau VAWG yn deg a chyfartal i'r holl dramgwyddwyr a dioddefwyr troseddau – beth bynnag yw eu rhyw.

Mae'r adroddiad yn ddadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ym mhob ffrwd VAWG – a nodir isod. Rydym yn cydnabod y gall y troseddau hyn gael eu targedu at ddioddefwyr gwrywaidd a thrawsrywiol yn ogystal â dioddefwyr benywaidd ac felly mae'r adroddiad yn cynnwys *cyfanswm y data ar yr holl dramgwyddwyr beth bynnag fo eu rhyw.* Pan fydd yn bosibl mae'r data yn cael ei dorri i lawr, yng nghorff yr adroddiad, yn ôl rhyw yn ogystal â niferoedd cyffredinol a'r cyfrannau.

Deillia'r data sy'n sail i'r adroddiad o System Reoli Achosion y CPS a'r System Gwybodaeth Rheoli gysylltiedig sy'n dangos niferoedd y diffynyddion, troseddau a'r dioddefwyr neu dystion. Cedwir y data mewn cronfeydd data ar wahân yn y System Gwybodaeth Rheoli[26].

Dynodir achosion cam-drin domestig, treisio, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, cam-drin plant a masnachu mewn pobl trwy roi llumanau ar y diffynyddion yn y System Rheoli Achosion a rhoddir adroddiad arnynt trwy'r System Gwybodaeth Rheoli.

Cofnodir y data a gedwir yn y CMS ar sail un dan amheuaeth (cyn cyhuddo) neu ddiffynnydd (ar ôl cyhuddo). Mae cronfa ddata MIS yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag ar ôl cyhuddo, i rai dan amheuaeth a diffynyddion, ac felly mae'n rhoi data ar atgyfeiriadau a diffynyddion a gyhuddwyd yn

---

[25] Yn 2003, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig: http://www.ohchr.org/Documents/Issues/Women/15YearReviewofVAWMandate.pdf

[26] Yn yr un modd ag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae'r data yn agored i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

ogystal â'r deilliannau. Yn ychwanegol, mae'n rhoi proffil cydraddoldeb y diffynyddion[27]. Rydym yn dadansoddi deilliannau erlyniadau trwy ddefnyddio'r gronfa ddata diffynyddion ac felly mae'r atodiad hwn i'r adroddiad yn adlewyrchu hynny trwyddo. Rhoddir rhagor o fanylion ym mhob adran ar y gyfran o ddiffynyddion a erlynwyd yn ôl rhyw pan fydd hynny ar gael.

Dim ond trwy'r gronfa ddata troseddau a gofnodwyd yn y CMS ac y rhoddwyd adroddiad arnynt trwy'r MIS y gall y data am stelcio, aflonyddu, troseddau rhywiol, puteindra, pornograffi ac anlladrwydd gael ei roi. Mae'r data hwn yn cynnwys y nifer o droseddau pan gychwynnwyd erlyniad mewn llys ynadon, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu, y rhai a gyhuddwyd gan y CPS a deilliannau'r erlyniad[28]. Yn ychwanegol nid oes data am broffiliau dioddefwyr ar gael ar gyfer y troseddau hyn.

System reoli achosion a grëwyd i'r diben yw System Reoli Tystion y CPS a ddyluniwyd gan ac ar gyfer staff yr Uned Gofal Tystion i reoli eu hachosion yn effeithiol. Mae'r System Reoli Tystion yn cofnodi data dioddefwyr a thystion, gan gynnwys dynodi achosion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion bregus, i alluogi i Unedau Gofal Tystion roi cefnogaeth a gwybodaeth addas iddynt. Pan fydd yn cael ei gofnodi, mae'r system yn cynnwys data yn cofnodi proffiliau cydraddoldeb y dioddefwyr (a'r tystion). Dim ond data am *niferoedd* y dioddefwyr sy'n gysylltiedig â chamau erlyn y gall yr WMS ei ddarparu, yn ôl rhyw (pan fydd ar gael), yn hytrach na *deilliant* yr erlyniadau hynny. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddata sy'n rhoi adroddiad am y niferoedd o ddioddefwyr honedig sy'n gysylltiedig â chamau cyn cyhuddo ac felly ni all gynnwys data ar atgyfeiriadau'r heddlu a'r CPS yn cyhuddo.

Ni all y data gael ei gysoni rhwng y gwahanol gronfeydd data ac felly ni all yr adroddiad roi gwybodaeth ar wahân ar ddeilliannau am y gamdriniaeth a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; nac unrhyw gysoni rhwng rhyw'r diffynnydd a rhyw'r dioddefwr.

Fel y gwnaeth mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad yn trafod amrediad o droseddau VAWG:

- cam-drin domestig;
- stelcio ac aflonyddu;
- treisio a throseddau rhywiol;
- priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod;
- cam-drin plant;
- masnachu mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl i ddiben cam-fanteisio'n rhywiol;
- puteindra; a
- phornograffi.

Mae'r adroddiad yn rhoi data a sylwebaeth mewn adrannau ar wahân ar bob un o'r meysydd VAWG, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ac arfer da. Mae'r prif faterion a gafodd eu dynodi yn 2015-16 wedi'u hamlygu ym mhob adran ac yn gallu newid yn ôl meysydd.

Mae'r CPS yn casglu data[29] i gynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y'u diffiniwyd yn Neddf Gwasanaeth Ystadegau a

[27] Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn cynnwys data ar eu rhyw, oedran a chefndir ethnig.
[28] Mae data troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn eithriad gan ei fod yn deillio o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r diffynyddion gyda lluman treisio a gall felly roi deilliant yr erlyniadau.
[29] Tynnwyd y data ar droseddau VAWG o System Rheoli Achosion y CPS (CMS) a'r System Rheoli Gwybodaeth gysylltiedig (MIS), sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi graddfa fawr, yn agored i gamgymeriadau posib wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

Chofrestru 2007[30]. Rydym yn ymroddedig i wella ansawdd ein data ac o ganol Mehefin 2015 fe wnaethom gyflwyno trefn sicrhau ansawdd data newydd a all esbonio peth amrywio annisgwyl rhwng setiau data. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi asesiad o berfformiad ar sail y data gorau sydd ar gael o systemau rheoli achosion y CPS.

Ceir gwybodaeth bellach, lawnach am amlygrwydd DA, treisio, troseddau rhywiol a stelcio yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW).

Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, yn cael eu hasesu a rhoddir adroddiad arnynt yn yr atodiad hwn. Rhoddir data am broffiliau cydraddoldeb dioddefwyr pan fydd ar gael ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella'r data yn ymwneud â dioddefwyr sy'n cael ei gasglu yn y system cyfiawnder troseddol.

Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Gellir dod o hyd i'r data gwaelodol ar gyfer yr adroddiad hwn[31] ar wefan y CPS, yn yr Adran cyhoeddiadau dan Underlying Data/Violence Against Women.

## Cynlluniau traws-lywodraethol

Ym Mawrth 2016, lansiwyd strategaeth draws-lywodraethol *– Ending Violence against Women and Girls 2016-2020* – yn amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu symud ymlaen.
Parheir i oruchwylio gweithrediad y gweithredoedd hyn, gan gynnwys y rhai ar gyfer y CPS gan y Grŵp VAWG Gweinidogion.

Roedd y strategaeth yn adeiladu ar waith strategaeth 2010-2015 a adolygwyd ym Mawrth 2015. Cyhoeddodd y llywodraeth adroddiad ar ei gwaith VAWG dros y cyfnod hwn – *A Call to End Violence against Women Progress report 2010-2015*. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys uchafbwyntiau'r hyn a gyflawnwyd gan y CPS.

[30] Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlismona yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Gartref a'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, dod â throseddwyr i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cynnal gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
[31] Cyfeirir at ddata trwy gydol yr adroddiad hwn; darperir unrhyw ddata gwaelodol atodol yn yr atodiad sydd ar gael ar wefan y CPS – gweler y ddolen.

# Trais yn erbyn Menywod a Merched

Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth o fewn cynlluniau busnes Ardal a Chenedlaethol y CPS yn 2015-16. Yn benodol bu ein pwyslais ar wella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion ac ansawdd gwaith achos.

## Fframwaith VAWG y CPS

**Hwylusydd VAWG Cenedlaethol y CPS:**
Mae Prif Erlynydd y Goron yn gweithredu fel Hwylusydd VAWG Cenedlaethol y CPS, gan gysylltu'r brif swyddfa a'r holl ardaloedd, yn ogystal â chadeirio'r Grŵp Ymgynghori Allanol (gweler isod).

**Arweinyddion VAWG Cenedlaethol y CPS:**
Mae arweinyddion VAWG Cenedlaethol y CPS yng Nghyfarwyddiaeth Weithrediadau prif swyddfa'r CPS yn goruchwylio'r gwaith VAWG ar draws yr holl Ardaloedd CPS. Mae rheolwyr y strategaeth VAWG yn goruchwylio'r modd y cyflawnir y strategaeth VAWG, yn arbennig trwy'r broses sicrhau VAWG a amlinellir isod.

**Cydlynwyr VAWG:**
Yn 2015-16, parhaodd Cydlynwyr VAWG Ardal i arwain erlyniadau VAWG yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ymgysylltu Cymunedol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth VAWG (EDCEM) i redeg Paneli Craffu ac Ymgysylltu Lleol (LSIPau). Mae gan bob Ardal baneli yn delio â materion VAWG – yn bennaf yn delio â DA ac erlyniadau treisio – ond roedd rhai hefyd yn canolbwyntio ar ffrydiau eraill VAWG.

Mae Cydlynwyr yn gweithio gyda'u Prif Erlynyddion y Goron i ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar berfformiad yn uniongyrchol i'r DPP trwy'r system sicrhau VAWG. Maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn fel rhwydwaith – cynhaliwyd cyfarfodydd ym Mehefin 2015 ac Ebrill 2016 i drafod gweithredu camau yn lleol.

**Cefnogaeth rhanddeiliaid:**
Ar lefel genedlaethol, parhaodd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) VAWG, yn cynnwys grwpiau arbenigol
VAWG allweddol, i gynghori tîm VAWG y CPS fel is-grŵp o'r Fforwm Atebolrwydd Cymunedol ehangach. Yn lleol mae rhanddeiliaid yn rhoi adborth ac yn cynnig cyngor trwy LSIPau CPS.

**Bothau gwaith achos a gwybodaeth VAWG y CPS:**
Yn unol â blaenoriaeth y CPS o sicrhau bod gan erlynyddion yr offer a'r sgiliau ar gyfer y gwaith, sefydlwyd adrannau VAWG ar fothau gwaith achos a gwybodaeth y CPS. Adnodd ar-lein yw'r bothau ac mae'r adrannau VAWG yn rhoi cymorth ymarferol i erlynyddion yn ymwneud â pharatoi gwaith achos yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da, cysylltiadau ac arweinyddion lleol, cydlynwyr, cyfarwyddyd cyfreithiol, pecynnau offer a chylchlythyrau VAWG. Bydd y CPS yn parhau i adolygu ac adeiladu ar y wybodaeth a roddir i sicrhau ei bod yn hygyrch a pherthnasol.

**Cylchlythyrau VAWG y CPS:**
Mae'r arweinyddion VAWG yn cyhoeddi cylchlythyrau VAWG CPS chwarterol, yn amlinellu'r diweddaraf am waith ar draws pob edefyn VAWG.

## Gwaith VAWG rhyngwladol

Yn 2015-16 parhaodd y CPS i erlyn achosion VAWG gydag elfen ryngwladol. Mae hyn yn dilyn datblygu strategaeth ryngwladol y CPS yn 2014-15 i ymdrin ag achosion: pan fydd y dystiolaeth neu'r tystion dramor; pan fydd troseddwyr yn ffoi dramor neu pan fydd y troseddau yn digwydd dan awdurdodaeth wahanol, yn ogystal â gwaith gydag awdurdodaethau gwahanol i wella erlyn troseddau VAWG o'r dechrau. Y nod yw sicrhau bod erlyniadau VAWG y CPS gydag elfen ryngwladol mor effeithlon â phosibl, gan ddefnyddio ei rwydwaith o erlynyddion a ddefnyddir dramor, a gweithio yn glos gydag Ardaloedd CPS, Adrannau Gwaith Achos, ar draws San Steffan a llywodraethau eraill.

### Cysylltiadau rhyngwladol:

Yn 2015-2016 rhoddodd Adran Gyfiawnder a Throseddau Cyfundrefnol Rhyngwladol y CPS gyngor a chymorth mewn achosion VAWG yng nghyswllt y gwledydd canlynol: Ariannin, Awstria, Barbados, Brasil, Bwlgaria, Canada, Y Weriniaeth Siec, Gweriniaeth Dominica, Yr Aifft, Ethiopia, Ffrainc, Yr Almaen, Gibraltar, Guernsey, Iwerddon, Yr Eidal, Israel, Jamaica, Siapan, India, Yr Arfordir Ifori, Kenya, Lithwania, Monaco, Mongolia, Moroco, Norwy, Ynysoedd y Philipiniaid, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Qatar, Rwmania, De Affrica, Sbaen, Sweden, Y Swistir, Tunisia, Twrci, UAE, UDA a Zimbabwe (mae nifer o ymholiadau rhyngwladol eraill y bydd Unedau RASSO'r CPS wedi ymdrin â nhw yn annibynnol).

Roedd hyn yn cynnwys ymholiadau i gael datganiadau tystion, cyfweliadau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau (ABE) i ddioddefwyr, cyfweliadau i rai dan amheuaeth, sefydlu dolenni fideo ar gyfer tystiolaeth fyw, cael tystiolaeth feddygol, cael data cyfathrebu, ceisiadau cyfraith cymharol mewn achosion awdurdodaeth tu allan i wladwriaethau, ceisiadau datgelu trydydd parti, materion awdurdodaeth a throsglwyddo camau cyfreithiol i wledydd eraill.

Cyfarfu'r tîm VAWG hefyd â chynrychiolwyr rhyngwladol o Banama ac India i drafod y dull o erlyn VAWG a rhannu arfer da.  Rhoddir manylion am waith rhyngwladol ychwanegol yn yr adran masnachu mewn pobl o'r adroddiad hwn.

## Materion dioddefwyr

Ymdrinnir â materion dioddefwyr ym mhob adran o'r atodiad hwn. Yn ogystal, mae nifer o faterion dioddefwyr cyffredinol o bwysigrwydd wrth erlyn achosion VAWG.

**Gwella Gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion:**
Parhaodd y pwyslais ar ansawdd gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion yn ystod 2015-16 yn unol â blaenoriaethau'r CPS fel y maent wedi cael eu gosod gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

**Strategaeth a chynllun gweithredu'r System Cyfiawnder Troseddol:**
Mae'r CPS yn gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau cydymffurfiad â Chod y Dioddefwyr a Siarter y Tystion.

**Hawl Dioddefwyr i Adolygiad:**
Sefydlwyd y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ym Mehefin 2013 i ganiatáu i ddioddefwyr geisio adolygiad o benderfyniad y CPS i beidio erlyn. Am ragor o wybodaeth am y cynllun VRR ewch i:

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_right_to_review/index.html. Rhoddir y newyddion diweddaraf a dadansoddiadau yn gyson am Ardaloedd, i wersi gael eu rhannu a bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar y both gwaith achos ac yn y pecyn hyfforddiant RASSO.

**Unedau Cyswllt Dioddefwyr:**
Sefydlwyd Unedau Cyswllt Dioddefwyr (VLU) penodol ar draws yr holl Ardaloedd CPS i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyfathrebiadau amserol, llawn empathi pan benderfynir atal unrhyw achos neu pan fydd y cyhuddiadau'n cael eu haddasu yn sylweddol dan y cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr, gan gynnig gwasanaethau gwell wedi eu teilwrio i ddioddefwyr sydd â mwyaf o angen cefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys dioddefwyr VAWG. Yn ogystal â bod yn siop un stop i ddioddefwyr y rhan fwyaf o droseddau o ran cyfathrebu ar ôl cwblhau, mae'r unedau hefyd yn gyfrifol am reoli'r cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygu, polisi adborth a chwynion y CPS a gwaith gweinyddu cynlluniau eraill sy'n ymwneud â dioddefwyr megis cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth.

**Siarad â thystion yn y llys:**
Fel rhan o'r ymrwymiad i wella'r profiad 'yn y llys' i ddioddefwyr a thystion, mae'r CPS wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sy'n egluro'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan eiriolwyr CPS wrth gefnogi dioddefwyr a thystion i roi'r dystiolaeth orau yn y llys. Mae'r cyfarwyddyd yn pwysleisio'r angen i'n heiriolwyr gynorthwyo dioddefwyr a thystion yn well a rhoi gwybod iddynt beth i'w ddisgwyl cyn rhoi eu tystiolaeth. Profwyd ymarferoldeb gweithredu'r cyfarwyddyd ar nifer o safleoedd arbrofol, cyn iddo gael ei gyflwyno ar draws Ardaloedd CPS. Datblygwyd rhaglen hyfforddi benodol genedlaethol i'r staff sy'n gyfrifol am siarad â thystion yn y llys (eiriolwyr a pharagyfreithwyr).

**Datganiadau Personol Dioddefwr:**
Cynhaliodd y Comisiynydd Dioddefwyr adolygiad o'r cynllun Datganiadau Personol Dioddefwyr (VPS)[32] rhwng Mawrth a Mehefin 2015, ac roedd ei hadroddiad a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2015 yn argymell y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol (gan gynnwys y CPS) wella'r cydymffurfiad â'r cynllun. Sefydlwyd gweithgor amlasiantaethol i ystyried yr adroddiad a datblygu cynllun gweithredu i ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad. Nod y gweithgor hwn, sy'n cael ei arwain gan y CPS, yw datblygu'r cynllun erbyn diwedd Medi 2016. Yna bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Dioddefwyr a Thystion traws-asiantaethol i'w gymeradwyo.

**Camau arbennig:**
Yn dilyn cyhoeddi'r cyfarwyddyd camau arbennig diwygiedig[33] yn 2015, mae'r CPS wedi bod yn rhan o weithgor y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddiwygio cyfarwyddyd 'Cyflawni'r Dystiolaeth Orau mewn Camau Cyfreithiol' ar gyfweld dioddefwyr a thystion, a chyfarwyddyd ar ddefnyddio camau arbennig. Mae'r cyfarwyddyd diwygiedig yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad ar y cyd gan Arolygaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar 'Gyflawni'r Dystiolaeth Orau mewn achosion Cam-drin Plant yn Rhywiol' yn Rhagfyr 2014 ac Adolygiad yr Arglwydd Brif Ustus Leveson o 'Effeithlonrwydd yn y System Gyfiawnder Troseddol' a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd cyfweliadau dioddefwyr a thystion eto gan gynnwys gwella eu strwythur a'r ffordd y maent yn cael eu cyflwyno yn y llys. Rhagwelir y bydd y cyfarwyddyd diwygiedig yn cael ei gyhoeddi yn 2016 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda'r CPS, yr heddlu, yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg yn llofnodwyr.

[32] Mae'r Datganiadau Personol Dioddefwr (VPS) yn rhoi cyfle i ddioddefwyr ddisgrifio effaith ehangach y drosedd arnynt, mynegi eu pryderon a dynodi a oes arnynt angen cefnogaeth ai peidio.
[33] Cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA) ystod o gamau y gellir eu defnyddio i hwyluso casglu a rhoi tystiolaeth gan dystion bregus a dan fygythiad. Gyda'i gilydd fe elwir y mesurau yn "gamau arbennig".

**Porth Eiriolwyr:**
Mae'r CPS yn dal i gyfrannu at y Porth Eiriolwyr, sy'n rhoi cyfarwyddyd ymarferol i ymarferwyr cyfiawnder troseddol ar dystion bregus a diffynyddion.

**Arolwg bodlonrwydd dioddefwyr a thystion cenedlaethol:**
Cynhaliodd y CPS arolwg bodlonrwydd cenedlaethol i asesu lefel y bodlonrwydd gan ddioddefwyr a thystion ar y gwasanaeth y maent wedi ei dderbyn gan y CPS.
Cymerodd tua 7,700 o ddioddefwyr a thystion ran yn yr arolwg a chyhoeddwyd y canlyniadau ym Medi 2015. Y canfyddiadau allweddol oedd bod 82% o'r dioddefwyr ac 88% o'r tystion yn teimlo, pan oeddynt yn cael cyswllt ag Uned Cyswllt Dioddefwyr y CPS, ei fod o gymorth.

Roedd y bodlonrwydd yn uwch ymhlith tystion na dioddefwyr, gyda 74% o dystion yn 'eithaf bodlon' neu'n 'fodlon iawn', mewn cymhariaeth â 67% o ddioddefwyr. Gofynnwyd i ddioddefwyr a thystion a fyddent yn cytuno i fod yn dyst mewn achos troseddol yn y dyfodol pe gofynnid iddynt wneud hynny. Dywedodd 60% o'r tystion y byddent, mewn cymhariaeth â 52% o'r dioddefwyr. Dywedodd llai na 10% o'r rhai a holwyd y byddent yn annhebygol neu yn annhebygol iawn o roi tystiolaeth – dywedodd y gweddill y byddai'n dibynnu ar amgylchiadau'r achos newydd.

Roedd yr arolwg ar gael i ddioddefwyr DA ond ychydig a fanteisiodd ar y cyfle (gydag ychydig dros 100 o'r ymatebwyr mewn achosion a ddynodwyd fel rhai DA) – yn rhannol oherwydd yr addasiadau a wnaed i sicrhau nad oeddynt mewn perygl.

Cyhoeddodd y CPS gynllun gweithredu dioddefwyr a thystion ym Medi 2015 i ymdrin â'r materion hyn a bwriedir cynnal arolwg cenedlaethol arall yn 2017. Mae cynlluniau ar y gweill i weithio gyda rhanddeiliaid i asesu sut y gellir casglu barn dioddefwyr DA a thrais rhywiol yn well yn yr arolwg nesaf.

## Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r CPS wedi diweddaru ei ganllawiau ar gyfryngau cymdeithasol i ymgorffori troseddau newydd a rhai sy'n ymddangos sy'n cael eu cyflawni ar-lein ac i roi cyngor clir i helpu ein herlynyddion ymdrin â throseddau sy'n cael eu galluogi gan y we.

Dylid darllen y canllawiau cyfryngau cymdeithasol ar y cyd â'r Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron. Mae hwn yn dynodi ffactorau budd y cyhoedd sy'n cynnwys a oedd y drosedd wedi ei hysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn y dioddefwr yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw.

Lansiodd y CPS ymgynghoriad cyhoeddus ym Mawrth 2016 am y diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol wedi eu diweddaru gan gynnwys ystyried a ddylid cynnwys adran newydd ar droseddau VAWG. Mae hyn yn wir oherwydd bod datblygiadau mewn technoleg wedi creu tirwedd newydd o ran troseddu sy'n rheoli, sydd wedi ei ysgogi gan ryw neu ffurfiau eraill o droseddu rhwng pobl. Mae defnyddio'r rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, negeseuon testun, apiau ffonau clyfar, meddalwedd ysbïo a meddalwedd olrhain GPS i godi cywilydd a bygwth dioddefwyr yn cynyddu. Mae'r adran newydd arfaethedig yn rhoi gwybod i erlynyddion am y ffurfiau amrywiol o stelcio ar y we. Yn ychwanegol, cynhyrchwyd cyfarwyddyd newydd ar bornograffi dial ac ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, sydd wedi cael eu creu ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi. Roedd y CPS hefyd am hysbysu erlynyddion o'r duedd sy'n dod i'r amlwg o anfon cyfathrebiadau a all fod yn sarhaus iawn, yn cynnwys delweddau o fenywod gydag anafiadau difrifol iawn, yn cael eu treisio neu yn dioddef gweithredoedd treisiol sadistig.

Ychwanegwyd cyngor at y canllawiau am ddefnyddio proffiliau ffug ar-lein a gwefannau sy'n cael eu sefydlu yn enw'r dioddefwr, gyda gwybodaeth ffug a niweidiol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym Mai 2016 a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym Medi 2016.

### Gwastrodi a chyfryngau cymdeithasol

Bu Cwnstabl yn yr Heddlu yn gwastrodi merched ifanc a bregus, yn cysylltu â nhw trwy eu ffrindiau a'u rhwydwaith cymdeithasol gan gynnig arian iddynt yn systematig am ffafrau rhywiol. Clywodd y rheithgor mae ei arferiad oedd cysylltu â'r merched ifanc ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddweud ei fod yn 17 neu 26 oed. Weithiau byddai'n defnyddio'r ffaith ei fod yn swyddog heddlu i ennyn eu hyder.

Fe'i cafwyd yn euog o 17 o droseddau rhywiol yn erbyn 12 o ferched yn eu harddegau, gan gynnwys un drosedd o dreisio, nifer o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn, achosi neu gymell plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol a chyfarfod plentyn yn dilyn gwastrodi rhywiol. Fe'i dedfrydwyd i 15 mlynedd o garchar a bydd ar wyth mlynedd o drwydded estynedig.

## Ansawdd gwaith achos VAWG y CPS

Ar gyfer dibenion rheoli perfformiad, mae'r CPS wedi casglu is-setiau o droseddau at ei gilydd – cam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol. Rhoddir y data ar gyfer yr is-set o droseddau 'VAWG' yn yr adran hon o'r atodiad. Mae'r data a roddir isod yn ymdrin â *phob* diffynnydd a thyst 'VAWG', beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion am ryw pan fyddant ar gael.

Yn 2015-16, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad gan ddefnyddio 'mesur dilysu VAWG' oedd yn asesu deilliannau llwyddiannus ar gyfer DA, treisio a throseddau rhywiol.

Asesir y dull dilysu ochr yn ochr â nifer yr erlyniadau, gan gynnig monitro mwy manwl yn y broses sicrhau VAWG ddwywaith y flwyddyn. Bu'r olwg gyffredinol hon yn ganolog i gyflawni gwelliannau parhaus yn y gwaith pwysig hwn.

Yn y broses sicrhau VAWG, asesir Ardaloedd ymhellach ar ystod eang o gamau gan gynnwys ystyried tueddiadau mewn perfformiad ar lwythi achos a chyfraddau collfarnu, mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol yn ôl eu perfformiad VAWG. Pan fydd yn bosibl, mae hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o atgyfeiriadau heddlu, cyhuddo, erlyniadau a deilliannau, gan gynnwys collfarnau, yr achosion nad ydynt yn cael eu herlyn oherwydd materion dioddefwyr, ac i droseddau rhywiol, rhyddfarnau gan reithgorau. Mae'r Ardaloedd yn cynnig sylwebaeth ar eu perfformiad cyffredinol ac yn dynodi camau i ymdrin â gwelliannau.

Mae'r ardaloedd hefyd yn rhoi manylion eu gwaith ar draws yr *holl* ffrydiau VAWG. Mae ardaloedd yn cael adborth ar eu hadroddiadau sicrhau gan y DPP a'r tîm VAWG canolog ac mae'n ofynnol iddynt lunio a darparu o leiaf dri phwynt gweithredu yn dilyn pob asesiad bob hanner blwyddyn.

## Data perfformiad VAWG

Mae'r adran hon o'r atodiad yn cynnwys y dull cyffredinol o ymdrin â throseddau sy'n cael eu casglu at ei gilydd fel 'VAWG'[34], gyda'r cafeatau fel yr amlinellir yn y cyflwyniad. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif o erlyniadau sydd wedi eu grwpio dan VAWG ar gyfer dibenion rheoli

[34] Mae'r CPS wedi grwpio is-set o droseddau 'VAWG' gyda'i gilydd – DA, treisio a throseddau rhywiol – ar gyfer dibenion rheoli perfformiad.


perfformiad (85.8%[35]) yn DA gyda threisio ar 3.9%[36] gyda chynnydd yn y gyfran o droseddau rhywiol, ac eithrio treisio, ar 10.2%[37].

Ers cyflwyno cofnodi troseddau VAWG roedd y lefel uchaf erioed o atgyfeiriadau gan yr heddlu[38] o ddiffynyddion VAWG i gael penderfyniadau cyhuddo, sef 129,057, yn 2014-15. Yn 2015-16 roedd gostyngiad bychan yn yr atgyfeiriadau gan yr heddlu mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol i 124,737; ond asesir y gostyngiad hwn mewn cymhariaeth â chynnydd yn y gyfran o achosion a gyhuddwyd o 68.5% yn y flwyddyn flaenorol i 69%, gan arwain at gyhuddo 86,067 o ddiffynyddion.[39]

Mae gwarediadau allan o'r llys, y penderfynwyd arnynt gan y CPS yn y cam cyn cyhuddo, wedi parhau ar 1.1% o'r holl atgyfeiriadau – y gyfradd isaf a gofnodwyd erioed – gyda gostyngiad yn y niferoedd o 1,473 yn 2014-15 i 1,394 yn 2015-16.

Mae Graff 1 yn dangos y newidiadau yn nifer yr atgyfeiriadau a chyhuddo ers 2009-10.


### Graff 1: Nifer o benderfyniadau cyn-cyhuddo a diffynyddion a gyhuddwyd, 2009-10 i 2015-16




Asesir niferoedd yr achosion VAWG fel cyfran o gyfanswm gwaith achos y CPS fel y 'llwyth achosion VAWG'. Cynyddodd y llwyth o achosion VAWG yn 2015-16, gan gyrraedd y lefel uchaf a gofnodwyd erioed ar 18.6%, fel y gwelir yng Ngraff 2.

[35] Gostyngiad o 0.8% ers y flwyddyn flaenorol.
[36] Gostyngiad o 0.3% ers y flwyddyn flaenorol.
[37] Cynnydd o 1.1% ers y flwyddyn flaenorol.
[38] Nid yw atgyfeiriadau'r heddlu yn cynnwys troseddau rhywiol, ac eithrio treisio
[39] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

**Graff 2: Llwyth achosion VAWG fel % o gyfanswm y llwyth achosion, 2009-10 i 2015-16.**




| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 8.7% | 9.9% | 10.2% | 10.3% | 12.5% | 16.3% | 18.6% |

Cododd y nifer o droseddau VAWG a erlynwyd[40] o 107,104 yn 2014-15 i 117,568 yn 2015-16. Mae hyn yn gynnydd o 10,464 neu 9.8% a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

O'r holl erlyniadau (117,568), mewn 66.3% o achosion sicrhawyd ple euog; mae hyn yn cyfateb i 78,004 o bleon euog a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cododd y nifer o gollfarnau a sicrhawyd ar ôl treial i 9,125 y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd hyn yn 7.8%, o'r holl erlyniadau VAWG, a 50.2% allan o'r holl erlyniadau VAWG y dadleuwyd yn eu herbyn yn y llys (ac eithrio pleon cymysg[41]).

Roedd 30,293 o erlyniadau yn aflwyddiannus. Roedd erlyniadau a ollyngwyd (gan gynnwys penderfyniadau i beidio parhau, tynnu yn ôl neu gynnig dim tystiolaeth) yn cyfrif am 17% (neu 20,015 o achosion) o'r holl ddeilliannau erlyn, y gyfran isaf a gofnodwyd erioed.

Parhaodd y deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[42] i ostwng – o 48.3% yn 2014-15 i 46.9% yn 2015-16. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y gyfran o ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwyr dynnu yn ôl (a ostyngodd o 24.3% yn 2014-15 i 22.5% yn 2015-16); ond roedd hyn ochr yn ochr â chynnydd bychan yn y nifer o ddioddefwyr na ddaeth i'r llys (o 21.4% yn 2014-15 i 22.0% yn 2015-16).


O'r *holl* achosion VAWG a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd problemau dioddefwyr[43] wedi gostwng o 12.8% yn 2014-15 i 12.1% yn 2015-16.

O'r 117,568 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 109,081 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 8,376 yn fenywaidd ac mewn 111 achos ni chofnodwyd rhyw'r diffynnydd[44]. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 92.9% yn wrywaidd a 7.1% yn fenywaidd[45].

[40] Sylwer bod y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2015-16 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd â'r rhai a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2015-16.
[41] 'Ac eithrio gyda phleon cymysg' yw achosion diffynyddion pan roddir ple 'ddieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.
[42] Mae materion dioddefwyr yn cynnwys y dioddefwr yn tynnu yn ôl, diffyg presenoldeb y dioddefwr a 'thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos'.
[43] Yr un peth â'r troednodyn blaenorol.
[44] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data'r dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 28.


Mae Graff 3 yn dangos niferoedd cynyddol, gan wyrdroi'r dirywiad cynharach ers 2010-11.

### Graff 3: Nifer y collfarnau a'r erlyniadau am droseddau VAWG, 2009-10 i 2015-16




Cynyddodd nifer y diffynyddion troseddau VAWG hefyd o 8,502, o 78,773 yn 2014-15, i 87,275, cynnydd o 10.8% ers y flwyddyn flaenorol i'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed ochr yn ochr â chynnydd yn y gyfradd gollfarnu o 73.5% i 74.2% (0.2% yn is na'r gyfradd gollfarnu uchaf a gofnodwyd erioed yn 2013-14). Cododd y gyfradd gollfarnu i 75.1% yn Chwarter 4 2015-16, y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed. Mae Graff 4 yn dangos y cynnydd cyffredinol mewn niferoedd collfarnu ac mae'n dangos tuedd ar i fyny yn y gyfradd gollfarnu dros y saith mlynedd diwethaf.

### Graff 4: Niferoedd a chyfraddau collfarnu am droseddau VAWG, 2009-10 i 2015-16




Roedd 89% o'r deilliannau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog. Mae'n debygol y bydd achos pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog yn cael ei ddwyn i'r llys yn gyflymach, ar gost sylweddol is, gan eu bod yn galw am lai o waith paratoi. Mae pleon euog hefyd yn fanteisiol i'r dioddefwyr gan nad oes rhaid iddynt fynychu'r llys i roi tystiolaeth.

---

[45] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (92.8% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.1% o ddiffynyddion benywaidd).

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalennau 95-102 yn rhoi data erlyniadau VAWG yn ôl Ardal a lluoedd heddlu. Ers 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)[46] yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP pan fydd ar gael.

Rhoddir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig ar ddechrau'r adroddiad VAWG ar dudalen 17. Mae'n cynnwys y data Ardal CPS a llu heddlu cyn cyhuddo. Ers 2014-15, roedd yr asesiad sicrhau VAWG yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag ar ôl cyhuddo.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
O'r 117,568 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 109,081 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 8,376 yn fenywaidd ac mewn 111 achos ni chofnodwyd rhyw'r diffynnydd[47]. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 92.9% yn wrywaidd a 7.1% yn fenywaidd[48].

Ar gyfer data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 110,847 o ddioddefwyr[49]. O'r holl ddioddefwyr, roedd 76,018 yn fenywaidd, 15,014 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw mewn 19,815 o achosion. Cofnodwyd rhyw 82% o ddioddefwyr yn 2015-16 – gostyngiad o 84% yn 2014-15. Pan gofnodwyd rhyw'r dioddefwr, y gyfran o ddioddefwyr benywaidd oedd 83.5% a dioddefwyr gwrywaidd yn 16.5%, yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd blaenorol (84% a 16%).

**Ethnigrwydd**
Yn 2015-16, dosbarthwyd 74.5% o ddiffynyddion[50] troseddau VAWG fel Gwyn, gan nodi fod 69% yn Wyn Prydeinig. Nodwyd bod ychydig dan 6% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a 6.2% yn Ddu[51]. Ni chofnodwyd ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr (47.6%), felly ni adroddwyd ar y data hwn yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[52], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (72.5%) a rhwng 18 a 24 (21.0%). Roedd 24.1% o ddiffynyddion (28,243) yn 24 oed neu iau, gyda 3,375 (2.9%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 248 (0.2%) yn 10-13 oed.

O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[53], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (66.4%) a rhwng 18 a 24 (22.7%). Roedd 28.9% o ddioddefwyr (26,494) dan 24 oed, gyda 4,312 (4.7%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed a 1,059 (1.2%) yn 10-13 oed a 334 dan 10 (0.4%).

---

[46] Cynhwysir data am Heddlu Dinas Llundain yn y data ar gyfer Llundain yn gyffredinol.
[47] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o'r systemau data presennol.
[48] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (92.8% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.1% o ddiffynyddion benywaidd).
[49] Mae'r data dioddefwyr yn cynnwys DA a threisio, ond nid yw data am ddioddefwyr troseddau rhywiol, ac eithrio treisio, ar gael o'r system data.
[50] Mae data ethnigrwydd ar ddiffynyddion yn cael ei gasglu gan y CPS yn unol â'r diffiniadau CJS cytunedig ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.
[51] Ni ddatganodd 4.8% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 6.0% o'r diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu.
[52] Cofnodwyd 99.6% o oedrannau dioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd o 99.5% yn 2014-15.

# Cam-drin domestig


Ar 30 Rhagfyr 2015, daeth trosedd cam-drin domestig benodol i rym o ran ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi mewn perthynas glos neu deuluol. Ond mae amrywiaeth o droseddau a gyflawnir mewn cyd-destun DA (yn amrywio o ymosodiad cyffredin i lofruddiaeth) yn dal i gael eu herlyn. Mae'r CPS yn parhau i lumanu pob achos o gam-drin domestig, beth bynnag yw'r drosedd, i sicrhau cydymffurfiad â pholisi'r CPS a chyfarwyddyd yn ogystal ag i fonitro perfformiad.

Yn 2015-16, roedd y patrwm cyffredinol o erlyniadau DA yn dynodi gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, unwaith eto, mewn erlyniadau, gan gyrraedd y niferoedd uchaf a gofnodwyd erioed o ddiffynyddion a erlynwyd ac a gollfarnwyd. Mae'r data a roddir isod yn ymdrin â *phob* diffynnydd a thyst DA, beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion am ryw pan fyddant ar gael.

Er bod y nifer o atgyfeiriadau DA gan yr heddlu wedi gostwng o 122,898 yn 2014-15 i 117,882 (gostyngiad o 4.1% neu 5,016), asesir hyn mewn cymhariaeth â'r gyfran uchaf a gofnodwyd erioed o achosion a gyhuddwyd ar 69.7% (i fyny o 68.9% yn y flwyddyn flaenorol) gan arwain at 82,157 o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo[54].

Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2015-16 oedd 4.58 o ddyddiau, o 4.31 o ddyddiau yn y flwyddyn flaenorol. Trafodwyd prydlondeb cyhuddo[55] yn y broses sicrhau VAWG yn 2015-16. Yn ychwanegol, mae gwaith dan Drawsnewid Cyfiawnder Diannod, a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon, yn ymdrin â phrydlondeb achosion DA wrth iddynt fynd trwy'r system cyfiawnder troseddol.

### Graff 5: Nifer o atgyfeiriadau DA gan yr heddlu a diffynyddion a gyhuddwyd, 2009-10 i 2015-16




---


[53] Cofnodwyd oedrannau 82.7% o ddioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd o 81.8% yn 2014-15.

[54] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.

[55] Mae data CMS yn adrodd cyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i'r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan wnaed y penderfyniad olaf yn un i gyhuddo. Ni all y system gofnodi ar wahân brydlondeb yr achosion hynny oedd yn destun i gyngor a rhagor o waith cyn i benderfyniad i gyhuddo gael ei wneud a'i gofnodi fel y penderfyniad olaf.

Mae’r gyfran o achosion DA[56] wedi codi o flwyddyn i flwyddyn; o 14.1% yn 2014-15 i 16% yn 2015-16, fel y dynodir yng ngraff 6 a’r tabl isod.

### Graff 6: Llwyth achosion DA fel % o gyfanswm y llwyth achosion yn 2009-10 i 2015-16.




| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 7.5% | 8.6% | 8.9% | 8.9% | 10.7% | 14.1% | 16.0% |

Cododd y nifer o erlyniadau[57] a gwblhawyd yn 2015-16 i 100,930 o 92,779 – cynnydd o 8,151 o ddiffynyddion (8.8%) gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed fel y dangosir yn y tabl isod a Graff 7.


O’r 100,930 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 92,851 o’r diffynyddion yn wrywaidd, 7,992 yn fenywaidd ac mewn 87 achos ni chofnodwyd rhyw'r diffynnydd[58]. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 92.1% yn wrywaidd a 7.9% yn fenywaidd[59]. Mae rhagor o fanylion am ryw, gan gynnwys rhyw'r dioddefwyr, yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 33.

### Tabl 1: Erlyniadau DA a gwblhawyd yn ôl deilliant 2009-10 i 2015-16

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** | **Vol** | **%** |
| Collfarnau | 53,347 | 72.0 | 59,101 | 71.9 | 58,138 | 73.3 | 52,549 | 74.3 | 58,276 | 74.6 | 68,601 | 73.9 | 75,235 | 74.5 |
| Aflwyddiannus | 20,766 | 28.0 | 23,086 | 28.1 | 21,130 | 26.7 | 18,153 | 25.7 | 19,795 | 25.4 | 24,178 | 26.1 | 25,695 | 25.5 |
| **Total** | **74,113** | | **82,187** | | **79,268** | | **70,702** | | **78,071** | | **92,779** | | **100,930** | |


56 Llwyth achosion DA yw nifer yr achosion DA fel canran o’r holl erlyniadau llys.
57 Sylwer bod y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2015-16 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu’n uniongyrchol o ran niferoedd â’r rhai a erlynwyd sy’n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2015-16.
58 Nid yw’n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o’r systemau data presennol.
59 Mae’r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o’r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (92% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.9% o ddiffynyddion benywaidd).

## Graff 7: Niferoedd erlyniadau a chollfarnau DA, 2009-10 i 2015-16




Cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 75,235[60] – cynnydd o 6,634 o gollfarnau (9.7%) ers 2014-15. Ochr yn ochr â'r cynnydd yn y niferoedd, cynyddodd y gyfradd gollfarnu o 73.9% yn 2014-15 i 74.5%. Cododd y gyfradd gollfarnu i 75.4% yn Chwarter 4 2015-16. Rhwng 2005-6 pan gychwynnwyd cofnodi a 2015-16, mae'r niferoedd collfarnau wedi codi o 29,719 i 75,235 – cynnydd o 45,516 o ddiffynyddion wedi eu collfarnu – cynnydd o 153% dros y cyfnod hwn o un ar ddeg mlynedd. Mae Graff 8 yn darlunio'r duedd gyffredinol ar i fyny o ran niferoedd a chyfraddau collfarnu.

## Graff 8: Nifer y DA a'r gyfran o gollfarnau, 2009-10 i 2015-16




Yn 2015-16, daeth 87,920 achos (87% o'r holl achosion DA a erlynwyd) i ben yn llys yr ynadon. O'r rhain, collfarnwyd 65,715 diffynnydd, gan arwain at gyfradd gollfarnu o 74.7%. Ar gyfer gweddill yr achosion a anfonwyd i Lys y Goron (13,010 o achosion neu 13% o'r holl Achosion DA a erlynwyd), collfarnwyd 9,520 o ddiffynyddion, gan arwain at gyfradd gollfarnu o 73.2%.

Yn gyffredinol cynyddodd y nifer o gollfarnau eto – gan gyrraedd 68,462, cynnydd o 8.4% ers 2014-15. Ond, gostyngodd y gyfran, o'r holl achosion DA a erlynwyd, ychydig i 67.8% o 68%. Roedd 91% o'r holl ganlyniadau llwyddiannus o ganlyniad i bleon euog. Cynyddodd y nifer o gollfarnau a sicrhawyd ar ôl

[60] Nid yw'r data ar ddeilliannau collfarnu yn cael ei rannu ar hyn o bryd yn ôl rhyw'r diffynyddion.

achos llys i 6,637, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, roedd hyn yn 6.6%, o'r holl erlyniadau DA, a 51.4% allan o'r holl erlyniadau DA y dadleuwyd yn eu herbyn yn y llys (ac eithrio pleon cymysg[61]).

Mae achosion a ataliwyd wedi gostwng i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed ar 18.2% o'r holl achosion DA a erlynwyd, o 19.3% yn y flwyddyn flaenorol.

Yn y cyfnod hwn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, troseddau yn erbyn y person oedd y troseddau a erlynwyd amlaf, yn cynrychioli 78.1% o droseddau DA. Roedd troseddau difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn cyfrif am 9.9% a 3.1% arall yn ôl eu trefn[62].
Roedd patrymau ychydig yn wahanol ar gyfer diffynyddion gwrywaidd a benywaidd:

- Roedd diffynyddion gwrywaidd yn gyfrifol am ychydig yn fwy o droseddau yn erbyn yr unigolyn ar gyfartaledd, allan o'r holl fathau o droseddau (78.2% o'r holl droseddau gan ddiffynyddion gwrywaidd, mewn cymhariaeth â 76.5% o ddiffynyddion benywaidd[63]*) a mwy o droseddau rhywiol (2.1% mewn cymhariaeth â 0.6%*[64]*).*
- Roedd diffynyddion benywaidd yn gyfrifol am ychydig yn fwy o droseddau dwyn a thrin nwyddau ar gyfartaledd, allan o'r holl fathau o droseddau (2.6% o'r holl droseddau gan ddiffynyddion benywaidd, mewn cymhariaeth â 1.9% o ddiffynyddion gwrywaidd[65]*); twyll a ffugio (1.2% mewn cymhariaeth â 0.3%*[66]*) a throseddau trefn gyhoeddus (4.5% mewn cymhariaeth â 3.0%*[67]*).*

Parhaodd y deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[68] i ostwng – o 53.7% yn 2014-15 i 52.5% yn 2015-16. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y gyfran o ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd i'r dioddefwyr dynnu yn ôl (a ostyngodd o 26.8% yn 2014-15 i 24.8% yn 2015-16); ond roedd hyn ochr yn ochr â chynnydd bychan yn y nifer o ddioddefwyr na ddaeth i'r llys (o 24.7% yn 2014-15 i 25.5% yn 2015-16).

O'r *holl* achosion DA a erlynwyd, mae'r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[69] wedi gostwng o 14% yn 2014-15 i 13.4% yn 2015-16. Mae cefnogaeth i ddioddefwyr drwy broses y llys yn allweddol i leihau'r tynnu'n ôl ac mae gwaith gyda Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) neu wasanaethau cefnogi lleol cyfatebol yn allweddol i wella erlyniadau.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalennau 95-102 yn rhoi data erlyniadau DA yn ôl Ardal a llu heddlu. Ers 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)[70] yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP pan fydd ar gael.

---

[61] 'Ac eithrio gyda phleon cymysg' yw achosion diffynyddion pan roddir ple 'ddieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.
[62] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau'r CPS o'r 'brif drosedd' a'r gwahanol gategorïau.
[63] 70,062 o ddiffynyddion gwrywaidd a 5,960 o ddiffynyddion benywaidd.
[64] 1,877 o ddiffynyddion gwrywaidd a 45 o ddiffynyddion benywaidd.
[65] 206 o ddiffynyddion benywaidd a 1,710 o ddiffynyddion gwrywaidd.
[66] 93 o ddiffynyddion benywaidd a 310 o ddiffynyddion gwrywaidd.
[67] 349 o ddiffynyddion benywaidd a 2,652 o ddiffynyddion gwrywaidd.
[68] Mae materion dioddefwyr yn cynnwys y dioddefwr yn tynnu yn ôl, diffyg presenoldeb y dioddefwr a 'thystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos'.
[69] Yr un peth â'r troednodyn blaenorol.
[70] Cynhwysir data am Heddlu Dinas Llundain yn y data ar gyfer Llundain yn gyffredinol.

Rhoddir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig ar ddechrau'r adroddiad VAWG ar dudalen 17. Mae'n cynnwys y data Ardal CPS ac ardal llu heddlu cyn cyhuddo. Ers 2014-15, roedd yr asesiad sicrhau VAWG yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag ar ôl cyhuddo.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**

O'r 100,930 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 92,851 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 7,992 yn fenywaidd ac mewn 87 achos ni chofnodwyd rhyw'r diffynnydd[71]. Yn 2015-16, pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 92.1% yn wrywaidd a 7.9% yn fenywaidd[72], sy'n debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

Ar gyfer data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 104,193 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 71,706 yn fenywaidd, 14,406 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw mewn 18,081 o achosion. Gostyngodd cofnodi rhyw dioddefwyr ychydig o 84% yn 2014-15, i 82.6% yn 2015-16. Pan gofnodwyd rhyw'r dioddefwyr, y gyfran o ddioddefwyr benywaidd oedd 83.3% a dioddefwyr gwrywaidd yn 16.7%, yn debyg i'r hyn a gofnodwyd dros y pum mlynedd blaenorol (84% a 16%).

**Ethnigrwydd**

Yn 2015-16, dynodwyd 76.4% o ddiffynyddion DA fel Gwyn (gostyngiad bychan o 78.8% yn 2014-15), gyda 70.9% yn cael eu nodi i fod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 6.2% o ddiffynyddion yn Ddu, cynnydd bychan o 0.7 pwynt canran[73] ers y flwyddyn flaenorol a 5.6% yn Asiaidd, cynnydd bychan o 0.1 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol[74].

Nid yw ethnigrwydd ychydig dan hanner y dioddefwyr yn cael ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**

O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[75], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (73.7%) a rhwng 18 a 24 (21.7%). Roedd 24.4% o ddiffynyddion (24,521) yn 24 oed neu iau, gyda 2,591 (2.6%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 147 (0.1%) yn 10-13 oed.

O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[76], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (67.6%) a rhwng 18 a 24 (22.5%). Yn debyg i oedran diffynyddion, roedd 27.5% o ddioddefwyr (23,876) yn 24 oed ac iau, gyda 3,329 (3.8%) o ddioddefwyr yn 14-17 oed a 732 (0.8%) yn 10-13 oed a 247 dan 10 (0.3%).

## Perthynas

Nid yw cofnodi'r berthynas rhwng y tramgwyddwr a'r dioddefwr yn ddigon cadarn eto i asesu, ond mae cofnodi yn y gronfa ddata CPS wedi gwella eto, o 17% yn 2010-11 i 57.6% yn 2015-16.

---

[71] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o'r systemau data presennol.
[72] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (92% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.9% o ddiffynyddion benywaidd).
[73] Cyfeirir at newidiadau mewn canrannau fel newidiadau i bwyntiau canrannol (ppt).
[74] Ni ddatganodd 3.8% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, (cynnydd ers 2014-15 o 1 pwynt canran) ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 5.4% o'r diffynyddion i'r CPS gan yr heddlu (cynnydd ers 2014-15 o 0.6 pwynt canran).
[75] Cofnodwyd 99.6% o oedrannau dioddefwyr yn 2015-16 – yr un fath ag yn 2014-15.
[76] Cofnodwyd 83.3% o oedrannau dioddefwyr yn 2015-16, cynnydd o 82.4% yn 2014-15.

## Materion traws-lywodraethol:

**Gweithredu Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015: Ymddygiad sy'n Rheoli neu Orfodi mewn Perthynas Glos neu Deuluol**

Ar 30 Rhagfyr 2015, dan a.76 y Ddeddf Troseddau Difrifol daeth trosedd newydd Ymddygiad sy'n Rheoli neu Orfodi mewn Perthynas Glos neu Deuluol i rym. Mae unigolyn yn cyflawni'r drosedd hon os bydd yn barhaus neu dro ar ôl tro yn dangos ymddygiad tuag at unigolyn arall sy'n ei reoli neu ei orfodi ac ar adeg yr ymddygiad bod cysylltiad personol rhyngddynt a bod yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar yr unigolyn arall. Mae'r drosedd yn un y gellir ei phrofi'r naill ffordd neu'r llall gydag uchafswm cosb (ar gollfarn ar dditiad) o bum mlynedd o garchar. Ochr yn ochr ag a.76 y Ddeddf Troseddau Difrifol, mae'r CPS yn parhau i ystyried amrywiaeth o droseddau eraill sy'n berthnasol iawn i ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi fel bygythiadau i ladd, torri gorchmynion peidio ag ymosod a charcharu ar gam.

Er mwyn cefnogi erlynyddion i wneud penderfyniadau effeithiol mewn achosion perthnasol, mae'r CPS:

- wedi cyhoeddi cyfarwyddyd cyfreithiol penodol am y drosedd (link) ac wedi diwygio ei gyfarwyddyd cyfreithiol presennol ar DA (link);
- wedi rhoi cyngor i'r Swyddfa Gartref am ddatblygu Cyfarwyddyd Statudol;
- wedi datblygu pecyn hyfforddiant a chynnal Dosbarth Meistr ar gyfer cydlynwyr VAWG Ardaloedd i'w galluogi i gynnal gweithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth leol am y drosedd newydd;
- wedi cymeradwyo cynlluniau i ddatblygu modiwl e-ddysgu penodol ar ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi y bydd yn orfodol i bob erlynydd ei gwblhau. Bydd y modiwl yn cael ei ryddhau yn 2016-17;
- wedi gweithio gyda'r heddlu i ddiweddaru'r rhestr wirio casglu tystiolaeth gyda'r drosedd ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, i sicrhau bod pob cyfle o ran tystiolaeth yn cael ei ddefnyddio a bod hanes llawn yr ymddygiad troseddol yn cael ei gasglu (link);
- wedi cyhoeddi taflen gynghori ar gyhuddo i egluro'r gofynion presennol o ran atgyfeirio DA at y CPS yn unol â Chyfarwyddyd Cyhuddo'r Cyfarwyddwr (link); ac
- wedi cyfrannu at hyfforddiant y Coleg Plismona ar ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi.

Er mwyn monitro cydymffurfiad â'r cyfarwyddyd cyfreithiol, bydd penderfyniadau yn yr holl achosion a ddynodwyd a atgyfeiriwyd i gael cyhuddiad ac a erlynwyd rhwng 29 Rhagfyr 2015 a 29 Chwefror 2016 yn cael eu dadansoddi yn 2016-17.

Rhwng 31 Rhagfyr 2015 a 31 Mawrth 2016, cwblhawyd pum erlyniad dan y drosedd newydd – collfarnwyd dau ddiffynnydd am y drosedd newydd; collfarnwyd un am aflonyddu; un am ymosodiad cyffredin ac roedd un yn aflwyddiannus. Mae'r blwch isod yn disgrifio rhai astudiaethau achos am achosion y cychwynnwyd eu herlyn dan y drosedd newydd yn ystod 2015-16[77].

[77] Cwblhawyd rhai achosion yn 2016-17.

## Ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi

- Roedd dyn yn atal ei ddioddefwraig rhag gweld ei ffrindiau ac yn ei hynysu yn waeth trwy ei hatal rhag defnyddio ei ffôn symudol a rheoli ei chyfryngau cymdeithasol trwy wneud iddi ddileu ffrindiau ar Facebook. Fe'i collfarnwyd a'i ddedfrydu i chwe mis o garchar a gorchymyn atal dwy flynedd.

- Nid oedd dyn yn gadael i'w ddioddefwraig fynd allan ar ei phen ei hun o gwbl bron, a phan oedd hi'n gwneud, byddai'n cadw golwg arni, gan gynnwys gwneud iddi gadw derbynebau parcio. Roedd yn ei bychanu ac yn gwneud iddi gredu mai dim ond ef yr oedd arni ei angen, gan wthio ei theulu a'i ffrindiau i ffwrdd. Roedd yn edrych ar ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'i negeseuon ffôn gan ddweud wrthi beth i'w wisgo, yn ogystal â newid steil ei gwallt. Fe ymosododd arni hefyd.

  Fe'i collfarnwyd a'i ddedfrydu i 18 wythnos o garchar, wedi ei ohirio am 18 mis am ddefnyddio ymddygiad sy'n rheoli; 18 wythnos o garchar, wedi ei ohirio am 18 mis ac i'w dreulio yn gyfamserol, am ymosod; a gorchymyn cymunedol am 18 mis. Fe'i gorchmynnwyd hefyd i dalu costau am ddau achos o ddifrod troseddol yn erbyn eiddo.

- Roedd dyn yn rheoli ei ddioddefwraig mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys gwirio ei negeseuon ffôn, gan gyhuddo'r dioddefwr o gael perthynas â phobl eraill, gan ofyn i'r dioddefwr adael ei swydd ac fe wnaeth ymosod arni. Fe'i collfarnwyd a'i ddedfrydu i Orchymyn Cymunedol am ddwy flynedd, yn amodol ar orchymyn atal a gorchmynnwyd iddo dalu gordreth o £60 ac £85 o gostau llys a £100 o iawndal.

- Roedd dyn yn defnyddio ymgyrch o gam-drin corfforol a seicolegol ac roedd yr honiadau yn cynnwys gwneud i'r ddioddefwraig ofyn am ganiatâd am bethau bob dydd gan gynnwys gadael y tŷ a hyd yn oed fynd i'r tŷ bach. Fe'i collfarnwyd a'i ddedfrydu i 12 mis o garchar am ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi yn ogystal ag 16 mis am droseddau eraill yn ymwneud ag ymosod a difrod troseddol. Gosodwyd gorchymyn atal pum mlynedd hefyd.

- Collfarnwyd dyn a'i ddedfrydu i 16 wythnos o garchar (wedi ei ohirio am 12 mis) ynghyd ag ystod o ddedfrydau eraill i'w treulio yn gyfamserol (gan gynnwys am ymosodiad cyffredin; ymosodiad trwy guro a difrod troseddol) yn ogystal â gofyn gweithgaredd adfer am hyd at 20 diwrnod.

Erlynwyd rhai achosion yn ymwneud ag ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi eithafol dan y ddeddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern ar gaethwasanaeth (rhoddir astudiaeth achos isod).

### Caethwasanaeth

Roedd diffynnydd a dioddefwraig mewn priodas a drefnwyd ac, ers cyrraedd Lloegr yn 2012, roedd y ddioddefwraig wedi ei chadw yn gaeth. Roedd y diffynnydd yn cymryd tlysau priodas oddi ar ei wraig fel modd o'i rheoli a cham-fanteisio arni.  Daeth y dioddefwr yn ddibynnol yn ariannol ar ei gŵr ac roedd yn gyfrifol am wneud yr holl dasgau yr oedd yn eu mynnu. Nid oedd yn cael mynd allan heb gwmni a phan oedd ar ei phen ei hun roedd yn cael ei galw bob deng munud i wneud yn siŵr nad oedd y ffôn yn cael ei defnyddio. Fe'i dedfrydwyd i ddwy flynedd o garchar am gadw ei wraig yn gaeth ac am ymosodiad a achosodd niwed corfforol gwirioneddol, gan iddo dorri ei thrwyn. Gosodwyd gorchymyn atal hefyd. Credir mai dyma'r gollfarn gyntaf o'r math hwn yng Nghymru a Lloegr.

## Hyfforddiant

Ym Mawrth 2016 ehangwyd y modylau hyfforddi DA craidd i gynnwys dau fodiwl e-ddysgu newydd ar gam-drin mewn perthynas yn yr arddegau a DA a brofir gan ddioddefwyr hŷn (sydd hefyd yn cynnwys trais plentyn tuag at riant a thrais plentyn tuag at daid neu nain).

Ar gyfer 2016-17, mae'r CPS wedi cymeradwyo datblygu dau fodiwl e-ddysgu gorfodol ar symud erlyniadau ar sail tystiolaeth heblaw tystiolaeth a roddir gan y dioddefwr ymlaen yn gyflymach a hyfforddiant pellach ar sail y profiad o weithredu'r drosedd o ymddygiad sy'n rheoli a gorfodi.

Trwy gydol y flwyddyn, roedd nifer o erlynyddion CPS hefyd yn ymwneud â hyfforddi Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) i wella eu dealltwriaeth o'r broses erlyn, i gynnig gwasanaeth gwell eto i ddioddefwyr. Yn ystod 2015-16, cyflwynodd y CPS gyfanswm o 14 sesiwn hyfforddi i IDVA ym Mryste, Leeds, Llundain, Manceinion a Poole. Dangoswyd bod cefnogaeth benodol gan IDVA yn cael effaith bositif ar ddiogelwch dioddefwyr a deilliant collfarn.

## Llysoedd Arbenigol DV

Yn 2014, cynhaliodd y Grŵp Llywio Cenedlaethol SDVC traws-lywodraethol, yn cynnwys arweinwyr o'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r CPS, adolygiad o SDVC i asesu eu cydymffurfiad â'r 12 elfen arfer gorau ac i gasglu gwybodaeth am y prif broblemau ar draws y llysoedd.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HIMCTS) yn ymgynghori ar raglen gysoni llysoedd bellach yn 2016 ac felly mae'r nifer o lysoedd SDVC penodedig yn debygol o newid eto. Yn y cyfamser, ysgrifennodd y Grŵp Llywio SDVC at SDVC a LCJB yn 2015-16 i roi'r diweddaraf iddynt am gasgliadau'r adolygiad SDVC, eu hatgoffa am yr angen i gydymffurfio â'r elfennau, eu strwythurau adrodd a llywodraethu a'u hysbysu am y gwaith Plymio Dwfn sy'n cael ei amlinellu isod. Bydd llawlyfr Adnoddau'r SDVC yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r adolygiad Plymio Dwfn.

# Trawsnewid Cyfiawnder Diannod

Nod Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TSJ) yw creu system cyfiawnder troseddol gyda llai o oedi mewn llysoedd ynadon, llai o wrandawiadau i bob achos, a threialon mwy effeithiol. Mae cyfiawnder cyflymach, llai o ohiriadau a threialon effeithiol yn helpu dioddefwyr a thystion.

Mae Trawsnewid Cyfiawnder Diannod yn rhannu'r rhestrau o achosion i lysoedd pleon euog a dieuog penodol. Rhestrir achosion y rhagwelir ple euog (GAP) 14 diwrnod ar ôl y cyhuddiad, gyda'r nod o ymdrin â nhw mewn un gwrandawiad.  Rhestrir achosion y rhagwelir pleon dieuog (NGAP) ynddynt 28 diwrnod ar ôl y cyhuddiad, gan roi amser i adolygu a pharatoi fel eu bod yn cael eu rheoli yn briodol yn y gwrandawiad cyntaf a symud i dreial effeithiol yn yr ail wrandawiad. Mae rhai SDVC yn gweithredu amserlen dynnach na hynny.

Mae egwyddorion allweddol TSJ yn berthnasol i achosion DA, ar draws pob llys; gan gynnwys SDVC er nad ydynt yn cael eu cynnwys yn ffurfiol yn y model patrwm mechnïaeth. Mae'n bwysig i'r achosion yma symud ymlaen i'r llys mor effeithiol â phosibl, yn hytrach nag yn gaeth i'r amserlen TSJ 14 diwrnod/28 diwrnod.  Ond, mae'r heddlu yn sicrhau bod yr achosion yn cael eu paratoi yn unol â'r Safon Ffeiliau Cenedlaethol, gyda'r holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu darparu mewn achosion NGAP i alluogi'r llys i reoli'r achos yn fanwl yn y gwrandawiad cyntaf, a symud i dreial ar yr achlysur nesaf.

Sicrheir ansawdd ffeiliau achos yr heddlu, gydag amserlenni caeth ar gyfer cyflwyno ffeiliau ac mae system olrhain effeithiol a chanlyniadau am beidio â chydymffurfio.

Bydd y CPS yn monitro effaith TSJ ar bleon euog cynnar DA ac a yw patrymau mechnïaeth byrrach yn gwella perfformiad ac yn cael effaith ar lwyddiant yn gyffredinol.

# 'Plymio'n Ddwfn' i Gam-drin Domestig

Arweiniodd y Bwrdd Dioddefwyr a Thystion ar draws y system gyfiawnder troseddol ymarfer 'Plymio'n Ddwfn' i gam-drin domestig yn 2015, yn dadansoddi chwe llys a lwyddodd i gael y cyfraddau collfarnu uchaf am eu hachosion.  Dynododd y rhaglen bedair elfen arfer gorau a ddylai, pan gânt eu sefydlu, wella perfformiad a lefel y gwasanaeth i ddioddefwyr DA. Trafodwyd canfyddiadau cam cyntaf y 'Plymio Dwfn' yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol (NCJB) ym Mawrth 2016.

Mae'r NCJB wedi gofyn am i'r ymarfer 'Plymio Dwfn' gael ei ymestyn i lysoedd eraill a bod yr elfennau arfer gorau yn cael eu profi mewn nifer o systemau CJS.  Yn ychwanegol, bydd y 'Plymio Dwfn' yn archwilio modelau gwahanol ar gyfer rhestru yn gynnar a chlystyru achosion DA i ddeall yr effaith ar ddeilliannau.

Bydd yr elfennau arfer gorau o'r 'Plymio Dwfn' yn sail i ddiwygiad o lawlyfr adnoddau SDVC y bwriedir iddo fod yn safon aur ar gyfer SDVC wedi eu hachredu.

Bydd y cynlluniau yn ymdrin â chysylltu'r gwaith ar SDVC, Plymio Dwfn a TSJ, i sicrhau ymateb clir, wedi ei liflinio a'i gydlynu i DA.

Bydd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r NCJB yn gynnar yn 2017 er mwyn gwneud penderfyniadau cenedlaethol.

## Defnyddio res gestae*

Yn dilyn adroddiad gan aelod o'r cyhoedd, cyrhaeddodd swyddogion gartref y troseddwr a'r ddioddefwraig, ei wraig. Gwelsant ei bod yn waed drosti a bod ganddi friw a chwydd ar ei thrwyn. Esboniodd ei bod wedi cael ei tharo yn ei hwyneb yn dilyn dadl, ond roedd arni ormod o ofn i roi datganiad. Yn ystod yr achos llys, nododd y troseddwr ei fod wedi gweithredu i amddiffyn ei hun ac mai dim ond ei 'chlipio' a wnaeth i'w chadw draw. Derbyniodd y llys e-bost a anfonwyd gan y ddioddefwraig fel tystiolaeth, lle'r oedd yn nodi bod y mater yn un nad oedd yn rhan o batrwm pan oedd y ddau wedi bod yn yfed yn ormodol, wedi dadlau a bod hyn yn y pen draw wedi arwain at y briw ar ei thrwyn.

Collfarnodd y Barnwr Ardal y diffynnydd (gan wrthod amddiffyn ei hun) ar sail yr hyn yr oedd y ddau wedi ei ddweud yn y lleoliad ac ar sail y ffotograffau a dynnwyd ar yr un pryd o anafiadau'r achwynydd. Ar ôl apêl, sylwodd y Llys Adrannol bod gan y Barnwr Ardal hawl i dderbyn datganiadau'r achwynydd yn y lleoliad dan yr egwyddorion res gestae. Ni ddadleuodd yr apelydd ar y mater hwn yn y Llys Adrannol.

* Mae datganiadau res gestae yn dderbyniol – rhai wedi eu gwneud gan yr achwynydd neu drydydd parti ar neu o gwmpas amser y drosedd sydd â chymaint o gysylltiad fel ei bod yn annhebygol y byddant wedi eu hystumio nac eu dyfeisio. Gweler yr eirfa am ddiffiniad llawn.

# Lladdiadau domestig

Yn 2015-16 roedd 101 o droseddau llofruddiaeth a lumanwyd fel DA y cafwyd cyhuddiad ynddynt ac a gyrhaeddodd y gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon. Roedd hefyd 127 o droseddau ymdrech i lofruddio a lumanwyd fel DA, chwech o ddynladdiad a thri am gynllwynio i gyflawni llofruddiaeth[78]. Nid yw'n bosibl rhannu'r data troseddau yn ôl rhyw'r diffynyddion na'r dioddefwyr, na'r deilliannau.

Mae'r categori prif drosedd lladdiad yn cynnwys dynladdiad, lladd plentyn, distrywio plentyn, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, yn ogystal â llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio. Trwy ddefnyddio'r categori hwn ar gyfer diffynyddion gyda llumanau DA roedd 191 o erlyniadau yn 2015-16, a 84.3% ohonynt yn llwyddiannus. O'r rhain roedd 150 o'r diffynyddion yn wrywaidd a 41 yn fenywaidd. Nid yw'r data ar ryw'r dioddefwyr ar gael.

[78] Mae Llofruddiaeth a Dynladdiad yn droseddau sy'n groes i'r Gyfraith Gyffredin. Erlynir Ymdrech i Lofruddio trwy Adran 1 Deddf Ymdrechion Troseddol 1981 ac erlynir Cynllwynio i gyflawni Llofruddiaeth trwy Adran 1 Deddf Cyfraith Droseddol 1977.

### Dynladdiad domestig:

- Cafwyd dyn yn euog o lofruddio ei gynbartner a oedd wedi dod â'u perthynas i ben ac a oedd yn disgwyl babi gyda'i phartner newydd. Fe'i carcharwyd am oes gyda lleiafswm o 18 mlynedd o leiaf

- Cafwyd dyn yn euog o lofruddio ei bartner 47 mlwydd oed. Cafodd cydweithiwr hyd i'w chorff yn ei swyddfa, ac yn dilyn ymchwiliad manwl, llwyddodd yr heddlu i olrhain symudiadau ei phartner a phrofi ei fod yn ei chwmni hi. Yn dilyn dadl, ymosododd y troseddwr arni gyda chymaint o rym fel ei bod wedi marw o'i hanafiadau. Yn hytrach na galw'r gwasanaethau argyfwng, dihangodd y troseddwr oddi yno. Fe'i dedfrydwyd i leiafswm o 17 mlynedd.

## Datrysiadau tu allan i'r llys

Cychwynnwyd cynllun treialu Fframwaith Datrys Tu Allan i'r Llys (OOCD) ym mis Tachwedd 2014 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn tair Ardal llu heddlu – Swydd Gaerlŷr, Swydd Stafford a Gorllewin Swydd Efrog. Roedd y cynllun treialu i barhau am 12 mis i ymdrin â throseddau sy'n addas ar gyfer OOCD. Yn ychwanegol, caniatawyd i'r tri llu ddefnyddio dull gwahanol o ymdrin â throseddau yn cynnwys DA a throseddau casineb. Am gyfnod y cynllun treialu, argymhellwyd gweithredu positif mewn achosion DA i sicrhau diogelwch y dioddefwyr a'r plant ond rhoddwyd eithriad o gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar rybuddion amodol i'r tri llu heddlu oedd yn eu caniatáu i ddefnyddio'r dull hwn yn hytrach na rhybudd syml, pan oedd hynny yn gam priodol

Daeth y cynlluniau treialu i ben ar 31 Hydref 2015. Mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol.

## Cyfiawnder adferol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain trafodaethau ar draws y System Cyfiawnder Troseddol ar ddefnyddio cyfiawnder adferol (RJ) mewn achosion DA, gyda'r nod o greu papur i nodi safbwynt traws-lywodraethol a fydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer unrhyw ddefnydd posibl, gan gynnwys materion diogelwch ac asesiadau risg. Cynhaliwyd Pwyllgor Dethol Cyfiawnder yn 2016 ar RJ a bydd eu canfyddiadau yn cael eu hystyried, wedi iddynt gael eu cyhoeddi.

## Gweithio mewn partneriaeth yn lleol

Nodwyd nifer o fentrau lleol fel arfer da trwy gydol 2015-16, er enghraifft:

- Sefydlodd CPS Direct[79] banel DA lleol i adolygu gwaith erlynyddion ar ddyletswydd;
- Cyflwynodd CPS Cymru hyfforddiant ar y drosedd o ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r heddlu, i helpu i sicrhau dull diwnïad;

[79] Mae CPS Direct yn rhoi penderfyniadau cyhuddo i bob llu heddlu ac ymchwilwyr eraill yng Nghymru a Lloegr. Maent yn gweithredu bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

- Rhoddodd CPS Wessex a CPS Gogledd Orllewin Lloegr sylw arbennig i symud erlyniadau ymlaen pan fydd y dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth yn ôl.

## Stelcio ac aflonyddu DA

Mae'r adran o'r atodiad hwn dan y teitl 'Stelcio ac Aflonyddu' yn rhoi data cyffredinol ar droseddau stelcio ac aflonyddu[80] a gorchmynion atal. O'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio y cychwynnwyd eu herlyn, roedd 9,077 (69.9%) yn ymwneud â DA – cynnydd o 847 yn ymwneud â DA (10.3%) o 8,230 yn y flwyddyn flaenorol.

Amlinellir y troseddau stelcio ac aflonyddu, pan gychwynnwyd erlyniad, fel achosion DA, isod.

Mae Tabl 2a isod yn dangos, yn 2015-16:

- bod 7,142 o droseddau a lumanwyd fel cyhuddiad DA dan a.2 Deddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu - (o gymharu â 6,242 yn 2014-15);
- llumanwyd 1,190 o droseddau fel cyhuddiad DA dan a.4 Deddf Atal Aflonyddu (PHA) 1997 – achosi i bobl ofni trais (o gymharu â 1,225 yn 2014-15);
- roedd cynnydd o 14.4% mewn erlyniadau a.2 PHA 1997 a gostyngiad 2.9% mewn troseddau a.4 PHA 1997 a gyhuddwyd ac a gyrhaeddodd y gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon, mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Ers 2013-14, roedd cynnydd o 35.9% mewn troseddau a.2 PHA 1997 a chynnydd o 25% mewn troseddau a.4 PHA 1997 y cychwynnwyd eu herlyn;
- Llumanwyd 456 o droseddau a lumanwyd fel DA am stelcio gydag ofn/dychryn neu aflonyddu ac erlynwyd 289 o droseddau DA o stelcio yn ymwneud ag ofn o drais neu ddychryn difrifol neu ofid (mewn cymhariaeth â 471 a 292 yn 2014-15);
- Roedd 13,191 o'r toriadau gorchmynion atal yn ymwneud â DA; cynnydd o 18.5% o 2014-15;
- o'r rhain, roedd 12,747 yn torri gorchmynion atal a wnaed ar gollfarn; cynnydd o 10,796 yn 2014-15; roedd 444 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn, cynnydd o 336 yn 2014-15;
- Cychwynnwyd erlyn 6,248 achos o dorri gorchymyn peidio aflonyddu yn ymwneud â DA, gostyngiad bychan mewn cymhariaeth â 6,294 yn 2014-15, ond i fyny o 5,584 yn 2013-14.

[80] Y cafeat yng nghyswllt data trosedd yw:
Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau MIS yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, fel y'i cofnodwyd ar y CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Troseddau a gofnodwyd ym Mydysawd Troseddau'r MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad - bydd y drosedd hon yn parhau i gael ei chofnodi boed y drosedd honno wedi mynd i'r llys neu beidio ac nid oes unrhyw awgrym o ddeilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn drosedd a brofwyd wrth derfynu. Mae'r cafeatau hyn yn berthnasol i unrhyw ddata trosedd arall a ddefnyddir drwy'r adroddiad hwn.

**Tabl 2a: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd ac yn cyrraedd gwrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon - Lluman DA**

| | | 2010 - 11 | 2011 - 12 | 2012 - 13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 4,262 | 4,333 | 4,414 | 5,584 | 6,294 | 6,248 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {2(1) a (2)} | Aflonyddu heb drais | 4,822 | 4,710 | 4,217 | 5,257 | 6,242 | 7,142 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – achosi ofn trais | 1,423 | 1,056 | 775 | 952 | 1,225 | 1,190 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {2A(1) a (4)} | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | 52 | 384 | 471 | 456 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {4A(1)(a)(b)(i) a (5)} | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | 8 | 49 | 98 | 86 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 { 4A(1)(a)(b)(ii) a (5) } | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | 7 | 83 | 194 | 203 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 3,962 | 6,163 | 7,154 | 8,761 | 10,796 | 12,747 |
| Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 93 | 202 | 220 | 245 | 336 | 444 |

# Gorchmynion atal

Gellir gwneud cais am orchmynion atal ar gollfarn neu ryddfarn81. Darperir data'r MoJ ar gyfer 2015 ar orchmynion ataliol ar gollfarn a rhyddfarn yn yr adran stelcio ac aflonyddu isod. Yn lleol mae Ardaloedd CPS yn cofnodi gorchmynion atal ar ryddfarniad.

[81] Diwygiodd a.12 Deddf Cam-drin domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 a.5 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan alluogi'r llysoedd i gyhoeddi gorchymyn atal ar ryddfarn.

## Stelcio

Roedd dioddefwraig a diffynnydd gwrywaidd mewn perthynas am 18 mis ac roedd ef yn ei sarhau ar lafar ac yn ei hatal rhag mynd allan. Pan ddaeth y berthynas i ben fe ffoniodd y diffynnydd y ddioddefwraig yn gyson ac anfon negeseuon testun bygythiol ati. Roedd y diffynnydd yn aros am ddedfryd o Lys y Goron pan gafodd ei arestio am faterion cam-drin domestig newydd, yn ymwneud â phartner newydd. Cynghorodd yr erlynydd stelcio arbenigol yr heddlu i geisio cael ei roi ar remand yn y ddalfa, yn ogystal â chynghori'r eiriolwr i apelio yn erbyn y penderfyniad petai'r diffynnydd yn cael mechnïaeth. O ganlyniad, fe'i cadwyd yn y ddalfa. Carcharwyd y diffynnydd am 16 mis ar ôl iddo gyfaddef trosedd stelcio a.4A, torri gorchymyn peidio ag ymosod, bygwth tystion a bod â chocâin yn ei feddiant. Rhoddodd y Barnwr orchymyn atal ar y diffynnydd, ei wahardd rhag cysylltu â'r ddioddefwraig na mynd i'r dref lle'r oedd hi yn byw am ddeng mlynedd.

# Stelcio ac aflonyddu

Dengys data perfformiad y CPS bod cynnydd cyffredinol wedi digwydd mewn erlyniadau a gychwynnwyd parthed stelcio, aflonyddu a thorri gorchmynion yn 2015-16. Rhoddir data'r CPS isod. Mae'r ystadegau cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am y flwyddyn 2015 yn Atodiad 2.

Yn 2015-16[82]:

- cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 12,986 trosedd aflonyddu a stelcio yn 2015-16; y nifer uchaf a gofnodwyd erioed; mae hyn yn gynnydd o 864 trosedd (7.1%) ers 2014-15 pan gychwynnwyd 12,122 o erlyniadau;
- cychwynnodd erlyniad yng nghyswllt 10,073 o droseddau a gyhuddwyd dan a.2 PHA 1997 am aflonyddu heb drais – cynnydd o 9.7% o 9,180 yn 2014-15 a hefyd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed; roedd 70.9% o'r troseddau hyn yn gysylltiedig â DA;
- cychwynnwyd 1,811 o erlyniadau dan a.4 PHA 1997 – aflonyddu gan godi ofn trais ar bobl – gostyngiad bach o 1,839 yn 2014-15; roedd 65.7% o'r troseddau hyn yn gysylltiedig â DA;
- cychwynnwyd 1,102 o erlyniadau dan y troseddau stelcio newydd (yn debyg i 2014-15 pan gychwynnwyd 1,103 o erlyniadau):
- o blith y troseddau hyn roedd 643 gydag ofn/dychryn/gofid (gostyngiad bychan o 676 yn y flwyddyn flaenorol); roedd 70.9% yn gysylltiedig â DA;
- roedd 459 o'r troseddau hyn yn ymwneud ag ofn trais/dychryn difrifol neu ofid (cynnydd o 427 ers y flwyddyn flaenorol); roedd 67.2% o achosion ofn trais a 61.3% o'r rhai gyda dychryn neu ofid difrifol yn gysylltiedig â DA;
- o'r holl erlyniadau aflonyddu a stelcio y cychwynnwyd eu herlyn, roedd 9,077 (69.9%) yn gysylltiedig â cham-drin domestig – cynnydd o 847 yn gysylltiedig â cham-drin domestig (10.3%) o 8,230 yn y flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed;
- cychwynnwyd erlyn 15,384 o droseddau torri gorchymyn atal, cynnydd o 13.5% o 13,559 yn 2014-5; roedd 85.7% yn gysylltiedig â DA, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed hefyd;
- o'r rhain, roedd 14,863 achos o dorri gorchmynion atal a wnaed wrth gollfarnu; cynnydd o 13.2% ers 2014-15, roedd 85.8% yn achosion DA;
- o'r holl achosion torri gorchmynion, roedd 521 yn torri gorchymyn atal a wnaed ar ryddfarn; cynnydd o 20.3% ers 2014-15; roedd 85.2% yn gysylltiedig â DA; a
- chychwynnwyd erlyn 6,672 achos o dorri gorchmynion peidio aflonyddu, o gymharu â 7,013 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 4.9%; roedd 93.6% o'r rhain yn gysylltiedig â DA.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr holl droseddau gan gynnwys y ganran o'r rhai a lumanwyd fel DA.

[82] Troseddau sydd yn cyrraedd gwrandawiad yw'r rhai a gofnodwyd ym Mydysawd Troseddau System Rheoli Gwybodaeth y CPS. Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyn, yn y gronfa ddata CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn y MIS yw'r rhai a gyhuddir ar unrhyw adeg ac sy'n cyrraedd o leiaf un gwrandawiad. Bydd y drosedd hon yn parhau wedi ei chofnodi boed wedi mynd ymlaen â'r drosedd honno neu beidio, ac nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os mai'r drosedd a gyhuddwyd oedd y drosedd a brofwyd wrth gwblhau'r achos.

**Tabl 2b: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn Llysoedd Ynadon – Cyfanswm y Nifer a Chanran o'r cyfanswm a lumanwyd fel DA.**

| | | 2010 - 11 | | 2011-12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA | Nifer | % DA |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn peidio aflonyddu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 5,281 | 80.7 | 5,323 | 81.4 | 5,563 | 79.3 | 6,498 | 85.9 | 7,013 | 89.7 | 6,672 | 93.6 |
| PHA[83] 1997 { 2(1) a (2)} | Aflonyddu heb drais | 8,039 | 60.0 | 7,713 | 61.1 | 7,159 | 58.9 | 8,303 | 63.3 | 9,180 | 68.0 | 10,073 | 70.9 |
| PHA 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – achosi ofn trais | 2,199 | 64.7 | 1,632 | 64.7 | 1,398 | 55.4 | 1,489 | 63.9 | 1,839 | 66.6 | 1,811 | 65.7 |
| PHA 1997 {2A(1) a (4) } | Stelcio gydag ofn / dychryn / gofid | - | - | - | - | 72 | 72.2 | 529 | 72.6 | 676 | 69.7 | 643 | 70.9 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b)(i) a (5)} | Stelcio yn ymwneud ag ofn trais | - | - | - | - | 9 | 88.9 | 65 | 75.4 | 133 | 73.7 | 128 | 67.2 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b)(ii) a (5)} | Stelcio gyda dychryn / gofid difrifol | - | - | - | - | 10 | 70.0 | 149 | 55.7 | 294 | 66.0 | 331 | 61.3 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu - torri gorchymyn atal ar gollfarn | 5,768 | 68.7 | 8,447 | 73.0 | 9,962 | 71.8 | 11,329 | 77.3 | 13,126 | 82.2 | 14,863 | 85.8 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 154 | 60.4 | 286 | 70.6 | 313 | 70.3 | 322 | 76.1 | 433 | 77.6 | 521 | 85.2 |

Er bod y nifer o droseddau stelcio y cychwynnwyd eu herlyn wedi aros yn gyson yn 2015-16 (1,102), mewn cymhariaeth â 2014-15 (1,103), gwelwyd cynnydd mewn erlyniadau a gychwynnwyd am y drosedd fwy difrifol o stelcio a.4A sy'n ymwneud â braw a gofid difrifol – cychwynnwyd erlyn cyfanswm o 37 yn fwy o droseddau. Mae'r cynnydd hwnnw wedi cael ei gydbwyso gan ostyngiad mewn erlyniadau am y drosedd a.2A lai o stelcio gydag ofn, braw neu ofid – gyda chyfanswm o 33 yn llai o droseddau yn cychwyn cael eu herlyn. Roedd gostyngiad o bum trosedd dan a.4A stelcio yn cynnwys ofn trais.

Nid yw data troseddau ar gael yn ôl rhyw'r diffynnydd na'r dioddefwr.

Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Atodiad 2 sy'n amlinellu deilliannau erlyn yn ôl diffynnydd. Er bod llai o erlyniadau stelcio wedi eu cwblhau yn 2015 (780), mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol (821), roedd mwy o gollfarnau yn gyffredinol ac am y troseddau stelcio mwyaf difrifol. Roedd cynnydd o 40 o gollfarnau dan stelcio yn cynnwys braw a gofid difrifol a.4A (o 109 i 149); cynnydd o saith o gollfarnau dan stelcio yn cynnwys ofn trais a.4A (o 38 i 45) a gostyngiad o 13 collfarn dan stelcio gydag ofn/braw/gofid a.2A (o 348 i 335).

[83] PHA – Deddf Diogelu Rhag Aflonyddu

## Stelcio – ar ôl i berthynas ddod i ben

Ar ôl i'w perthynas ddod i ben fe wnaeth dyn blagio ei gyn-gariad â negeseuon testun a galwadau ffôn (yn bennaf yn ymwneud â'i fod eisiau mynd yn ôl ati; bygwth cyflawni hunanladdiad ac yn cynnwys llun hanner noeth ohoni hi). Fe wnaeth hefyd ymddangos yng ngweithle'r ddioddefwraig ar dri achlysur gan geisio ail ddechrau'r berthynas ac fe aeth yn flin pan wrthododd hi hynny. Plediodd yn euog i gyhuddiadau o stelcio (a.2A stelcio gydag ofn, braw a gofid) ac aflonyddu (a.4 creu ofn trais) ac fe'i dedfrydwyd i ddau fis o garchar. Cyhoeddwyd gorchymyn atal wrth ei gollfarnu a oedd yn amlinellu na ddylid cael unrhyw gyswllt uniongyrchol nac anuniongyrchol, boed trwy gyfryngau cymdeithasol neu ffurf electronig arall. Yn ychwanegol, roedd y gorchymyn atal yn nodi nad oedd i fynychu man preswylio a/neu weithle'r ddioddefwraig, nag unrhyw fan yr oedd yn gwybod ei bod hi'n byw neu weithio yno.

# Hyfforddiant

Ym mis Gorffennaf 2015 trefnodd y CPS drafodaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i drafod y data ar erlyniadau am stelcio ac aflonyddu yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Troseddau VAWG Blynyddol 2014-15.

Cyfarfu cynrychiolwyr o Paladin, Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh, Cymorth i Fenywod, SafeLives, Veritas-Justice, Voice4Victims, Diogelu rhag Stelcio a nifer o erlynyddion CPS i drafod sut y gall y CPS wella ei ddeilliannau mewn achosion stelcio ac aflonyddu.

Yn dilyn hyn, sefydlwyd erlynyddion arweiniol stelcio ac aflonyddu ym mhob Ardal CPS a bu cynrychiolwyr mewn hyfforddiant stelcio undydd gan Paladin.

Sefydlwyd Gweithgor Stelcio yn cynnwys arbenigwyr o'r CPS, MoJ, HO ac asiantaethau allweddol o'r trydydd sector fel Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh a Paladin. Mae'r grŵp yn archwilio dewisiadau i wella a chynyddu'r erlyniadau stelcio.

Datblygodd y gweithgor achos busnes yn cynnig deunydd hyfforddi i alluogi erlynyddion i wahaniaethu yn gywir rhwng ymddygiad stelcio ag aflonyddu. Bydd yr hyfforddiant yn amlinellu i erlynyddion y risgiau cysylltiedig i ddioddefwyr wrth gam-ddynodi'r achosion yma, gan sicrhau bod achosion stelcio ac aflonyddu yn cael eu cyhuddo a'u herlyn yn gywir. Cymeradwywyd y ddadl fusnes a rhagwelir y bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn 2016-17.

# Gweithredu traws-lywodraethol

Yn Rhagfyr 2015, lansiodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno camau newydd i ymdrin â stelcio. Cynigir Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio i gynnig gwell diogeliad i ddioddefwyr 'stelcio dieithriaid', yn arbennig cyn y cyfnod pan ellir dwyn erlyniad. Ei nod yw atal y tramgwyddwyr cyn i'w hobsesiwn gyda'u dioddefwr ymwreiddio yn ormodol. Mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn hwyrach yn 2016.

## Arfer da lleol

Nodwyd nifer o gynlluniau lleol fel arfer da trwy gydol 2015-16:

- Bu CPS Cymru yn gweithio gyda'r heddlu yng Ngwent wrth iddynt gynhyrchu DVD i godi ymwybyddiaeth o droseddau stelcio;
- Bu CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr a CPS Tafwys a Chiltern yn trafod achosion stelcio yn eu paneli craffu VAWG;
- Bu CPS Llundain yn cefnogi mudiad rhanddeiliaid i roi hyfforddiant i'r heddlu ac erlynyddion gan gynghori Gweithgor y Swyddfa Gartref ar Stelcio ac Aflonyddu;
- Mae CPS Gogledd Orllewin Lloegr yn llunio protocol ar gyfer cyflwyno Gorchmynion Diogelu ar y cyd gyda barnwyr teulu.

### Stelcio a thrais

Ymosododd menyw ar gynbartner trwy yrru ei char tuag ato, wedi i'w perthynas ddod i ben. Roedd y dioddefwr wedi cael gorchymyn atal cyn hynny am gyfnod o chwe mis ond roedd y diffynnydd wedi dal i anfon negeseuon testun a ffonio, gan gynnwys anfon negeseuon testun bygythiol. Roedd y dioddefwr wedi rhoi adroddiad am y digwyddiadau yma i'r heddlu. Ar ddiwrnod y prif ddigwyddiad, galwodd y dioddefwr yr heddlu pan gyfarfu'r diffynnydd mewn maes parcio. Gyrrodd y diffynnydd ei char tuag at yr heddwas a'r dioddefwr, gan daro'r dioddefwr. Fe wnaeth yr heddwas hefyd dorri asgwrn yn ei law wrth osgoi'r car. Plediodd y diffynnydd yn euog i ymosodiad a.47 ar yr heddwas, ymosodiad cyffredin ar y dioddefwr, torri gorchymyn atal a gyrru yn beryglus. Dedfrydwyd hi i 74 wythnos o garchar.

# Treisio

Yn 2015-16 roedd cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu, a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed o ddiffynyddion a gyhuddwyd, erlyniadau a chollfarnau. Collfarnwyd 108 yn fwy o ddiffynyddion am dreisio yn 2015-16 mewn cymhariaeth â 2014-15, a chododd y gyfran o ddiffynyddion a erlynwyd a gollfarnwyd i 57.9% o 56.9% dros yr un cyfnod o amser.

Mae data'r CPS ar erlyniadau treisio llwyddiannus yn cynnwys nid yn unig achosion yn arwain at gollfarn am dreisio, ond hefyd achosion a gafodd eu llumanu fel treisio o'r cychwyn, pan gafwyd collfarn am drosedd arall neu lai. Defnyddir y data i ddibenion rheoli achosion y CPS, ochr yn ochr â data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gollfarnau mewn achosion a gyhuddwyd ac a gollfarnwyd am dreisio yn unig. Gosodir y lluman ar ffeiliau'r CPS o gychwyn yr achos; bydd y lluman yn aros yn ei le hyd yn oed os yw'r penderfyniad i gyhuddo am drosedd nad yw'n dreisio neu os yw'r drosedd o dreisio'n cael ei diwygio wedi hynny. Gostyngodd cywirdeb llumanu ychydig i 98.8% yn 2015-16 mewn cymhariaeth â 99.0% yn 2014-15.

Rhoddir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Atodiad 2 fel yr ystadegau cenedlaethol swyddogol am dreisio er mwyn rhoi cyd-destun i ddata perfformiad y CPS. Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am flwyddyn galendr, yn hytrach na blwyddyn ariannol, a dim ond ar gyfer yr achosion hynny pan oedd y gollfarn derfynol am dreisio – esbonnir rhagor o fanylion am y gwahaniaethau rhwng data'r CPS a'r MoJ yn adran y MoJ. Mae'r data a roddir isod yn ymdrin â *phob* diffynnydd a thyst treisio, beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion am ryw pan fyddant ar gael.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau treisio gan yr heddlu i 6,855 yn 2015-16 – cynnydd o 696 o atgyfeiriadau (11.3%) o'r nifer o 6,159 yn 2014-15. Nododd un ar ddeg o Ardaloedd[84] gynnydd mewn atgyfeiriadau[85].

Cyhuddwyd 3,910 o ddiffynyddion[86], cynnydd o 262 o ddiffynyddion a gyhuddwyd (7.2%) ers 2014-15. Dyma'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed o ddiffynyddion a gyhuddwyd. Gwelodd naw Ardal CPS gynnydd yn y nifer a gyhuddwyd[87].

O'r holl atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddwyd 57% mewn cymhariaeth â 59.2% yn 2014-15 ac asesir hyn mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf o achosion o dreisio a gyhuddwyd.

Ers dynodi gostyngiad yn y niferoedd rhwng 2010 a 2012, mae'r CPS a'r heddlu wedi gweithio'n glos gyda'i gilydd, sydd wedi arwain at gynnydd cyfatebol yn y nifer o atgyfeiriadau a diffynyddion a gyhuddir o flwyddyn i flwyddyn, fel y gwelir yng Ngraff 9.

---


[84] 11 allan o 13 Ardal CPS.

[85] Gwelodd Cymru, Dwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Orllewin Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau heddlu am achosion treisio.

[86] Mae'r CPS yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14.


[87] Gwelodd Cymru, Dwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr gynnydd yn nifer yr achosion treisio y cafwyd cyhuddiad ynddynt.

## Graff 9: Nifer o atgyfeiriadau treisio a diffynyddion a gyhuddwyd, 2009-10 i 2015-16.




Mae'r gyfran o achosion treisio, fel canran o'r holl erlyniadau trwy dditiad yn unig, wedi codi o flwyddyn i flwyddyn i 13.2% yn 2015-16.

## Graff 10: Llwyth achosion treisio fel % o'r cyfanswm o ddeilliannau ditiadwy yn unig llys y goron 2008-09 i 2015-16




| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 9.4% | 10.0% | 9.9% | 9.8% | 11.1% | 12.8% | 13.2% |

## Tabl 3: Erlyniadau treisio a gwblhawyd yn ôl deilliant

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Collfarnau | 2,270 | 59.4 | 2,465 | 58.6 | 2,414 | 62.5 | 2,333 | 63.2 | 2,348 | 60.3 | 2,581 | 56.9% | 2,689 | 57.9 |
| Aflwyddiannus | 1,549 | 40.6 | 1,743 | 41.4 | 1,450 | 37.5 | 1,359 | 36.8 | 1,543 | 39.7 | 1,955 | 43.1% | 1,954 | 42.1 |
| **Cyfanswm** | **3,819** | | **4,208** | | **3,864** | | **3,692** | | **3,891** | | **4,536** | | **4,643** | |


Yn 2015-16[88] cododd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd i 4,643 – cynnydd o 107 o ddiffynyddion (2.4%) ers 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed (Graff 11 a Thabl 3).

O ddata'r CPS, cyrhaeddodd y nifer o gollfarnau 2,689[89] – cynnydd o 108 o 2,581 o gollfarnau (4.2%) yn 2014-15. Dyma'r nifer uchaf o gollfarnau a gofnodwyd erioed. Cynyddodd naw o Ardaloedd CPS y nifer a erlynwyd ac a gollfarnwyd[90].

Yn 2015-16 roedd cyfradd gollfarnau treisio'r CPS[91] yn 57.9%, cynnydd o 56.9% yn 2014-15 (Graff 12). Asesir hyn mewn cymhariaeth â'r cynnydd yn y nifer o erlyniadau a chollfarnau am dreisio.

O'r 4,643 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 4,572 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 65 yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw chwech o ddiffynyddion[92]. O'r diffynyddion pan gofnodwyd rhyw, roedd 98.6% yn wrywaidd a 1.4% yn fenywaidd.[93] Mae rhagor o fanylion am ryw yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 54.

## Graff 11: Niferoedd treisio 2009-10 i 2015-16




Rhwng 2007-08[94] a 2015-16, mae nifer y collfarnau wedi codi o 2,021 i 2,689, cynnydd o 668 o gollfarnau, a'r nifer uchaf ers i'r cofnodion ddechrau.


Rhwng 2007-8 a 2015-16, mae cyfraddau collfarnau'r CPS wedi codi o 57.7% i 57.9%.

---

[88] Sylwer bod y nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, yn ôl diffynnydd, a *anfonwyd ymlaen* at y CPS yn ystod 2015-16 am benderfyniadau cyhuddo ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran niferoedd â'r rhai a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, a *gwblhawyd* yn ystod 2015-16.
[89] Nid yw'r data ar ddeilliannau collfarnu yn cael ei rannu ar hyn o bryd yn ôl rhyw'r diffynyddion.
[90] Gwelodd Dwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Mersi a Swydd Caer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn nifer a erlynwyd (arhosodd Gogledd Orllewin Lloegr yr un fath); cynyddodd Dwyrain Lloegr, Mersi a Swydd Gaer, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern, Wessex, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber gynnydd yn y nifer a gollfarnwyd.
[91] Deilliannau o gyhuddo i gollfarn; gweler y manylion uchod.
[92] Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o'r systemau data presennol. Rhoddir data'r dioddefwyr yn yr adran Cydraddoldeb ar dudalen 54.
[93] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (98.5% ac 1.4%).
[94] Cychwynnwyd cofnodi achosion treisio yn hwyrach nag ar gyfer DA.

Mae Graff 12 yn dangos y duedd yng nghollfarnau treisio'r CPS dros y saith mlynedd diwethaf. Mae’r cynnydd yn y gyfradd gollfarnu ers 2011-12, gan gyrraedd y gyfradd uchaf yn 2012-13 yn cyd-daro â gostyngiad yn y niferoedd i’r lefel isaf ers 2009-10.

## Graff 12: Cyfraddau collfarnu treisio 2009-10 i 2015-16




O ddata’r CPS am 2015-16, erlynwyd 4,518 (98.6%) o achosion a lumanwyd yn gyntaf fel treisio yn y pen draw am y categorïau prif drosedd[95] ‘troseddau rhywiol, yn cynnwys treisio’ neu brif droseddau mwy difrifol o ‘laddiad’ neu ‘droseddau yn erbyn yr unigolyn’. O’r rhain roedd 3,972 am droseddau rhywiol gan gynnwys treisio; tri am laddiad a 543 am droseddau yn erbyn yr unigolyn.

**Deilliannau llwyddiannus:**
Cynyddodd pleon euog ychydig o 34.0% yn 2014-15 i 35.0% yn 2015-16, gyda’r nifer o ddiffynyddion yn pledio’n euog yn codi i 1,623 allan o 4,643 erlyniad – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cynyddodd collfarnau ar ôl treial, allan o’r holl erlyniadau gyda lluman treisio ychydig o 22.9% yn 2014-15 i 23% yn 2015-16, gyda’r nifer o ddiffynyddion a gollfarnwyd ar ôl treial yn cynyddu i 1,066 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cynyddodd y collfarnau ar ôl dadlau, ac eithrio pleon cymysg, hefyd ychydig o 44.5% yn 2014-15 i 45.4% yn 2015-16. O’r holl ddeilliannau llwyddiannus, roedd 60.4% o ganlyniad i bleon euog a 39.6% oherwydd collfarnau ar ôl treial.

**Deilliannau aflwyddiannus:**
Gall deiliannau fod yn aflwyddiannus am nifer o resymau. Efallai na fydd y CPS yn parhau â nhw ar ôl penderfyniad i gyhuddo[96], gall y nifer sy’n osgoi mynd i’r llys ddigwydd oherwydd materion dioddefwyr (fel yr effaith pan fydd dioddefwr yn tynnu ei gefnogaeth i’r achos yn ôl) neu ryddfarn mewn achos llys. Mae’r adran isod yn archwilio’r prif faterion, gan ganolbwyntio yn fanwl ar y prif reswm dros ganlyniadau aflwyddiannus rhyddfarnau gan reithgor. Rhoddir y data sylfaenol am ryddfarnau gan reithgorau yn yr atodiad cysylltiedig ar ddechrau’r adroddiad VAWG ar dudalen 17. Mae achosion a ollyngwyd wedi parhau i ostwng gan gyrraedd y lefel isaf sef 13.1% o’r holl achosion treisio a erlynwyd.

[95] Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau’r CPS o’r ‘brif drosedd’ a’r gwahanol gategorïau. Mae’r data Categori prif drosedd a gofnodir gan y CPS yn y System Rheoli Achosion yn orgynnil wrth
gymharu â’r niferoedd o erlyniadau cyffredinol yn yr un cyfnod. Mae deilliannau a arweiniodd at derfyniad gweinyddol neu achosion anghyflawn, pan na ddyrannir categori prif drosedd,
wedi eu heithrio.
[96] Er enghraifft, yn dilyn newid yng nghryfder y dystiolaeth.

O’r holl ganlyniadau aflwyddiannus mewn achosion a lumanwyd am dreisio, mae’r gyfran o ganlyniad i ryddfarn gan reithgor[97] wedi gostwng ychydig i 61.4% o 62.7% yn 2014-15 yn dilyn cynnydd yn y blynyddoedd blaenorol[98]. Er mai rhyddfarn gan reithgor sy’n cyfrif am y mwyafrif o ddeilliannau aflwyddiannus, gall y gostyngiad hwn, yn rhannol, fod o ganlyniad i fwy o bwyslais ers 2014-15 ar gyflwyno achosion yn y llys ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth – rhoddir rhagor o fanylion isod.

O’r holl ddeilliannau aflwyddiannus, parhaodd y nifer oherwydd materion dioddefwyr yn gyson ar 17.1% yn 2015-16 (17% yn 2014-15); ac o’r rhai hynny roedd 10.7% oherwydd i’r dioddefwr dynnu yn ôl. O’r *holl* achosion a lumanwyd fel treisio a erlynwyd, mae’r gyfradd oedd yn aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr[99] wedi gostwng ychydig o 7.3% yn 2014-15 i 7.2% yn 2015-16.

Mewn cymhariaeth â’r flwyddyn flaenorol, mae’r data yn dangos, o fewn y cynnydd mewn erlyniadau, bod cynnydd bychan yn y nifer o ddiffynyddion a blediodd yn euog, gan olygu bod llai o achosion yn mynd i dreial llawn, ac o’r rheiny, bod mwy o gollfarnau yn cael eu sicrhau gyda llai o ryddfarnau gan reithgorau.

Mae Tabl 4 yn rhoi data am achosion a ddadleuwyd[100] ers 2010-11 i ategu at y data a roddwyd uchod ar sail erlyniadau a deilliannau aflwyddiannus. Un modd o fesur pa mor addas yw’r achosion yr ydym yn eu symud ymlaen i’r llys yw’r lefel isel o ryddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr (JDA)[101]. Mae’r gyfradd o JDA yn parhau yn isel fel y gwelir yn nhabl 4.

---

[97] Roedd yr holl ‘ddeilliannau aflwyddiannus oherwydd rhyddfarnau’ a amlinellwyd mewn adroddiadau cyn 2014-15 yn cynnwys ‘rhyddfarn gan reithgor’ a ‘gwrthodwyd wedi achos diannod llawn’ – gostyngodd hyn o 63.7% yn 2014-15 i 62.9% yn 2015-16

[98] Adroddwyd am ostyngiad yn y rhyddfarnau gan reithgor yn 2015-16 yn yr wyth Ardal ganlynol: Dwyrain Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, De Orllewin Lloegr, Tafwys a Chiltern a Wessex.

[99] Mae achosion aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn cynnwys y rhai pan fydd y dioddefwr yn tynnu’n ôl; peidio mynd i’r llys neu pan na fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi’r achos.

[100] Nid yw data achosion a ddadleuwyd yn Llys y Goron yn cynnwys unrhyw ddadleuon a glywyd ac a gwblhawyd mewn llysoedd ynadon.

[101] Achosion pan fydd y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu yw achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o ‘ddim achos’ neu ‘anniogel’ ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i’r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.

## Tabl 4: Achosion Llys y Goron a ddadleuwyd ac eithrio gyda phleon cymysg[102]

| | 2010 - 11 | 2011-12 | 2012 - 13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Collfarn yn dilyn achos llys | 793 | 854 | 849 | 936 | 1,016 | 1,032 |
| % Collfarnau yn dilyn achos llys | 46.6% | 52.3% | 51.5% | 49.2% | 44.5% | 45.4% |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu | 72 | 45 | 35 | 38 | 41 | 43 |
| % JDA | 4.2% | 2.8% | 2.1% | 2.0% | 1.8% | 1.9% |
| Rhyddfarnu gan Reithgor | 838 | 733 | 763 | 930 | 1,225 | 1,199 |
| % Rhyddfarnu Gan Reithgor | 49.2% | 44.9% | 46.3% | 48.8% | 53.7% | 52.7% |
| Cyfanswm y Rhyddfarnau yn dilyn achos llys | 910 | 778 | 798 | 968 | 1,266 | 1,242 |
| % Cyfanswm Rhyddfarnau | 53.4% | 47.7% | 48.5% | 50.8% | 55.5% | 54.6% |
| **CYFANSWM Achosion a ddadleuwyd** | **1,703** | **1,632** | **1,647** | **1,904** | **2,282** | **2,274** |

Mae Tabl 4 yn cynnig ffordd wahanol o edrych ar ryddfarnau gan reithgor – gan ganolbwyntio ar yr achosion a ddadleuwyd, i ategu at y data blaenorol ar y gyfran o achosion aflwyddiannus. Gostyngodd y gyfradd ryddfarnu ychydig ers y flwyddyn flaenorol o 53.7%, i 52.7%.

Ond, mae'r data ar y dudalen flaenorol, yn dynodi bod y mwyafrif o erlyniadau aflwyddiannus o ganlyniad i ryddfarn gan reithgorau (61.4% yn 2015-16) yn hytrach na pheidio â pharhau gan y CPS, materion dioddefwyr nag unrhyw reswm arall. Mae'n bwysig felly ymdrin â'r prif reswm pam bod erlyniadau yn aflwyddiannus, o gyhuddiad i achos llys, sef rhyddfarn yn y llys gan y rheithgor.

Yn sgil yr hyfforddiant a'r gwaith a wnaed i ymdrin â chwedlau a stereoteipiau, problemau cydsyniad yn y llys, yn ogystal â'r gwaith i ymdrin ag ansawdd ac arbenigedd yr eiriolwyr, mae'n galonogol nodi gostyngiad bychan yn y rhyddfarnau gan reithgorau yn 2015-16, yn dilyn cynnydd blynyddol mewn rhyddfarnau o 2011-12 i 2014-15.

## Prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo

Am y tro cyntaf, yn 2013-14, cafodd prydlondeb penderfyniadau cyn cyhuddo eu monitro o fewn system sicrwydd VAWG. Y nifer cyfartalog o ddyddiau i gyhuddo yn 2013-14 oedd 39.6 o ddyddiau; cododd hyn i 55.1 diwrnod yn 2014-15 a gostyngodd ychydig yn 2015-16 i 52.7 diwrnod. Dylid asesu hyn mewn cymhariaeth â'r cynnydd o 11.3% yn atgyfeiriadau'r heddlu yn 2015-16. Mae'r data yn adrodd am gyfartaledd y nifer o ddyddiau calendr sydd wedi mynd ers i'r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, hyd y dyddiad pan wnaed y penderfyniad olaf i gyhuddo. Bydd y data yn cynnwys achosion pan fydd yn ofynnol i'r heddlu gyflwyno rhagor o dystiolaeth cyn cael penderfyniad i gyhuddo.

Mae cynlluniau Ardaloedd i wella perfformiad a'u cynnydd yn cael eu mapio trwy'r broses sicrhau VAWG. Mae'r penderfyniadau cyhuddo yn yr achosion hyn yn galw am sylw manwl a gall gynnwys ystyried tystiolaeth gymhleth, yn arbennig mewn achosion nad ydynt yn ddiweddar (y bu cynnydd

[102] Ac eithrio gyda phleon cymysg yw achosion diffynyddion pan roddir ple 'ddieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.

mewn atgyfeiriadau mewn cysylltiad â nhw). Gweithredwyd model adnoddau newydd genedlaethol i Unedau RASSO gyda dwbl yr adnoddau.

Mae'r CPS yn awr yn cynghori ar achosion o dreisio ar ddechrau, yn hytrach na diwedd, ymchwiliad er mwyn helpu'r heddlu i adeiladu achosion cryfach, a fydd yn sicr o ymestyn cyfraniad y CPS. Yn ogystal, mae angen amser i wylio cyfweliadau a recordiwyd gyda dioddefwyr, a all fod yn hirfaith iawn, i gyflawni dadansoddiad fforensig o gyfathrebiadau ar gyfryngau cymdeithasol a ffonau yn ogystal ag asesu deunydd perthnasol megis cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o ddyletswydd yr erlyniad i ddatgelu. Mae nifer o Ardaloedd wedi cyflwyno rhestrau gwirio'r heddlu er mwyn archwilio'r holl bosibiliadau yn gynnar i geisio osgoi oedi.

Mae manylion y gwaith presennol i ymdrin ag amserlenni, yn cael ei gynnwys dan adran y Grŵp Llywio Treisio Cenedlaethol isod.

Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o gyhuddo i dreial yn cael ei gynnwys yn Atodiad 2.

## Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalennau 95-102 yn rhoi data erlyniadau treisio yn ôl Ardal a lluoedd heddlu. Ers 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)[103] yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP pan fydd ar gael.

Rhoddir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig ar ddechrau'r adroddiad VAWG ar dudalen 17. Mae'n cynnwys y data Ardal CPS ac ardal llu heddlu cyn cyhuddo. Ers 2014-15, roedd yr asesiad sicrhau VAWG yn cynnwys data cyn cyhuddo yn ogystal ag ar ôl cyhuddo.

[103] Cynhwysir data am Heddlu Dinas Llundain yn y data ar gyfer Llundain yn gyffredinol.

## Arfer da lleol

- Lansiodd CPS Gogledd Orllewin Lloegr y safle rhoi tystiolaeth o hirbell mewn Canolfan Atgyfeirio Camdriniaeth Rywiol (SARC) cyntaf, yn SARC Sant Mary ym Manceinion. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddioddefwyr ac ymarferwyr meddygol arbenigol i roi eu tystiolaeth o'r tu allan i'r llys mewn lleoliad llai brawychus.

- Datblygodd CPS Llundain gynllun gweithredu yn cwmpasu'r protocol treisio, y cynllun gweithredu cenedlaethol ac argymhellion o'r adolygiad o ymdrin â'r ymchwiliad ac erlyn treisio yn Llundain. Cafodd hyn ei fonitro trwy gyfarfodydd perfformiad misol, a phanel VAWG.

- Rhoddodd CPS Dwyrain Lloegr hyfforddiant i'r Bar Cylchdaith De Ddwyrain Lloegr ar ofynion gorfodol y Bar Annibynnol wrth erlyn achosion RASSO.

- Bu CPS De Ddwyrain Lloegr gyda "Triangle" – gwasanaeth cyfryngol lleol yn Sussex – i wella ymwybyddiaeth yr heddlu o faterion cyfathrebu a thechnegau holi fforensig.

- Hyfforddodd CPS Swydd Efrog a Glannau Humber Gynghorwyr Argyfwng Treisio i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gywir o'r broses CPS/llys.

## Materion cydraddoldeb

**Rhyw**
O'r 4,643 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 4,572 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 65 yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw chwech o ddiffynyddion[104]. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 98.6% yn wrywaidd a 1.4% yn fenywaidd[105], sy'n debyg i'r nifer a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

Ar gyfer data dioddefwyr, o'r System Rheoli Tystion, cofnodwyd 6,654 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 4,312 yn fenywaidd, 608 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 1,734 o ddioddefwyr. Nid yw cofnodi rhyw dioddefwyr, ar 73.9%, yn ddigon cadarn i gynnwys cyfrannau rhyw yn yr adroddiad hwn.

**Ethnigrwydd**
Yn 2015-16, dosbarthwyd 58.4% o ddiffynyddion troseddau treisio fel Gwyn, gyda 52.1% wedi eu nodi fel rhai oedd yn perthyn i'r dosbarth Gwyn Prydeinig, 1.4 pwynt canrannol yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod 7.3% o'r diffynyddion yn Asiaidd – gostyngiad o 0.3 pwynt canrannol ers 2014-15, a nodwyd bod 9.3% yn Ddu – gostyngiad o 0.4 pwynt canrannol. Nid yw ethnigrwydd wedi ei gofnodi ar gyfer 66% o ddioddefwyr, felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

**Oedran**
O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[106], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (60.6%) a rhwng 18 a 24 (21.5%). Roedd 30.1% o ddiffynyddion (1,384) yn 24 oed neu iau, gyda 347 (7.5%) o ddiffynyddion yn 14-17 oed a 47 (1%) yn 10-13 oed.

---

104 Nid yw'n bosibl rhoi data ar ryw'r dioddefwyr yng nghyswllt rhyw'r diffynnydd o'r systemau data presennol.
105 Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (98.5% o ddiffynyddion gwrywaidd a 1.4% o ddiffynyddion benywaidd).
106 Cofnodwyd 99.1% o oedrannau dioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd o 98.5% yn 2014-15.

O’r dioddefwyr y cofnodwyd eu hoedran[107], roedd y mwyafrif o’r dioddefwyr rhwng 25 a 59 oed (2,183) a rhwng 18 a 24 (1,221). Roedd 2,618 o ddioddefwyr yn 24 oed ac iau, gyda 983 o ddioddefwyr yn 14-17 oed a 327 yn 10-13 oed ac 87 dan 10. Nid yw cofnodi rhyw dioddefwyr, ar 73%, yn ddigon cadarn i’w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Materion traws-lywodraethol

Mae’r CPS wedi cymryd rôl arweiniol, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol pan fydd yn addas, i gyflawni newidiadau yn y modd y mae’r system yn ymdrin â threisio.  Roedd y CPS yn rhan o grŵp Cam-drin Plant yn Rhywiol dan arweiniad y Swyddfa Gartref oedd yn cynnwys ymdrin â threisio plant, yn ogystal â rhoi adroddiadau i’r Grŵp VAWG Gweinidogion.

Mae’r CPS yn rhan o’r Grŵp Monitro Treisio Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC).  Ym mis Tachwedd 2015, rhyddhawyd data treisio’r CJS o 2010-11 i 2014-15 gyda data’r heddlu, a’r MoJ ar gyfer ardal pob llu heddlu.  Rhoddwyd y data i’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau CJS lleol i ganiatáu iddynt ddadansoddi a chraffu sut y mae treisio yn cael ei drin yn eu hardal leol.  Y nod oedd dynodi ac ymdrin â gwelliannau pellach i ymchwiliadau, erlyniadau a’r gwasanaethau a roddir i ddioddefwyr.

[107] Cofnodwyd oedrannau 73% o ddioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd o 72.6% yn 2014-15.

# Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol

Lansiodd y CPS a'r Heddlu Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Treisio ym Mehefin 2014[108]. Cwblhawyd y mwyafrif o'r camau erbyn dechrau 2015 a datblygwyd nifer o gynlluniau i ymdrin ag ansawdd gwaith achos, cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion a gweithredwyd offer a sgiliau ar gyfer y gwaith yn ystod 2015-16, fel yr amlinellir dan y tair thema isod:

## Sicrhau cydbwysedd: Ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr wrth sicrhau ymateb effeithiol i'r dioddefwr

Canfu'r Panel Craffu Treisio Cenedlaethol bod strategaeth effeithiol wrth ymchwilio ac erlyn i dreisio yn gofyn am fwy o bwyslais ar weithredoedd a thactegau'r troseddwyr. Roedd y strategaeth yn ymdrin â materion oedd yn ymwneud â chydsyniad, natur fregus a dioddefwyr yn tynnu yn ôl o'r broses erlyn.

## Cydsyniad

Datblygodd yr heddlu, erlynyddion, eiriolwyr mewnol a chynrychiolwyr o'r trydydd sector daflen ar gyfer y cyhoedd a phecynnau offer i'r heddlu, erlynyddion ac eiriolwyr yng nghyswllt cydsyniad a dioddefwyr bregus, a lansiwyd yn Ionawr 2015.

Yn ystod 2015, darparwyd hyfforddiant i'r holl erlynyddion arbenigol ar gydsyniad a dulliau sy'n canolbwyntio ar y troseddwr, yn ogystal â hyfforddiant ar natur fregus dioddefwyr a chwedlau treisio a stereoteipiau. Estynnwyd yr hyfforddiant i eiriolwyr arbenigol treisio mewnol yn gynnar yn 2016. Sicrhawyd bod y pecynnau offer a'r deunydd hyfforddi ar gael i erlynyddion trwy'r both gwaith achos. Rhoddir rhagor o fanylion dan yr adran hyfforddiant isod.

## Ymgyrch #ConsentIs

Yr ymgyrch #ConsentIs oedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gyntaf i'r CPS. Fe'i cynhaliwyd i hybu trafodaeth am fater cydsyniad ac i annog dealltwriaeth o erlyn achosion o ymosod rhywiol a threisio, pan fydd cydsyniad yn rhan o'r achos.

Lansiwyd yr ymgyrch gyda chefnogaeth nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Rape Crisis, Survivors Manchester, End Violence against Women, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Ymgyrch Rhuban Gwyn. Bu'r CPS yn gweithio'n glos gyda'r grwpiau hyn ymlaen llaw, gan eu cyfweld ar gyfer tri fideo #ConsentIs oedd yn trafod beth yw cydsyniad, chwedlau a stereoteipiau am gydsyniad, a ble mae cydsyniad yn ffitio yn y gymdeithas yn ehangach.

Gofynnwyd i'r cyhoedd gymryd rhan ar Twitter gan ddefnyddio'r tag #ConsentIs. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl ei lansio, roedd y tag yn amlwg ar Twitter a dros y pythefnos a hanner dilynol roedd ganddo'r cyrraedd posibl o bron i 12 miliwn o gyfrifon, gan gael ei weld o bosibl dros 45 miliwn o weithiau. Yn ychwanegol, anfonwyd mwy na 4,000 neges trydar yn defnyddio'r tag, a daeth amrywiaeth o bobl yn rhan o'r drafodaeth, gan gynnwys lluoedd heddlu lleol, Aelodau Seneddol, cynghorau lleol, elusennau amlwg, sylwebyddion VAWG ac aelodau o'r cyhoedd.

[108] Yn Ebrill 2014, sefydlodd y CPS Banel Craffu Treisio Cenedlaethol, gyda'r heddlu, erlynyddion, academyddion a grwpiau dioddefwyr yn ei fynychu i ymdrin â'r gostyngiad yn y nifer o atgyfeiriadau, erlyniadau a chollfarnau treisio. Cyhoeddodd y Panel Gynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol ar y cyd y CPS/Heddlu ym Mehefin 2014, oedd yn dynodi rhaglen o weithgareddau i gyflawni gwelliannau wrth ymchwilio ac erlyn deilliannau.

Ym mis Gorffennaf 2016, enillodd y CPS Wobr Cyfathrebu'r Sector Cyhoeddus 2016 am ei ymgyrch yn y categori 'Ymgyrch Cyllideb Isel y Flwyddyn'.

## Dioddefwyr bregus

Cyhoeddodd y Cyngor Penaethiaid Heddlu Cenedlaethol (NPCC, ACPO gynt) gyfarwyddyd diwygiedig ar gyfweld dioddefwyr bregus ar fideo. Cylchredwyd y cyfarwyddyd diwygiedig i'r holl Ardaloedd CPS ym mis Tachwedd 2015 ac mae gwaith yn cael ei wneud i werthuso ei weithrediad.

### Dioddefwr bregus

Roedd menyw 28 oed wedi cael ei cham-drin yn blentyn gan ei rhieni maeth. Roedd ganddi anawsterau dysgu sylweddol, ac yn oedolyn, mae arni angen cryn gefnogaeth a gofal. Roedd ei thad maeth wedi ei threisio a'i cham-drin yn rhywiol ac roedd y ddau riant wedi ei hesgeuluso yn gorfforol a meddyliol. Yn ychwanegol, roedd ei mam faeth wedi dwyn swm sylweddol o arian o'i budd-daliadau.

Yn aml roedd hi'n llwglyd a byddai'n gorfod cymryd bwyd amrwd o'r rhewgell i'w fwyta. Nid oedd yn cael cymryd cawod pan oedd arni eisiau ac yn aml byddai'n cael ei gweld gan y cymdogion (a roddodd dystiolaeth yn yr achos llys) yn fudr ac yn yr un dillad. Ni fyddai'n cael mynd i mewn i'r tŷ os nad oedd y fam faeth yno a byddai'n gorfod aros yn yr ystafell gefn neu'r tu allan. Roedd hyn yn golygu, os oedd arni angen defnyddio'r toiled, byddai weithiau'n gorfod defnyddio'r ardd i ysgarthu. Roedd ei heiddo yn cael eu cuddio oddi wrthi. Roedd yn cysgu ar y llawr yn y groglofft.

Roedd hwn yn erlyniad anodd oherwydd yr ymddygiad troseddol amrywiol, casglu'r holl dystiolaeth a datgeliadau eang gan drydydd parti.

Collfarnwyd y tad maeth am gyfanswm o 15 mlynedd – am dreisio, ymosod trwy dreiddio ac esgeulustod. Collfarnwyd y fam faeth am wyth mlynedd, am esgeulustod a thwyll.

Mae camau dan y Ddeddf Elw Troseddau yn parhau i adfer yr arian a ddwynwyd oddi ar y ddioddefwraig.

## Eiriolwyr allanol:

Adnewyddwyd ein haelodaeth o'r panel eiriolwyr Treisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol yn ystod 2016. Cryfhawyd y broses achredu ar gyfer Cwnselau o'r bar allanol a bydd yn ofynnol i Gwnselau ddangos eu bod wedi bodloni gofynion hyfforddiant penodol gan y CPS wrth ymgeisio i ymuno â'r panel. Rhoddir manylion yr hyfforddiant yn nes ymlaen yn yr adran hyfforddiant. Bydd penodiad ar y panel hefyd yn amodol ar lwyddo i gwblhau cyfnod prawf 12 mis yn llwyddiannus. Mae hyn yn adeiladu ar y diwygiad yn 2014-15 i'r Cyfarwyddyd ar *Errant Conduct and Poor Performance by External Advocates* a ail gyhoeddwyd i gynnwys mwy o bwyslais ar ymdrin â pherfformiad eiriolwyr, gan gynnwys sicrhau collfarnau.

## Offer ar gyfer y Gwaith: Ymchwilwyr ac Erlynyddion ar Ddelio ag Achosion Treisio.

**Arfer Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu ar Dreisio:**

Yn 2015-16 datblygodd yr Heddlu ddiweddariadau i'w Harfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ar dreisio, gyda chyfraniad gan y CPS, i'w gyhoeddi yn 2016. Bydd hyfforddiant yr heddlu yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd â lansio'r APP treisio. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol,

datblygwyd cynigion i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu neu'r CPS i beidio ag erlyn. Mae'r cynigon yn rhoi cyfarwyddyd i ymchwilwyr ar ddatblygu strategaethau effeithiol i asesu'r risg o aildroseddu gan yr un dan amheuaeth, ac i ddiogelu dioddefwyr rhag unrhyw gamdriniaeth bellach.

**Cyngor ymchwilio cynnar a phenderfyniadau cyhuddo:**

Paratowyd cyfarwyddyd diwygiedig gan y CPS i'r heddlu ac erlynyddion yn Hydref 2014 ac fe'i cymeradwywyd gan y DPP a Chynhadledd Genedlaethol Treisio yn Ionawr 2015. Roedd y cyfarwyddyd diwygiedig yn gonglfaen i gyfres o weithdai rhanbarthol ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS a gynhaliwyd ym mhob Ardal CPS rhwng Gorffennaf a Hydref 2015. Mae wedi ei ymgorffori yn 6ed rhifyn Cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr ar Gyhuddo, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2016.

Dyluniwyd y cyfarwyddyd i wella prydlondeb ac ansawdd yr ymgynghoriadau rhwng erlynyddion ac ymchwilwyr. Mae'r CPS yn rhoi cyngor ymchwiliol cynnar pan ofynnir amdano. Mae ymgynghori cynnar rhwng yr ymchwilwyr a'r erlynyddion yn bwysig i gael gwelliannau ym mhrydlondeb yr erlyniadau ac mae'n un o ofynion y Protocol Treisio ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS.

Yn 2015, comisiynodd Heddlu Suffolk academyddion i werthuso'r defnydd o gyngor ymchwilio cynnar a roddwyd gan erlynyddion arbenigol mewn gorsafoedd heddlu. Ar hyn o bryd mae tri safle treialu yn Nottingham, De Swydd Efrog a Norfolk yn cael eu gwerthuso gydag adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym Medi 2016. Bydd y canfyddiadau o'r cynlluniau treialu yn sail i welliannau i'r modd y mae'r heddlu a'r CPS yn ymdrin â chyngor ymchwilio cynnar. Mae'r canfyddiadau sy'n ymddangos o'r cynlluniau treialu yn tanlinellu gwerth ymgynghori yn gynnar rhwng yr ymchwilydd a'r erlynydd i wella effeithlonrwydd y broses gyhuddo ymhellach a lleihau'r oedi i ddioddefwyr.

Mae'r CPS yn monitro prydlondeb y penderfyniadau cyhuddo ac mae wedi cyflwyno mwy o graffu ar ansawdd ffeiliau a gyflwynwyd gan yr heddlu a'r nifer o achosion wedyn a atgyfeiriwyd yn ôl at yr heddlu i ymchwilio iddynt ymhellach.

**Protocol treisio:**

Gweithredwyd Protocol Treisio ar y cyd yr Heddlu a'r CPS[109], wedi ei ddiweddaru sy'n nodi sut i ymdrin â phob achos treisio o'r gŵyn wreiddiol hyd ar ôl y ddedfryd mewn achos llys yn ystod 2015-16. Trafodwyd ymwybyddiaeth o'r protocol a chydymffurfio ag o yn ystod y gweithdai rhanbarthol rhwng Gorffennaf a Hydref 2015 a gyflwynwyd i ymchwilwyr yr heddlu, goruchwylwyr ac erlynyddion.

**Hyfforddiant:**

Mae sicrhau bod gan y staff yr offer a'r sgiliau angenrheidiol i erlyn yn effeithiol yn flaenoriaeth gan y CPS. Roedd y Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol yn argymell rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i gyfreithwyr arbenigol.

Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r deunydd hyfforddi yn Ionawr 2015. Nodir cronoleg yr hyfforddiant y mae'r CPS wedi ei ddarparu isod:

- Mis Mai i fis Tachwedd 2015 – cyflwynwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb i holl erlynyddion yr unedau RASSO ar erlyn honiadau ffug honedig o dreisio.
- Mis Gorffennaf i fis Hydref 2015 – gweithdai rhanbarthol rhwng yr Heddlu a'r CPS yn cael eu cynnal ym mhob Ardal CPS ac yn cynnwys erlynyddion arbenigol ac ymchwilwyr heddlu rheng flaen. Roedd y gweithdai yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o chwedlau a stereoteipiau

[109] Cyhoeddwyd y Protocol Treisio yn Ionawr 2015.

mewn achosion treisio, y symudiad at ddull sy'n rhoi'r pwyslais ar y troseddwr mewn ymchwiliadau ac erlyniadau, problemau tystion a dioddefwyr, protocol trydydd parti, darparu cyngor ymchwilio cynnar a gweithredu'r protocol treisio cenedlaethol.

- Mis Gorffennaf 2015 i fis Mehefin 2016 – cyflwynwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb ar ddefnyddio Pecynnau Offer Cydsyniad a Dioddefwyr Bregus. Anelwyd yr hyfforddiant hwn at yr holl erlynyddion ac eiriolwyr mewnol arbenigol mewn unedau RASSO.
- Ers Medi 2015, mae'r CPS wedi nodi rhaglen gynefino ar gyfer erlynyddion arbenigol newydd ac, fel rhan o'r rhaglen, wedi cyflwyno cyfres o gyrsiau hyfforddi deuddydd i sicrhau bod yr holl erlynyddion arbenigol treisio yn nhimau RASSO'r CPS, Unedau Achosion Cymhleth a CPSD yn derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb.
- Aed ati i ffilmio fideo hyfforddi ar chwedlau a stereoteipiau ac ymchwilio yn canolbwyntio ar y troseddwr ac erlyniadau ym mis Tachwedd 2015. Defnyddiwyd hyn fel rhan o'r hyfforddiant cynefino ac adnewyddu i erlynyddion ac eiriolwyr yn ystod 2016.
- Ym Mawrth 2016, cyflwynwyd dosbarth meistr cydsyniad trwy weminar gan Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr i erlynyddion ac eiriolwyr arbenigol, oedd yn ymdrin ymhellach â materion cydsyniad yng nghyswllt sefyllfaoedd treisio cyffredin, gan gynnwys gwastrodi mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol.
- Datblygwyd rhagor o hyfforddiant adnewyddu i'w gyflwyno yn ystod 2016 i sicrhau bod achosion yn gadarn o ran tystiolaeth ac felly yn fwy tebygol o lwyddo mewn achos llys. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gweithredu'r Cod i Erlynyddion y Goron, gan atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio dull sy'n rhoi'r pwyslais ar y troseddwr yn yr ymchwiliad, erlyniad ac wrth lunio achos mewn achosion treisio. Mae hefyd yn cynnwys modiwl ar gam-fanteisio'n rhywiol a thrais yn gysylltiedig â gangiau.
- Mae'r CPS hefyd wedi datblygu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer eiriolwyr allanol trwy gael mynediad at ddeunydd e-ddysgu a hyfforddiant y CPS. Bydd y cynnwys sydd ar gael i eiriolwyr yn cael ei ymestyn dros amser a bydd yn cynnwys deunydd hyfforddi treisio.

Mae'r CPS eisoes yn datblygu adnoddau ychwanegol i gefnogi ein herlynyddion arbenigol i'w cyflwyno yn ystod 2016, a fydd yn cynnwys:

- Cyfarwyddyd cyfreithiol wedi ei ddiweddaru.
- 'Both gwybodaeth' ar safle mewnrwyd y CPS, i roi gwell cyfrwng i erlynyddion rannu enghreifftiau o waith achos ac i roi deunydd cyfeirio ychwanegol i gynorthwyo i lunio achosion.
- Diweddarwyd y modylau e-ddysgu.
- Hyfforddiant cynefino wedi ei ddiweddaru i Eiriolwyr y Goron sy'n dymuno ymwneud ag eiriolaeth RASSO.
- Mae hyfforddiant cynefino ac adnewyddu ieuenctid yn cael ei ddatblygu i'r holl arbenigwyr RASSO.
- Hyfforddiant i eiriolwyr ar ymdrin â thystion bregus yn y llys.

## Gwelliant Parhaus: Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd

**Adolygiad Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO):**

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o Unedau RASSO ym mhob Ardal CPS yn 2014. Diben yr adolygiad oedd ystyried strwythur yr unedau a'r adnoddau ar eu cyfer. Roedd yn cynnwys y trefniadau gwylio'r adwy, y broses ar gyfer cyflwyno a darparu cyngor ymchwilio cynnar a phenderfyniadau cyhuddo, er mwyn cael cysondeb o ran dull a gweithredu arfer gorau yn genedlaethol.

Dechreuwyd y gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad yn 2015 a pharhaodd trwy gydol 2015-2016, gan gyfrannu at sicrhau gwelliannau ym mherfformiad yr unedau RASSO.

Datblygwyd model adnoddau newydd i sicrhau bod gan yr unedau RASSO penodedig ddigon o staff i ymdopi â'r cynnydd parhaus nas gwelwyd ei debyg o'r blaen yn niferoedd y gwaith achos yn genedlaethol a gwaith achos cynyddol gymhleth. Arweiniodd hyn at ymgyrch genedlaethol i recriwtio erlynyddion ychwanegol. Recriwtiwyd 102 o erlynyddion a rheolwyr cyfreithiol (83 ohonynt yn erlynyddion) a 24 o staff paragyfreithiol[110]. Mae'r rhain naill ai yn eu gwaith neu yn aros i wiriadau cyn cyflogi gael eu cynnal.

### Dedfryd gordrugarog

Adolygwyd achos o dreisio gan 'ddieithryn' o 1987 pan wnaeth tystiolaeth DNA gysylltu'r diffynnydd â'r troseddau. Roedd y ddioddefwraig, a oedd yn 16 oed ar y pryd, yn cerdded ar hyd llwybr ar ei ffordd adref pan dreisiwyd hi gan y diffynnydd. Cafodd ei ddedfrydu i 6 mlynedd a 4 mis o garchar. Atgyfeiriodd y CPS yr achos at yr Atwrnai Cyffredinol fel un dedfryd gordrugarog a diwygiwyd y ddedfryd i 8 mlynedd o garchar.

## Adolygiad Thematig HMCPSI ar ddull y CPS o ymdrin treisio a throseddau rhywiol difrifol

Cyhoeddodd HMCPSI adolygiad thematig o'r unedau RASSO hyd Chwefror 2016. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod y CPS wedi gwneud llawer o waith i roi blaenoriaeth i wella erlyniadau treisio a chadarnhaodd yr argymhellion a wnaed gan adolygiad mewnol y CPS a gwblhawyd yn Rhagfyr 2014.

Roedd mwyafrif yr argymhellion yn yr adroddiad mewn amrywiol gyfnodau o ran gweithredu ar adeg yr arolygiad HMCPSI. Ond, roedd y CPS yn cydnabod bod yr adroddiad hefyd yn cynnig adborth defnyddiol ar agweddau o'i waith y gellir eu gwella ymhellach.

## Adroddiad y Fonesig Elish Angiolini QC ar yr adolygiad o ymdrin ag ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain

Cyhoeddodd y DPP a Chomisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan adroddiad annibynnol cynhwysfawr i ymdrin ag ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain ym Mehefin 2015.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad wedi bod yn sail i raglen o waith i wella erlyn treisio yn Llundain ac maent wedi cael eu rhannu a'u gweithredu yn genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen waith genedlaethol i ddarparu cyfarwyddyd a hyfforddiant i erlynyddion arbenigol, ailstrwythuro'r uned RASSO yn Llundain i ganolbwyntio yn unig ar waith RASSO a recriwtio adnoddau ychwanegol.

[110] Mewn rhai Ardaloedd, symudwyd y staff oedd yno'n barod i rolau RASSO ac fe recriwtiwyd staff yn eu lle.

# Grŵp Llywio Treisio Cenedlaethol

Ym Medi 2015, sefydlodd y CPS a'r Heddlu Grŵp Llywio Cenedlaethol Treisio, gyda chefnogaeth Bwrdd Darparu ar y cyd, i yrru rhaglen waith gydlyn ymlaen. Roedd hyn yn adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Treisio Cenedlaethol a'r adolygiad o ymdrin ag ymchwilio ac erlyn treisio yn Llundain. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys y DPP, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Sicrhau Mewnol y CPS a'r arweinyddion plismona cenedlaethol dros gam-drin rhywiol ar oedolion, cam-drin plant yn rhywiol a chyfiawnder troseddol. Cwmpas y Grŵp Llywio yw *"gweithredu model well ar gyfer gweithio RASSO, a ddyluniwyd i ddarparu cyngor ymchwilio cynnar prydlon ac o safon uchel, ymchwiliadau a chasglu tystiolaeth o safon uchel, penderfyniadau cyhuddo prydlon, a pharatoi achosion yn gyson hyd at y llys ac yn cynnwys hynny."*

Sefydlwyd y Bwrdd i ddwyn at ei gilydd y llu o ffrydiau gwaith sy'n cael eu symud ymlaen gan y CPS a'r gwaith ar y cyd gyda'r heddlu. Roedd y meysydd gwaith allweddol yn cynnwys:

- datblygu'r model darparu adnoddau cenedlaethol i gefnogi unedau RASSO, gan gynnwys ymgyrch recriwtio genedlaethol;
- trefniadau gwell i reoli achosion ar y system reoli achosion genedlaethol trwy sefydlu unedau RASSO digidol a phrosesau gwaith achos wedi eu safoni;
- datblygwyd trefniadau lles wedi eu creu i'r diben i reolwyr a'r holl staff sy'n ymdrin â gwaith achos treisio;
- cefnogaeth i arbenigwyr trwy ddiweddaru cyfarwyddyd a hyfforddiant, gan gynnwys treialu rhaglen gynefino newydd i arbenigwyr sy'n newydd i waith RASSO;
- adnewyddwyd manylebau rolau swyddi RASSO a datblygwyd egwyddorion cylchdroi ar gyfer staff arbenigol sy'n symud rhwng unedau RASSO a Llys y Goron neu unedau llysoedd ynadon;
- cryfhau'r gofynion a'r gefnogaeth trwy hyfforddiant i eiriolwyr CPS ac eiriolwyr o'r bar allanol, trwy gysylltu â Chyngor y Bar a Chymdeithas y Bar Troseddol;
- datblygu safon ansawdd ffeiliau cenedlaethol ar gyfer achosion treisio, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol i reolwyr RASSO wrth ddynodi a rhoi adroddiad am berfformiad ac ansawdd gwaith achos;
- gwell craffu ar niferoedd gwaith achos cyn cyhuddo ac amserlen o ran gwneud penderfyniadau;
- sefydlu fforwm cenedlaethol bob yn ail fis i reolwyr RASSO i rannu arfer gorau, y gwersi a ddysgwyd ac ymgynghori arnynt ac i fod yn sail i gyflawni'r argymhellion o'r adolygiadau;
- datblygu trefniadau gwell ar gyfer cyngor ymchwiliol cynnar ar sail y tri chynllun treialu ar y cyd gan yr Heddlu a'r CPS;
- cydweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu defnydd lliflin ac effeithiol o dystiolaeth fforensig feddygol mewn achosion treisio;
- gwaith gyda phartneriaid allweddol i wella cyd-ymdrin â datgelu yn ymwneud â phrotocol trydydd parti mewn achosion treisio; a
- datblygu cynllun treialu 'cyfarfod camau arbennig cynnar' i wella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr mewn achosion sy'n symud ymlaen i'w herlyn.

## Datgeliad

- Cynhaliodd CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr weithdy gydag awdurdodau lleol a'u lluoedd heddlu ar weithredu'r Protocol Trydydd Parti ar ddatgeliad.

- Mae CPS Dwyrain Lloegr yn parhau i ddarparu hyfforddiant i gyfreithwyr ar draws Dwyrain Lloegr am Ddatgelu gwybodaeth mewn achosion honedig o Gam-drin Plant, a'r protocol Gwrandawiadau Troseddol a Chyfarwyddiadau Gofal cysylltiedig a'r rheolau sy'n gysylltiedig â datgelu dan yr amgylchiadau hyn. Cynigir cyfarfodydd Camau Arbennig ym mhob achos treisio a cham-drin plant yn rhywiol.

# Honiadau ffug honedig

Diweddarwyd a chyhoeddwyd y cyfarwyddyd cyfreithiol ar Gyhuddo Gwrthdroi Cwrs Cyfiawnder a
Gwastraffu Amser yr Heddlu mewn Achosion sy'n Cynnwys Honiadau Ffug Honedig o Dreisio a/neu DA yn Ebrill 2015 i sicrhau bod erlynyddion yn cael yr offer mwyaf diweddar sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau addas yn yr achosion cymhleth yma.

Arweiniwyd gweithdy gan Gynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr a'r Cydlynydd VAWG dros Mersi a Swydd Gaer ym Mai 2015 i Ddirprwy Brif Erlynyddion y Goron a Phenaethiaid Unedau RASSO. Roedd yn archwilio nifer o achosion, yn gosod safonau ac yn canolbwyntio yn neilltuol ar bobl fregus dan amheuaeth. Rhaeadrodd y Penaethiaid Unedau RASSO yr hyfforddiant i'r holl erlynyddion RASSO arbenigol rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2015, fel yr amlinellir yn yr adran hyfforddiant uchod.


# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys data yn ymwneud â phenderfyniadau cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), gan mai dim ond ar ôl gorffen yr achos erlyn mae'r prif gategori o 'droseddau rhywiol' sy'n cynnwys treisio a phob trosedd rhywiol yn cael ei ddyrannu i achosion[111]. Mae'r data a roddir isod yn ymdrin â *phob* diffynnydd troseddau rhywiol, beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion am ryw pan fyddant ar gael[112].

Erlynwyd 11,995 o ddiffynyddion yn 2015-16 am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio; cynnydd o 2,206 o ddiffynyddion (22.5%) o 9,789 yn 2014-15; gan gyrraedd y nifer uchaf erioed. Cynyddodd y gyfran o waith achos y CPS a dadogir ar erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) o 1.5%[113] yn 2014-15 i 1.9% yn 2015-16.

O'r 11,995 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 11,658 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 319 yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 18 o ddiffynyddion. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 97.3% yn wrywaidd a 2.7% yn fenywaidd[114], sy'n debyg i'r nifer a gofnodwyd dros y chwe blynedd diwethaf.

## Graff 13: Llwyth achosion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) fel % o'r llwyth achosion




| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CPS YN GENEDLAETHOL | 0.8% | 0.9% | 0.9% | 1.0% | 1.2% | 1.5% | 1.9% |

111 Daw data troseddau rhywiol y CPS (ac eithrio treisio) o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r diffynyddion gyda lluman treisio. Nid oes lluman monitro ar wahân ar gyfer 'troseddau rhywiol' a weithredir, naill ai wrth i'r CPS dderbyn cais i wneud penderfyniad cyn cyhuddo neu wrth dderbyn y ffeil achos wedi cyhuddo. Dim ond wrth gwblhau achos yr erlyniad y bydd prif drosedd yn cael ei dyrannu, yn seiliedig ar y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd o'i chyflawni wrth gwblhau.

112 Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheoli Tystion ond nid yw'n cynnwys unrhyw gofnod o ddioddefwyr troseddau rhywiol heblaw am dreisio, gan fod y wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel diffynnydd yn unig.

113 Llwyth achosion troseddau rhywiol fel % o holl erlyniadau'r CPS


114 Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (97.2% a 2.7%).

## Tabl 5: Erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd yn ôl deilliant

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 6,060 | 76.0 | 6,588 | 74.3 | 6,308 | 75.7 | 5,971 | 76.8 | 6,756 | 79.0 | 7,591 | 77.5 | 9,351 | 78.0 |
| Aflwyddiannus | 1,912 | 24.0 | 2,274 | 25.7 | 2,026 | 24.3 | 1,800 | 23.2 | 1,798 | 21.0 | 2,198 | 22.5 | 2,644 | 22.0 |
| **Cyfanswm** | **7,972** | | **8,862** | | **8,334** | | **7,771** | | **8,554** | | **9,789** | | **11,995** | |

Yn 2015-16 gwelwyd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed o gollfarnau (9,351) cynnydd o 1,760 (23.2%) o 7,591 yn 2014-15, mewn cymhariaeth â chynnydd bychan yn y gyfran (78%), fel yng Ngraffiau 14 ac 15 a Thabl 5.


## Graff 14: Niferoedd troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2009-10 i 2015-16




Cynyddodd y gyfran o bleon euog allan o'r holl erlyniadau ychydig i 66%, mewn cymhariaeth â'r nifer uchaf o bleon euog a gofnodwyd erioed. Roedd 84.7% o'r holl ddeilliannau llwyddiannus yn bleon euog. Cynyddodd y nifer o gollfarnau a sicrhawyd ar ôl achos llys i 1,422, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, roedd hyn yn 11.9%, o'r holl erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), a 48.8% allan o'r holl erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) y dadleuwyd yn eu herbyn yn y llys (ac eithrio pleon cymysg[115]). Gostyngodd nifer yr achosion na ddaeth i'r llys oherwydd materion dioddefwyr o 16.3% yn 2014-15 i 14.6% yn 2015-16 a, dros yr un cyfnod, gostyngodd yr erlyniadau o 9.2% i 8.9%.

[115] 'Ac eithrio gyda phleon cymysg' yw achosion diffynyddion pan roddir ple 'ddieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.

**Graff 15: Niferoedd troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) a'r gyfran o gollfarnau 2009-10 i 2015-16**




# Perfformiad ardaloedd

Mae'r tablau ar dudalen 95-102 yn rhoi data erlyniadau troseddau rhywiol yn ôl Ardal a llu heddlu. Ers 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)[116] **yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP pan fydd ar gael.**

Rhoddir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig ar ddechrau'r adroddiad VAWG ar dudalen 17.

# Materion cydraddoldeb

Mae'r data ar ddioddefwyr yn dod gan y Gwasanaeth Rheoli Tystion ond nid yw'n cofnodi data am ddioddefwyr troseddau rhywiol, heblaw am dreisio.

**Rhyw**
O'r 11,995 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 11,658 o'r diffynyddion yn wrywaidd, 319 yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 18 o ddiffynyddion. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 97.3% o'r dioddefwyr yn wrywaidd a 2.7% yn fenywaidd[117], sy'n debyg i'r nifer a gofnodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

[116] Cynhwysir data am Heddlu Dinas Llundain yn y data ar gyfer Llundain yn gyffredinol.
[117] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrifo allan o'r cyfanswm, gan gynnwys y rhai heb gofnodi rhyw (97.2% o ddiffynyddion gwrywaidd a 2.7% o ddiffynyddion benywaidd).

**Ethnigrwydd**
Yn 2015-16, nodwyd bod 58.9% o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau rhywiol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig ac roedd 65.1% wedi eu categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 66.9% yn 2014-15)[118]. Dynodwyd 6.6% o ddiffynyddion yn Asiaidd (0.3 pwynt canran yn llai na'r flwyddyn flaenorol) a 5.6% yn Ddu (0.5 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol).

**Oedran**
O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran[119], roedd y mwyafrif o'r diffynyddion rhwng 25 a 59 oed (67.1%) a rhwng 18 a 24 (15.5%). Roedd ychydig dros bumed ran o'r diffynyddion (2,338) dan 24 oed, gyda 3.7% o'r diffynyddion (437) yn 14-17 mlwydd oed a 0.5% (54) yn 10-13 oed.

### Ymosodiadau rhywiol heb fod yn ddiweddar gan weithiwr iechyd proffesiynol

Roedd cynfeddyg, 74 oed, wedi ymosod yn rhywiol ar ferch yn ei harddegau, oedd yn ddim ond 15 oed ar y pryd a thair o gleifion eraill yn yr 1970au ac yn gynnar yn yr 1980au, tra'r oedd yn gweithio fel Meddyg Teulu. Gwelwyd ei fod wedi cyflawni'r ymosodiadau anweddus yn ystod archwiliadau clinigol diangen.

Fe'i cafwyd yn euog o bum cyfri o ymosod yn anweddus a'i garcharu am 18 mis am y gyfres o ymosodiadau anweddus heb fod yn ddiweddar ar gleifion. Yn ychwanegol at y ddedfryd o garchar, fe'i gorchmynnwyd i dalu £7,500 o gostau cyn pen chwe mis, ac fe'i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw am 10 mlynedd.

## Cynllun treialu croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw

Ar hyn o bryd mae croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yn cael ei dreialu (cynllun treialu a.28), gan alluogi i ddioddefwr neu dyst bregus gael ei groesholi gan yr amddiffyniad cyn yr achos llys. Mae'r cynlluniau treialu yn cael eu cynnal yn Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston. Fe'i bwriadwyd i wella profiad dioddefwyr neu dystion bregus trwy sicrhau eu bod yn rhoi tystiolaeth mor gynnar â phosibl. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno trefniadau o'r fath ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r cynlluniau treialu yn parhau ac maent wedi cael eu hymestyn hyd Hydref 2017. Cynllun/prosiect gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw hwn a dyma'r cam arbennig olaf i'w gyflwyno o Ddeddf Tystiolaeth Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

Y dioddefwyr a thystion sy'n gymwys i gael eu croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw yw'r rhai sydd:

- dan 16 oed ar adeg y gwrandawiad;
- yn dioddef o gyflwr meddyliol yn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- gydag amhariad arwyddocaol ar ddeallusrwydd a gallu cymdeithasol; neu
- ag anabledd corfforol neu anhwylder corfforol sy'n debygol o leihau ansawdd eu tystiolaeth.

Credir y bydd y camau yn arbennig o ddefnyddiol i ddioddefwyr troseddau rhywiol sy'n aml yn cael croesholi yn brofiad sy'n peri gofid. Gall y syniad o gyflawni hyn mewn amgylchedd tawelach, mwy

[118] Ni ddatganodd ychydig dros 10% o ddiffynyddion ethnigrwydd ar gael eu harestio, ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 10% o ddiffynyddion i'r CPS gan yr heddlu – y ddau yn uwch na 2014-15; cyfanswm cynnydd o 1.9% heb eu cofnodi.
[119] Cofnodwyd 99.3% o oedrannau dioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd o 99.1% yn 2014-15.

cyfyngedig leihau'r gofid. Cynhelir y recordiad cyn gynted â phosibl wedi'r drosedd honedig ac fe'i dangosir fel tystiolaeth mewn treialon, sy'n lleihau'r straen a'r trawma i ddioddefwyr ifanc neu fregus.

### Croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw

Cynhwyswyd achos lle'r oedd y diffynnydd wedi ei gyhuddo o dreisio merch a chreulondeb i blentyn arall yn y cynllun treialu. Rhoddodd y ddau dyst oedd yn blant eu cyfweliad croesholi wedi ei recordio ymlaen llaw dri mis ar ôl y cyhuddiad – oedd bedwar mis cyn yr achos llys.

Plediodd y diffynnydd yn euog i un cyfrif o greulondeb i blentyn ond yn ddieuog o dri chyfrif o dreisio. Ond, oherwydd ansawdd y dystiolaeth fe'i collfarnwyd trwy reithfarn mwyafrif a'i ddedfrydu i ddedfryd estynedig yn y carchar am 24 mlynedd gyda lleiafswm o 18 mlynedd o garchar.

Roedd o fantais amlwg i'r tystion bod eu tystiolaeth wedi ei roi dri mis ar ôl y cyhuddiad ac nad oedd gofyn iddynt aros hyd ddyddiad y treial i roi tystiolaeth rhyw saith mis ar ôl y cyhuddiad.

# Priodas dan orfod, trais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau rhywiol menywod

## Priodas dan Orfod

Mae'r data isod yn cynnwys pob achos a lumanwyd fel 'priodas dan orfod' ac nid y rhai oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth priodas dan orfod newydd a gyflwynwyd yn 2014 yn unig.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau priodas dan orfod gan yr heddlu o 82 yn 2014-15 i 90 yn 2015-16 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cyhuddwyd 57 (63.3%) o'r atgyfeiriadau hyn, eto'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Llumanwyd pob achos o briodas dan orfod fel priodas dan orfod a DA yn 2015-16[120].

Cododd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 i 53 o 46 yn 2014-15, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. O'r 53 diffynnydd a erlynwyd, roedd 43 (81.1%) yn wrywaidd a 10 (18.9%) yn fenywaidd. Dengys y data dioddefwyr o'r System Rheoli Tystion bod 32 o ddioddefwyr benywaidd a phedwar dioddefwr gwrywaidd, ni chofnodwyd rhyw 12 o'r dioddefwyr. Nid yw'r cofnodi rhyw dioddefwyr hwn ar 75%, yn ddigon cadarn i gynnwys y gyfradd o'r ddau ryw yn yr adroddiad hwn.

### Tabl 6: Erlyniadau priodas dan orfod a gwblhawyd yn ôl deilliant, 2010-11 hyd 2015-16

| | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 20 | 48.8% | 23 | 54.8% | 29 | 70.7% | 32 | 71.1% | 29 | 63.0% | 32 | 60.4% |
| Aflwyddiannus | 21 | 51.2% | 19 | 45.2% | 12 | 29.3% | 13 | 28.9% | 17 | 37.0% | 21 | 39.6% |
| **Cyfanswm** | **41** | | **42** | | **41** | | **45** | | **46** | | **53** | |

Roedd 32 o erlyniadau[121] yn llwyddiannus, cynnydd o 29 yn 2014-15, ond roedd gostyngiad yn y gyfradd gollfarnu i 60.4% o 63% yn 2014-15. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd o 41.5% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 28.3% yn 2015-16 (neu 15 achos), er bod hyn yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol pan ollyngwyd 21.7% (neu 10 achos).

Roedd cynnydd yn nifer a chyfran yr achosion a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (dioddefwr yn tynnu yn ôl, dioddefwr ddim yn dod i'r llys neu pan oedd tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r achos) o 47.1% (wyth achos) yn 2014-15 i 66.7% (14 achos) yn 2015-16. Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

[120] Bydd achosion priodas dan orfod yn cael eu llumanu fel FM a DA pan fydd y diffynnydd yn y teulu, fel y'i diffinnir dan DA. Yn y gorffennol mae rhai achosion wedi cynnwys diffynyddion o'r tu allan i'r teulu a byddai achosion o'r fath yn cael eu llumanu fel FM yn unig.
[121] Nid yw'r data ar ddeilliannau collfarnu yn cael ei rannu ar hyn o bryd yn ôl rhyw'r diffynyddion.

### Gweithio mewn partneriaeth

Yn ystod 2015, cymerodd Mersi Swydd Gaer ran mewn digwyddiad 'Mega Mela' rhanbarthol, fe wnaethant gysylltu â menywod Asiaidd yn lleol, ac fe wnaethant gymryd rhan mewn digwyddiad i nodi Diwrnod Cofio Cenedlaethol i ddioddefwyr HBV (er cof am Shafelia Ahmed) yn ogystal â digwyddiadau cymunedol ehangach, a fwriadwyd i gynyddu'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth ymhlith asiantaethau partner a chymunedau lleol.

Cefnogodd yr ardal hefyd ddatblygiad ymgyrch flaengar ar y cyfryngau yn 2015, dan arweiniad Heddlu Glannau Mersi yng nghyswllt priodas dan orfod a HBV.

Chwaraeodd yr Ardal ran allweddol wrth ddatblygu dull cydlyn rhanbarthol o ymdrin â'r agenda 'arferion niweidiol'.

## Deddfwriaeth priodas dan orfod

Fe ddaeth trosedd benodol o briodas dan orfod dan a.121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i rym ym Mehefin 2014. Cyn cyflwyno'r drosedd newydd, roedd erlynyddion yn ymdrin ag achosion priodas dan orfod gan ddefnyddio deddfwriaeth fel y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â threisio, troseddau rhywiol, carcharu ar gam, herwgipio a throseddau cam-drin pan oedd hyn yn nodwedd o'r troseddu. Mae'r drosedd benodol newydd o briodas dan orfod yn drosedd arall y gall erlynyddion ei defnyddio. Erlynwyd pum diffynnydd mewn dau achos yn 2015-16 – y cyfan yn Llundain. Ond bu'r ddau erlyniad yn aflwyddiannus gan i'r dioddefwyr dynnu yn ôl a gwrthod mynd i unrhyw wrandawiadau.

Yn ychwanegol at y drosedd priodas dan orfod newydd, cyflwynwyd torri Gorchymyn Diogelu Priodas dan Orfod (FMPO) (Deddf Cyfraith Teulu 1996 63CA (1) a (5)) ac mae iddi gosb uchaf ar dditiad o bum mlynedd yn y carchar, neu ddirwy, neu'r ddau. Yn y llys ynadon, mae'r uchafswm statudol o chwe mis o garchar a/neu ddirwy yn berthnasol. Yn 2015-16 erlynwyd chwe throsedd (tair yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, dwy yn Swydd Efrog a Glannau Humber ac un yng Ngogledd Orllewin Lloegr). Erlynwyd un diffynnydd yn llwyddiannus; collfarnwyd un arall am droseddau mwy difrifol. Roedd dau yn aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (un achos â dau ddiffynnydd). Roedd un yn aflwyddiannus mewn treial[122].

### Erlyn am dorri gorchymyn diogelu priodas dan orfod

Gorfodwyd dioddefwraig i briodi gan ei rhieni ac roedd wedi dioddef ymosodiad a'i bygwth gan ei thad. Felly ymgeisiodd yr heddlu am Orchymyn Diogelu Priodas dan Orfod a roddwyd yn Ionawr 2013 yn erbyn rhieni'r ddioddefwraig. Roedd yr amodau yn cynnwys peidio â bygwth, codi ofn nac aflonyddu ar y ddioddefwraig, peidio â defnyddio trais na bygwth defnyddio trais yn erbyn y ddioddefwraig. Yn Hydref 2015 gorfododd tad y ddioddefwraig ei ffordd i'w chartref a cheisio torri drws y llofft ac ymosod ar y ddioddefwraig. Fe'i harestiwyd a'i gyhuddo o dorri'r FMPO. Plediodd yn euog yn y gwrandawiad cyntaf ac fe'i dedfrydwyd i bedair wythnos yn y ddalfa ac i dalu £260 mewn costau ac ardreth dioddefwr.

[122] Cysylltwyd â'r dioddefwr trwy e-bost, ond nododd y llys na allent fod yn fodlon mai'r diffynnydd oedd wedi anfon y negeseuon.

## Trais ar sail anrhydedd

Mae'r data isod yn ymwneud â phob achos a lumanwyd fel 'trais ar sail anrhydedd'.

Gostyngodd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o droseddau yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd (HBV) o 251 yn 2014-15 i 216 yn 2015-16. Cyhuddwyd 145 (67.1% o'r atgyfeiriadau yma a'r gyfran uchaf a gofnodwyd erioed) sy'n ostyngiad bychan yn y niferoedd o'r flwyddyn flaenorol pan gyhuddwyd 157 o'r atgyfeiriadau.

**Tabl 7: Erlyniadau trais ar sail anrhydedd a gwblhawyd yn ôl deilliant, 2010-11 hyd 2015-16**

| | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 121 | 51.7% | 86 | 50.0% | 126 | 63.0% | 123 | 59.7% | 129 | 57.3% | 91 | 50.0% |
| Aflwyddiannus | 113 | 48.3% | 86 | 50.0% | 74 | 37.0% | 83 | 40.3% | 96 | 42.7% | 91 | 50.0% |
| **Cyfanswm** | **234** | | **172** | | **200** | | **206** | | **225** | | **182** | |

Erlynwyd 182 o ddiffynyddion, gostyngiad o 225 y llynedd (sef y lefel uchaf a gofnodwyd erioed). O'r 182 diffynnydd a erlynwyd, roedd 158 (86.8%) yn wrywaidd a 24 diffynnydd yn fenywaidd (13.2%).

Cofnodwyd 150 o ddioddefwyr yn y System Rheoli Tystion.
O'r holl ddioddefwyr, roedd 94 yn fenywaidd, 29 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 27 o ddioddefwyr. Cofnodwyd rhyw 82% o ddioddefwyr yn 2015-16 – cynnydd bychan o'r flwyddyn flaenorol o 81.6% ond gostyngiad o 88.4% yn 2013-14. Pan gofnodwyd rhyw'r dioddefwyr, y gyfran o ddioddefwyr benywaidd oedd 76.4% a dioddefwyr gwrywaidd yn 23.6%. Mae'r cyfraddau wedi amrywio o 68% i 76.4% o ddioddefwyr benywaidd dros y chwe blynedd diwethaf.

Arweiniodd 50% o'r erlyniadau at gollfarn, gostyngiad o 7.3 pwynt canran ers 2014-15. Gostyngodd erlyniadau a ollyngwyd o 40.6% pan gofnodwyd yr achosion hyn gyntaf yn 2010-11, i 36.3% yn 2015-16; ond roedd hyn yn gynnydd o 29.8% yn 2014-15. Mewn achosion HBV roedd cynnydd bychan mewn deilliannau aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (o 45.8% yn 2014-15 i 46.2% yn 2015-16). Roedd gostyngiad yn y gyfradd a'r nifer o bleon euog o 48% (neu 108 achos) yn 2014-15 i 34.1% (neu 62 achos) yn 2015-16. Mae'r nifer fechan o achosion yn dynodi'r angen am ofal wrth ddehongli'r data hwn.

Yr Ardaloedd oedd yn erlyn y nifer fwyaf o erlyniadau FM a HBV oedd Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr, De Ddwyrain Lloegr, Tafwys a Chiltern a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Wrth gydnabod y gostyngiad mewn erlyniadau a'r deilliannau llwyddiannus datblygwyd rhaglen o waith ar gyfer 2016-17 a amlinellir isod dan y pennawd Cyfarwyddyd Cyfreithiol a Hyfforddiant.

### Cymdeithas Genedlaethol Erlynyddion Duon y Goron

Cynhaliodd Cymdeithas Genedlaethol Erlynyddion Duon y Goron ei 15fed Cynhadledd Flynyddol ym mis Hydref 2015. Thema'r Gynhadledd oedd "Ymdrin â phriodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd". Roedd y cyflwynwyr yn cynnwys Prif Weithredwr y CPS, Hwylusydd VAWG CCP, un oedd wedi goroesi priodas dan orfod, prifathro ac ymgyrchydd hawliau dynol annibynnol.

## Materion traws-lywodraethol

Yn Rhagfyr 2015 cyhoeddodd HMIC adroddiad dan y teitl*, The Depths of Dishonour: Hidden voices and shameful crimes* sef yr arolygiad cyntaf i ymateb yr heddlu i HBV, FM a FGM.

Er bod mwyafrif yr argymhellion yn yr adroddiad yn rhai i'r heddlu roedd cam penodol i'r CPS a nododd: 'dylai'r arweinydd plismona cenedlaethol, ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron, ddatblygu protocol ymchwilio ac erlyn ar y cyd cyfatebol ar gyfer HBV a FM fel yr un sy'n bodoli ar gyfer FGM'.

Mae'r CPS yn gweithio mewn partneriaeth â'r arweinydd NPCC i ddatblygu'r protocol a ddylai fod yn ei le yn ystod 2016.

## Cyfarwyddyd a Hyfforddiant Cyfreithiol

Wrth gydnabod yr angen i ymdrin â'r gostyngiad yn niferoedd yr erlyniadau a'r collfarnau, datblygodd y CPS gynllun gweithredu ar gyfer 2016-17 a bydd yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector ar ei gyflawni.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys nifer o argymhellion gan gynnwys ail gysylltu ag erlynyddion arbenigol HBV ac FM y CPS, Cydlynwyr VAWG, EDCEM ac arbenigwyr trydydd sector ar HBV ac FM; adnewyddu a diweddaru cyfarwyddyd cyfreithiol a hyfforddiant, gan sicrhau bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw faterion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a datblygu adran HBV ac FM ar foth gwybodaeth y CPS.

## Arferion da Ardaloedd

Mae nifer o Ardaloedd wedi dangos arferion da ar briodas dan orfod a thrais seiliedig ar urddas ac mae rhai Ardaloedd wedi cynnal mentrau lleol.

### Gweithio mewn partneriaeth yn lleol

- Cynhaliodd CPS Cymru ddigwyddiad ymwybyddiaeth HBV amlasiantaethol yn Nyfed Powys.
- Cyflwynodd CPS Tafwys a Chiltern hyfforddiant ar FM/HBV ac FGM i aelodau eu panel craffu VAWG.
- Bu CPS Mersi yn gweithio'n glos gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol yn ehangach i sefydlu grŵp lleol i ymdrin ag arferion traddodiadol niweidiol.
- Mae CPS Gogledd Orllewin Lloegr yn gweithio'n glos gyda'r llysoedd teulu i dderbyn copïau o FMPO, i sicrhau eu bod yn gweithredu'n gyflym os byddant yn cael eu torri. Yn ychwanegol maent yn gweithio gydag ysgolion a meysydd awyr i godi ymwybyddiaeth o'r mater.

# Anffurfio Organau Rhywiol Menywod

Mae arweinydd polisi'r CPS yn cadeirio cynadleddau ffôn misol gydag arweinyddion Anffurfio Organau Rhywiol Menywod Ardaloedd CPS. Mae hyn o gymorth i roi'r newyddion diweddaraf am FGM yn genedlaethol ac mae'r arweinyddion Ardal yn rhoi'r diweddaraf am yr achosion a atgyfeiriwyd, y sialensiau y maent yn eu hwynebu, Gorchmynion Diogelu FGM (FGMPS) a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Mae hefyd yn cynnig fforwm defnyddiol i gyfnewid profiad o achosion e.e. defnyddio arbenigwyr meddygol a chodi materion i'w trafod gydag adrannau eraill o'r llywodraeth.

## Deddfwriaeth

Mae'r CPS yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y llywodraeth ar ddatblygiadau a chynnydd wrth ymdrin â FGM. Roedd Deddf Troseddau Difrifol 2015, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol ym Mawrth 2015, yn cynnwys darpariaethau i gryfhau Deddf FGM 2003 a chyflwynodd ddarpariaethau newydd sydd wedi dod i rym i gyd erbyn hyn. Roedd y darpariaethau newydd yma i:

- ymestyn cyrraedd y troseddau tu allan i diriogaeth yn Neddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod 2003 (daeth i rym ym Mai 2015);
- gyflwyno trosedd newydd o atebolrwydd rhiant am beidio ag atal FGM rhag cael ei gyflawni (daeth i rym Mai 2015);
- sicrhau bod dioddefwyr FGM yn parhau yn ddienw ar hyd eu hoes o'r amser pan wneir yr honiad (daeth i rym Mai 2015);

- ddarparu ar gyfer gwneud rhoi adroddiad yn orfodol am achosion hysbys o FGM pan fydd y dioddefwr dan 18 mlwydd oed i weithwyr proffesiynol, athrawon a staff gofal cymdeithasol (daeth i rym Hydref 2015) a
- chyflwyno gorchymyn diogelu FGM (rhwymedi cyfraith sifil) i ddiogelu darpar ddioddefwyr sydd mewn perygl (daeth i rym Gorffennaf 2015).

Diwygiwyd y cyfarwyddyd i erlynyddion ac fe'i cyhoeddwyd i adlewyrchu'r newidiadau hyn a chyhoeddwyd cyfarwyddyd statudol newydd, y cyfrannodd y CPS ato, yn Ebrill 2016.

Yn dilyn gweithredu diwygiadau i Ddeddf FGM 2003, mae achosion ychwanegol wedi eu hatgyfeirio at y CPS i gael cyngor ymchwilio cynnar; ond nid yw'r CPS wedi gallu symud ymlaen ag unrhyw un o'r rhain.

Arweiniodd yr orfodaeth i roi adroddiad ar weithwyr proffesiynol rheng flaen at gynnydd yn y nifer o achosion y rhoddwyd adroddiad amdanynt i'r heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan weithwyr meddygol proffesiynol yn neilltuol. Ond, yn y mwyafrif o achosion mae ymateb diogelu yn fwy addas, ynghyd â gweithredu Gorchymyn Diogelu FGM (FGMPO) os bydd angen. Nid yn unig mae rhoi adroddiadau gorfodol wedi cynyddu'r nifer o adroddiadau i ymchwilio iddynt, ond mae hefyd yn cynnig gwell data ar raddfa a lleoliad cymunedau sy'n arfer FGM.

Mae'r CPS wedi gweithio'n glos gyda gweithwyr meddygol proffesiynol i hybu'r ddyletswydd i roi adroddiad, yn arbennig yn y GIG yn Lloegr, GIG Cymru, yr Adran Iechyd a'r Colegau Bydwreigiaeth ac Obstetreg a Gynaecoleg Brenhinol (RCOG). Bu'r DPP mewn cyfarfodydd cyson â Llywydd y RCOG i drafod yr ystod o ardaloedd sydd o ddiddordeb cyffredin, sy'n cynnwys FGM. Cyfrannodd y CPS at ganllawiau FGM y RCOG ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol.

Roedd cyflwyno'r FGMPO yn gam cadarnhaol i ddiogelu darpar ddioddefwyr pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn awgrymu eu bod mewn perygl. Yn y cyfnod rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2015, caniatawyd cyfanswm o 32 FGMPO (data MoJ). Y flaenoriaeth yn awr yw sicrhau bod dull cydlyn gan Awdurdodau Lleol, Llysoedd Teulu, yr Heddlu a'r CPS i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu. Er enghraifft, gall gwybodaeth i gefnogi Gorchmynion Diogelu y mae asiantaethau heblaw'r heddlu yn gwneud cais amdanynt, neu gan unigolion, olygu bod ymchwiliad neu erlyniad yn deillio o hynny.

## Arferion da Ardaloedd

Mae'r holl Ardaloedd CPS wedi cyfrannu at amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol lleol a gynhaliwyd i godi ymwybyddiaeth ynghyd â chymryd rhan mewn fforymau ymgysylltu â chymunedau. Mae ymwybyddiaeth leol yn arbennig o bwysig cyn gwyliau'r ysgol, i sicrhau bod ymateb amlasiantaethol i atal FGM, trwy gynnwys ysgolion a staff mewn meysydd awyr. Ond mae'n parhau'n wir mai ychydig o wybodaeth sy'n dod o gymunedau sy'n arfer y traddodiad a fyddai'n arwain at ymateb trwy Gyfiawnder Troseddol.

## Gweithio mewn partneriaeth yn lleol

- Roedd erlynyddion y CPS yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn rhan o ddigwyddiadau undydd GIG Lloegr i godi ymwybyddiaeth o FGM ar draws Gogledd Lloegr. Nod y digwyddiadau oedd sefydlu llwybrau cadarn ar draws partneriaeth waith amlasiantaethol, a datblygu dull cynhwysfawr, yn cefnogi camau diogelu ac atal i blant ac oedolion a all fod mewn perygl o ddioddef FGM.

- Roedd CPS Cymru yn rhan o drefnu Cynhadledd Ieuenctid FGM a buont yn hyrwyddo fideo a thaflen FGM yn lleol.

- Lluniodd Uned RASSO CPS Dwyrain Lloegr gysylltiadau gydag aelod o banel LSIP a gytunodd i lunio papur ar FGM i helpu'r heddlu ac erlynyddion ddeall y materion diwylliannol. Yn ychwanegol buont yn gweithio'n glos gyda heddlu Essex yng nghyswllt FGM.

- Siaradodd Dirprwy Brif Erlynydd y Goron CPS Mersi a Swydd Gaer mewn cynhadledd Iechyd FGM ar ddull y CPS o erlyn a'r angen i gyrff proffesiynol roi adroddiadau.

# Cam-drin plant

Llumanir pob achos o gam-drin plant[123]; gyda'r rhai pan fydd cam-drin plant yn rhywiol (CSA) yn cael eu dynodi yn ôl unrhyw drosedd rywiol a lumanir fel cam-drin plant. Mae'r data a roddir isod yn ymdrin â *phob* diffynnydd a thyst cam-drin plant, beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion am ryw pan fyddant ar gael.

Cododd y nifer o atgyfeiriadau cam-drin plant gan yr heddlu i 13,282 yn 2015-16 – cynnydd o 442 o atgyfeiriadau o 12,840 yn 2014-15 (3.4%) a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

Cyhuddwyd 8,889 o'r atgyfeiriadau hyn, cynnydd o 193 diffynnydd o 8,696, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cyhuddwyd 66.9% o'r atgyfeiriadau hyn, gostyngiad o 67.7% yn y flwyddyn flaenorol.

Cyrhaeddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd yn 2015-16 11,130 – cynnydd o 1,085 o ddiffynyddion (neu 10.8%) ers 2014-15, gan gyrraedd y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau llwyddiannus yn yr achosion cam-drin plant yn gyffredinol i 8,439 yn 2015-16 o 7,469 yn 2014-15 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed a chynnydd o 13.0% ers y flwyddyn flaenorol. Arweiniodd 75.8% o erlyniadau at gollfarn yn 2015-16 cynnydd o 1.4 pwynt canrannol o'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2015-16 roedd 41 o erlyniadau lladdiad cam-drin plant[124] cynnydd o 17 yn y flwyddyn flaenorol. Arweiniodd 75.6% o erlyniadau at gollfarn mewn cymhariaeth â 58.8% yn y flwyddyn flaenorol[125]. Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau cam-drin plant yn erbyn yr unigolyn (o 3,192 yn 2014-15 i 3,582 yn 2015-16 – y lefel uchaf a gofnodwyd erioed); gyda deilliannau llwyddiannus yn deillio o 71.3% i 72.8%, o gymharu â 2014-15.

Cynyddodd yr erlyniadau troseddau rhywiol cam-drin plant[126] a gwblhawyd yn 2015-16 (o 5,387 i 6,217) – cynnydd mewn niferoedd o 830 (15.4%). Cynyddodd y deilliannau llwyddiannus o 3,975 i 4,643, y nifer uchaf erioed eto a chynnydd o 668 (16.8%), ynghyd â chynnydd yn y gyfradd gollfarnu o 73.8% i 74.7% yn 2015-16, mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.

Llumanwyd 1,808 (29.1%) o erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol fel cam-drin plant a threisio. O'r erlyniadau hyn, cafwyd collfarnau mewn 1,213 o achosion – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed sy'n cynrychioli cyfradd gollfarnu o 67.1%. O'r erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol pan na ddefnyddiwyd y lluman treisio, (4,409 neu 70.9%), cafwyd collfarnau mewn 3,430 o achosion – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed sy'n cynrychioli cyfradd gollfarnu o 77.8%.

Mae Tablau 8a-8d yn rhoi mwy o fanylion.

---

[123] Cytunwyd ar ddiffiniad y CPS o "gam-drin plant" ym Mawrth 2010 – gweler yr eirfa.
[124] Gweler yr eirfa am ddiffiniadau.
[125] Dylid bod yn ofalus gyda chanrannau pan fydd nifer yr achosion mor isel
[126] Mae gwybodaeth ar gael o'r System Rheoli Achosion [CMS] i ddangos y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd, wedi eu llumanu fel cam-drin plant, a'r rhai pan ddosbarthwyd y brif drosedd fel trosedd rywiol.

### Tabl 8a: Erlyniadau cam-drin plant - Lladdiad

| | 2009 – 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 33 | 82.5% | 24 | 88.9% | 15 | 88.2% | 22 | 73.3% | 32 | 91.4% | 10 | 58.8% | 31 | 75.6% |
| Aflwyddiannus | 7 | 17.5% | 3 | 11.1% | 2 | 11.8% | 8 | 26.7% | 3 | 8.6% | 7 | 41.2% | 10 | 24.4% |
| **Cyfanswm** | **40** | | **27** | | **17** | | **30** | | **35** | | **17** | | **41** | |

### Tabl 8b: Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau yn erbyn yr unigolyn

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 1,896 | 72.4% | 2,186 | 74.0% | 1,835 | 71.4% | 1,642 | 74.0% | 1,725 | 72.4% | 2,277 | 71.3% | 2,606 | 72.8% |
| Aflwyddiannus | 723 | 27.6% | 767 | 26.0% | 734 | 28.6% | 578 | 26.0% | 658 | 27.6% | 915 | 28.7% | 976 | 27.2% |
| **Cyfanswm** | **2,619** | | **2,953** | | **2,569** | | **2,220** | | **2,383** | | **3,192** | | **3,582** | |

### Tabl 8c: Erlyniadau cam-drin plant – Troseddau Rhywiol

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 3,133 | 75.7% | 3,551 | 74.1% | 3,530 | 75.8% | 3,070 | 75.8% | 3,344 | 76.5% | 3,975 | 73.8% | 4,643 | 74.7% |
| Aflwyddiannus | 1,004 | 24.3% | 1,243 | 25.9% | 1,125 | 24.2% | 981 | 24.2% | 1,027 | 23.5% | 1,412 | 26.2% | 1,574 | 25.3% |
| **Cyfanswm** | **4,137** | | **4,794** | | **4,655** | | **4,051** | | **4,371** | | **5,387** | | **6,217** | |

### Tabl 8d: Erlyniadau cam-drin plant – Cyfanswm cam-drin plant

| | 2009 - 10 | | 2010 - 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 6,043 | 74.8% | 6,855 | 74.2% | 6,444 | 75.1% | 5,755 | 76.1% | 6,096 | 76.2% | 7,469 | 74.4% | 8,439 | 75.8% |
| Aflwyddiannus | 2,036 | 25.2% | 2,380 | 25.8% | 2,137 | 24.9% | 1,803 | 23.9% | 1,902 | 23.8% | 2,576 | 25.6% | 2,691 | 24.2% |
| **Cyfanswm** | **8,079** | | **9,235** | | **8,581** | | **7,558** | | **7,998** | | **10,045** | | **11,130** | |

Roedd y diffynnydd yn wrywaidd mewn:

- 58.5% o erlyniadau lladdiad (24 allan o 41) – cofnodwyd rhyw'r holl ddiffynyddion;
- 74.6% o'r troseddau yn erbyn yr unigolyn (2,667 allan o 3,576 o ddiffynyddion pan gofnodwyd rhyw – 99.8% wedi eu cofnodi); a
- 98.3% o'r troseddau rhywiol (6,100 allan o 6,206 o ddiffynyddion pan gofnodwyd rhyw – 99.8% wedi eu cofnodi).

Dangosodd data troseddwyr[127], o'r System Rheoli Tystion bod 12,701 o ddioddefwyr cam-drin plant wedi eu cofnodi – 7,232 yn fenywaidd a 2,537 yn wrywaidd (ni chofnodwyd rhyw 2,932 o ddioddefwyr). Nid yw cofnodi rhyw dioddefwyr, ar (76.9%), yn ddigon cadarn i gynnwys cyfrannau rhyw yn yr adroddiad hwn.

Cofnodir adroddiadau diweddar am gam-drin plant yn rhywiol a ddigwyddodd yn y gorffennol, pan oedd y dioddefwr dan 18 mlwydd oed, fel cam-drin rhywiol ar blant, beth bynnag fo oedran y dioddefwr ar yr adeg pan wnaed yr adroddiad.

## Gweithredu traws-lywodraethol

Mae gwaith y CPS ar gam-drin plant yn rhywiol yn rhan o ymdrech ehangach ar draws y Llywodraeth i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant a phobl fregus. Roedd *Tackling Child Sexual Exploitation,* a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015, yn nodi rhaglen uchelgeisiol o waith i ymdrin â'r methiannau a welwyd yn Rotherham ar raddfa genedlaethol. Mae gan y gwaith ehangach dair nod strategol i leihau amlygrwydd cam-drin plant yn rhywiol a cham-fanteisio: ymdrin â throseddu; lleihau pa mor fregus yw pobl a lleihau niwed pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl trwy gefnogi dioddefwyr a goroeswyr.

Mae'r CPS yn aelod o Grŵp Cyfarwyddwyr CSA, a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Mawrth 2015 i greu strategaeth traws-lywodraethol system gyfan. Mae'r adrannau sy'n cyfrannu yn cynnwys y MOJ, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r CPS yn ymwneud â'r Gweithgor Ymchwilio Cenedlaethol i Blismona Diogelu Plant a'u Cam-drin, sy'n canolbwyntio ar gam-fanteisio yn rhywiol ar blant (gan gynnwys gwaith Cam-fanteisio yn Rhywiol ar Blant a'r Ganolfan Ddiogelu Ar-lein), Ymgyrch HYDRANT[128] a hyfforddiant y Coleg Plismona.

Bydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ymchwilio a yw cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth wedi cymryd eu dyletswydd gofal i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol yng Nghymru a Lloegr o ddifrif. Dynodwyd y CPS yn 'gyfranogwr craidd' yn y pedair llinell ymchwilio gyntaf: Yr Arglwydd Janner; Yr Eglwys Anglicanaidd, Cyngor Sir Lambeth a Cambridge House/ Knowl View/Rochdale. Mae'r cyfranogwyr craidd yn unigolion, sefydliadau neu fudiadau sydd â diddordeb arwyddocaol yng ngwaith yr Ymchwiliad. Mae eu rôl yn cael ei chyfyngu i'r ymchwiliad penodol gan yr Ymchwiliad y maent wedi cael statws cyfranogwr craidd ar ei gyfer, yn hytrach na'r Ymchwiliad cyfan.

## Gwaith partneriaeth

Mae'r CPS yn gweithio'n glos gyda'r Heddlu ac asiantaethau partner, gan gynnwys y sector gwirfoddol ar nifer o gynlluniau i helpu i gyflawni erlyniadau CSA mwy llwyddiannus ac i wella'r gwasanaeth y mae dioddefwyr yn yr achosion hyn yn ei dderbyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y cynllun treialu a.28 a amlinellir yn yr adran Troseddau Rhywiol o'r adroddiad dan 'Cynllun Treialu Croesholi Wedi ei Recordio Ymlaen Llaw' sydd ar y gweill mewn nifer o lysoedd ar

[127] Dim ond ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn gyffredinol y mae rhyw'r dioddefwyr ar gael ac nid yw'n cael ei dorri i lawr i laddiad, troseddau yn erbyn yr unigolyn a cham-drin rhywiol.

[128] Sefydlwyd 'Operation Hydrant' gan yr heddlu ym Mehefin 2014. Mae'n gynllun trosfwaol i ddynodi a monitro achosion CSA sy'n parhau yn ymwneud â honiadau hanesyddol o gam-drin plant mewn sefydliadau pan gredir bod y troseddwyr yn swyddogion etholedig, sêr y cyfryngau, pobl amlwg yn gyhoeddus ac unrhyw un sydd â chysylltiad clos â nhw.

draws y wlad, lle mae plant a phobl ifanc dan 16 oed yn gallu recordio eu croesholi ar fideo cyn yr achos llys.

- Y 'Cynllun Tystion Ifanc' sy'n cynnwys protocol a lofnodwyd rhwng y CPS, yr heddlu a HMCTS i sicrhau bod achosion yn y llysoedd sy'n cynnwys tyst sydd dan 10 oed yn cael eu symud ymlaen mor gyflym â phosibl. Yn yr achosion yma gosodir dyddiad yr achos cyn pen 8 wythnos o gofnodi ple yn Llys y Goron. Bydd effaith protocol 2015 rhwng y CPS, yr heddlu a HMCTS yn cael ei adolygu yn 2016.

- Yn dilyn argymhelliad y Fonesig Elish Angiolini yn ei hadroddiad yn 2015 – *Adolygiad Annibynnol o Dreisio yn Llundain,* mae'r CPS ar hyn o bryd yn adolygu ei gyfarwyddyd yn ymwneud â Darparu Therapi i Dystion sy'n Blant mewn Achos Troseddol, i sicrhau ei fod yn gyfredol ac i atgyfnerthu'r neges bod anghenion y plentyn yn holl bwysig wrth ystyried mynediad at therapi, cyn ac ar ôl y treial.

- Roedd y CPS yn ymwneud â'r cais gyda chefnogaeth Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (MOPAC) i dreialu dau 'Dŷ Plant' yn Llundain o 2017. Mae'r model Tŷ Plant, a ddatblygwyd yn wreiddiol yng Ngwlad yr Iâ, yn rhoi dioddefwyr ifanc cam-drin plant yn rhywiol mewn amgylchedd diogel a chefnogol ac yn dwyn y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen atynt. Bydd y cyfweliad a recordir ar fideo a'r croesholi yn cael eu cynnal yn y Tŷ Plant. Mae'r CPS yn gweithio gyda phartneriaid yn y system gyfiawnder troseddol i archwilio sut y gall y model gael ei gwneud yn fwy addas i system gyfiawnder troseddol Cymru a Lloegr, gan gysylltu â'r cynllun a.28.

- Mae'r CPS yn aelod o'r Grŵp Swyddogion ar gyfer Cam 2 o Ymchwiliad y Comisiynydd Plant i CSA yn yr Amgylchedd Teuluol (roedd Cam I yn canolbwyntio ar amlygrwydd ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015; mae Cam II yn canolbwyntio ar unrhyw newid arfaethedig mewn arfer sefydliadol).

- Mae'r CPS wedi gweithio gyda'r heddlu a'r uwch farnwriaeth i ddatblygu proses liflin i erlyn Delweddau Anweddus o Blant (IIOC). Cyhoeddwyd cyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2016. Rhoddir manylion IIOC yn yr adran o'r adroddiad am bornograffi ac anweddustra.

### Cam-drin gan droseddwr mewn sefyllfa lle'r oedd ymddiriedaeth ynddynt

Cyfaddefodd meddyg i 25 trosedd, gan gynnwys ymosodiad rhywiol, voyeuriaeth a meddu mwy na 16,000 o ddelweddau anweddus. Roedd gan rai o'i ddioddefwyr haemoffilia, lewcemia ac afiechydon difrifol eraill. Cyfaddefodd iddo gam-drin 18 o fechgyn dan ei ofal mewn ysbyty, rhwng 2009 a 2014. Fe'i dedfrydwyd i 16 mlynedd, fe'i rhoddwyd ar y gofrestr troseddwyr rhyw am oes ac mae yn destun gorchymyn atal troseddau rhywiol am oes.

## Deddfwriaeth

Cefnogodd y CPS gyflwyno deddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd a bu mewn cysylltiad cyson â'r NSPCC cyn i'r drosedd gael ei chyflwyno fel diwygiad i'r Mesur Troseddau Difrifol. Derbyniodd y drosedd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad

Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

Bydd cyfarwyddyd wedi ei adnewyddu ar Gam-drin Plant (heb fod yn rhywiol) yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2016-17 i adlewyrchu newidiadau cyfreithiol yn ystod 2014-16 a chyfraith achos.

## Panel Cenedlaethol Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol

Cynllun ar y cyd yw'r Panel Cenedlaethol Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol[129] rhwng yr Heddlu a'r CPS a sefydlwyd ym Mehefin 2013. Mae ymchwilio ac erlyn CSA wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Cydnabyddir yng Nghanllawiau'r Panel Cenedlaethol Adolygu CSA y gall yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ddefnyddio dull gwahanol yn awr, mewn cymhariaeth â'r modd y gallai'r honiad o gam-drin fod wedi cael ei drin i gychwyn. Dan yr amgylchiadau yma, mae'r panel yn ystyried a ddylai'r heddlu ail-ymchwilio i honiad, neu a ddylai'r penderfyniad erlyn gael ei adolygu gan y CPS, a fydd yn rhoi cyngor i'r llu Heddlu perthnasol neu'r Ardal CPS.

Rhwng creu'r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol ym Mehefin 2013 a'r 31 Mawrth 2014, derbyniodd ysgrifenyddiaeth y panel 70 o atgyfeiriadau.
Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, derbyniwyd 22 o atgyfeiriadau pellach. Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, derbyniwyd 58 o atgyfeiriadau pellach.

## Rhwydwaith Cam-drin Plant yn Rhywiol

Rhwydwaith o arbenigwyr cam-drin plant yn rhywiol, a sefydlwyd ym mhob un o Ardaloedd y CPS yn 2013, sy'n gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd, cyfarwyddyd ac arfer da i gydweithwyr yn lleol a chenedlaethol wrth ddelio ag achosion cam-drin plant yn rhywiol. Trafododd y rhwydwaith broblemau a rhannu arfer gorau. Bydd aelodaeth y rhwydwaith yn cael ei adnewyddu yn ystod 2016.

### Gwastrodi

Collfarnwyd tri o ddynion am droseddau rhywiol yn erbyn pump o ferched yn eu harddegau rhwng 14 ac 17 oed mewn man prynu bwyd i fynd allan a gwesty gerllaw.

Roedd y dioddefwyr wedi cael eu haflonyddu yn rhywiol a'u gwastrodi gan y tri dyn yn y man prynu bwyd. Aed â nhw i'r gwesty gerllaw lle cawsant alcohol, canabis, sigarennau ac arian cyn cael eu cam-drin yn rhywiol. Roedd y dynion yn cymryd arnynt eu bod yn ffotograffwyr proffesiynol ac yn addo y byddent yn gwneud y merched yn fodelau petaent yn ymddangos mewn ffotograffau anweddus. Yna roeddent wedi gwneud iddynt ddioddef ymosodiadau rhywiol difrifol a maith tra roeddent yn tynnu eu lluniau ac yn eu ffilmio.
Fe'u carcharwyd am gyfanswm o dros 23 mlynedd.

[129] Mae'r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol yn edrych eto ar achosion pan fydd rhywun yn pryderu eu bod wedi gwneud cyhuddiad blaenorol o fod yn ddioddefwr cam-drin rhywiol, pan oeddynt dan 18 oed, ac i'r heddlu neu'r CPS benderfynu na ddylid gweithredu ar y pryd, ond nad yw'r unigolyn yn fodlon bod y cyhuddiadau gwreiddiol wedi cael eu trin yn briodol.

## Panel Eiriolwyr Treisio a Cham-drin Plant

Mae'r holl achosion cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu trin gan dimau arbenigol yn yr unedau RASSO. Dim ond eiriolwyr arbenigol mewnol neu gynghorwyr sydd wedi cael eu dewis i ymuno â'r Panel Treisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol, sy'n cael cyfarwyddyd i ymddangos yn y llys ar ran y CPS yn yr achosion hyn.

Adnewyddwyd aelodaeth o'r panel Treisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol yn ystod 2016, fel yr amlinellir yn adran Treisio'r adroddiad hwn.

### Cam-drin gan ofalwyr

- Collfarnwyd gofalwr am droseddau yn erbyn pump o blant, y cyfan dan 13 oed a ddigwyddodd rhwng 2011 a 2015. Fe'i dedfrydwyd i gyfanswm o 10 mlynedd o garchar gyda thrwydded estynedig o 5 mlynedd am ddwy drosedd treisio, 13 o ymosodiadau rhywiol ar blentyn dan 13 oed, a 24 trosedd yn ymwneud â delweddau anweddus o blant.

- Collfarnwyd gofalwr maeth am nifer fawr o droseddau rhywiol hanesyddol yn ymwneud â phlant. O ystyried difrifoldeb y troseddau, ni roddodd y barnwr lawer o bwys ar ei gymeriad da cyn hynny wrth ddedfrydu. Derbyniodd ddedfrydau cydamserol am droseddau yn gysylltiedig â dioddefwr unigol; yna gwnaed y dedfrydau ar gyfer pob dioddefwr yn rhai olynol. Dedfrydodd y barnwr ef i 22 mlynedd o garchar i gyd.

## Gangiau

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei dull newydd o ymdrin â gangiau yn Ionawr 2016 – mae *Ending Gang Violence and Exploitation* yn canolbwyntio ar leihau trais ac atal cam-fanteisio ar bobl fregus gan gangiau. Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer 2015-16 a thu hwnt, gan gynnwys cynlluniau i ddiogelu menywod a merched sy'n gysylltiedig â gangiau.

Mae'r dull newydd yn nodi'n glir bwysigrwydd sicrhau bod gan asiantaethau fynediad at wybodaeth berthnasol ac offer i helpu merched a menywod ifanc bregus, boed y rheiny yn dioddef camdriniaeth neu i'w helpu i adael y gangiau. Mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ferched a menywod ifanc gael eu hadnabod a'u bod yn cael help ac ymyrraeth addas.

Wrth gydnabod y pwyslais newydd ar fenywod a merched yn gysylltiedig â gangiau, mae'r CPS wedi creu adran ar foth gwybodaeth y CPS sy'n codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn ac mae wedi cynnwys modwl ar gam-fanteisio rhywiol a thrais yn gysylltiedig â gangiau, yn y cwrs atgoffa treisio i erlynyddion arbenigol treisio i'w chyflwyno yn 2016.

## Gweithio mewn partneriaeth yn lleol

- Yn CPS Cymru, roedd Ymgyrch Lenten yn canolbwyntio ar achosion Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE) gyda merched ifanc bregus o'r gymuned deithiol. Bu Dirprwy Brif Erlynydd y Goron mewn gweithdy i ymdrin ag achosion CSE ar draws Cymru.

- Yn CPS Tafwys a Chiltern, ystyriodd yr LSIP ddull y CPS o ymdrin â throseddau stelcio ac aflonyddu ac ymosodiad rhywiol ar blentyn.

- Mae CPS Llundain yn rhan o grŵp llywio amlasiantaethol sy'n gweithio ar 'Dŷ Plant' penodedig.

- Mae CPS Surrey yn gweithredu argymhellion yr adroddiad HMIC i wella'r ymdriniaeth o ymchwiliadau cam-drin plant.

- Bu Cynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr a CPS Swydd Efrog a Glannau Humber mewn digwyddiad lleol 'Allan o'r tywyllwch' a drefnwyd gan y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr mewn achos CSE ar raddfa fawr. Cynhaliwyd digwyddiad 'gwersi a ddysgwyd' amlasiantaethol ym mis Gorffennaf 2016. Mae Swydd Efrog a Glannau Humber yn rhan o nifer o achosion CSE ar raddfa fawr.

# Masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern

Ers Ebrill 2010, mae'r CPS wedi llumanu a monitro pob achos o fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth[130]. Cynyddodd y nifer o atgyfeiriadau masnachu mewn pobl gan yr heddlu o 234 yn 2014-15 i 246 yn 2015-16; y nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Cyhuddwyd 189 (76.8%) o'r atgyfeiriadau hyn; gostyngiad o'r flwyddyn flaenorol pan gyhuddwyd 195 (83.3%) o'r atgyfeiriadau.

Cyrhaeddodd erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn 2015-16 y nifer o 295 – cynnydd o 108 (57.8%) ers 2014-15 a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Yn yr achosion hyn gellir cael nifer fawr o ddiffynyddion i bob achos a gall hyn amrywio, yn ôl yr achos, yn flynyddol.

O'r 295 diffynnydd a erlynwyd, roedd 229 diffynnydd yn wrywaidd a 64 diffynnydd yn fenywaidd ac ni chofnodwyd rhyw dau ddiffynnydd. Yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, cofnodwyd rhyw 99% o'r diffynyddion. Pan gofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 78.2% yn wrywaidd a 21.8% yn fenywaidd, cynnydd yn y diffynyddion benywaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 29 yn 2013-14 i 64 yn 2015-16. Roedd y mwyafrif o ddiffynyddion (79.3%) yn 25-59 oed.

O ran y data a dynnwyd o'r System Reoli Tystion, cofnodwyd 218 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 106 yn fenywaidd, 69 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 43 o ddioddefwyr. Mae'r cofnodi ar ryw'r dioddefwyr ar 80% yn ddigon cadarn i gynnwys cyfraddau rhyw yn yr adroddiad hwn. Pan gofnodwyd rhyw'r dioddefwr, roedd 60.6% yn fenywaidd a 39.4% yn wrywaidd. Rhoddir data o'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol isod i ychwanegu rhagor o wybodaeth am batrymau rhyw dioddefwyr posibl.

Roedd cynnydd yn nifer y deilliannau masnachu mewn pobl llwyddiannus o 130 yn 2014-15 i 192 yn 2015-16, y nifer uchaf a gofnodwyd erioed (er bod gostyngiad yn y gyfran gollfarnu o 69.5% i 65.1% dros yr un cyfnod). Yn 2015-16, arweiniodd 45.8% (135) o erlyniadau at gollfarn; mae hyn yn cymharu â 48.7% (91) yn y flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiad bach yn y cyfrannau. Cynyddodd y nifer o gollfarnau a sicrhawyd ar ôl achos llys, o 39 yn 2014-15 i 57 yn 2015-16, (19.3%), allan o'r holl erlyniadau masnachu mewn pobl, a 62.0% o'r holl erlyniadau masnachu mewn pobl y dadleuwyd yn eu herbyn yn y llys (ac eithrio pleon cymysg[131]).

[130] Ni chedwir data troseddau yn ôl diffynnydd na chanlyniad; felly sefydlwyd lluman i ddarparu data deilliant yn ôl diffynnydd. Mae'r troseddau a lumanwyd yn a. 57, 58, 59 a 59A Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ac a.4(1), (2) a (3) Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004; a.71 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; a.1 a 2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac unrhyw gynllwyn i gyflawni unrhyw un o'r troseddau hynny. Gosodir y lluman ar gychwyn yr achos; bydd y lluman hwn yn aros yn ei le hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei lumanu ar y cam hwnnw. Felly mae angen ystyried ansawdd a chywirdeb y data yn ofalus. O Ionawr 2013, roedd cywirdeb llumanu yn cael ei wirio'n chwarterol.

[131] 'Ac eithrio gyda phleon cymysg' yw achosion diffynyddion pan roddir ple 'ddieuog' i bob cyhuddiad ac mae achos llys yn dilyn hynny.

Roedd 63 achos (21.4%) yn aflwyddiannus oherwydd bod yr erlyniad wedi ei ollwng; mae hyn yn cymharu â 42 achos (22.5%) yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd yn nifer a chyfran yr achosion a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr (yn cynnwys dioddefwr yn tynnu yn ôl, dioddefwr ddim yn dod i'r llys neu pan nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos) o 11 (19.3%) yn 2014-15 i 32 (31.1%) yn 2015-16. Oherwydd bod y niferoedd yn fychan, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn.

## Tabl 9: Erlyniadau masnachu mewn pobl a gwblhawyd yn ôl deilliant

| | 2010 – 11 | | 2011 - 12 | | 2012 - 13 | | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Collfarnau | 73 | 70.9% | 94 | 66.2% | 99 | 71.2% | 155 | 68.6% | 130 | 69.5% | 192 | 65.1% |
| Aflwyddiannus | 30 | 29.1% | 48 | 33.8% | 40 | 28.8% | 71 | 31.4% | 57 | 30.5% | 103 | 34.9% |
| **Cyfanswm** | **103** | | **142** | | **139** | | **226** | | **187** | | **295** | |

Mae Tabl 10 isod yn amlinellu troseddau masnachu mewn pobl[132], y cychwynnwyd erlyniadau ynddynt, rhwng 2010-11 a 2015-16. Gwelwyd cynnydd yn yr holl droseddau. Gan mai dim ond ar 31 Gorffennaf 2015 y daeth y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern i rym, dim ond yn 2015-16 y mae achosion wedi eu cofnodi.

Roedd cyfanswm o 49 trosedd o gam-fanteisio ar weithwyr dan a.71 Deddf Crwner a Chyfiawnder 2009 ac a.1 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Roedd cyfanswm o 248 o droseddau am fasnachu i gam-fanteisio yn rhywiol, a.57, 58, 59, 59a; Deddf Troseddau Rhywiol 2003, cynnydd o 85 yn y flwyddyn flaenorol. Ond fe fydd troseddau eraill yn gysylltiedig â cham-fanteisio ar weithwyr neu gam-fanteisio rhywiol wedi eu herlyn dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2004 (a.4 Triniaeth Hawlwyr, ac ati) – cofnodwyd 68 o droseddau – ac a.2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – cofnodwyd pum trosedd.

Gall troseddwyr gael eu herlyn a'u collfarnu hefyd am droseddau difrifol ar wahân i fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, pan fydd cysylltiadau gyda masnachu yn cynnwys, er enghraifft, cynllwyn i fasnachu, carcharu ar gam, rheoli puteindra ar gyfer enillion a threisio. Gall troseddau eraill roi darlun mwy cywir o'r gwir droseddu a bod â chosbau mwy difrifol.

[132] Nid yw'r tabl yn cynnwys cynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau.

## Tabl 10: Troseddau masnachu mewn pobl

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr ac ati) 2004 { 4 } Masnachu mewn pobl i weithio neu gam-fanteisio arall | 21 | 37 | 26 | 32 | 60 | 68 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 { 71 } Cadw rhywun arall mewn caethiwed neu gaethwasanaeth neu fynnu eu bod yn gweithio dan orfodaeth | 0 | 15 | 20 | 18 | 31 | 40 |
| Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 { 1 } Caethwasiaeth, caethwasanaeth a gwaith trwy orfodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 { 2 } Masnachu mewn pobl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 57 } Masnachu i'r Deyrnas Unedig i gam-fanteisio'n rhywiol | 41 | 45 | 24 | 26 | 41 | 70 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 58 } Masnachu o fewn y Deyrnas Unedig i gam-fanteisio'n rhywiol | 55 | 61 | 16 | 94 | 31 | 72 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 59 } Masnachu o'r Deyrnas Unedig i gam-fanteisio'n rhywiol | 0 | 7 | 3 | 8 | 0 | 9 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {59A} Masnachu i'r Deyrnas Unedig, allan ohoni ac o'i mewn i gam-fanteisio'n rhywiol[133] | 0 | 0 | 0 | 12 | 13 | 97 |
| **CYFANSWM TROSEDDAU MASNACHU MEWN POBL** | **117** | **165** | **89** | **190** | **176** | **370** |

O ran tueddiadau wrth fasnachu, mae gan y CPS fynediad hefyd at ddata asesu'r Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), yn seiliedig ar ddioddefwyr posibl[134] a atgyfeiriwyd atynt. Mae'r data ar gael trwy wefan yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol.

Mae'r data hwn hefyd yn caniatáu i ryw'r dioddefwyr posibl gael ei archwilio.

Derbyniodd yr NRM yng Nghymru a Lloegr ychydig mwy o atgyfeiriadau achosion yn 2015[135] gyda 1,648 o ddioddefwyr benywaidd mewn cymhariaeth â 1,416 o ddioddefwyr gwrywaidd. Mae'r data yn dynodi gwahaniaethau o ran rhyw a thueddiadau dan wahanol fathau o gam-fanteisio honedig trwy fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern:

- Cam-fanteisio rhywiol neu gaethwasanaeth domestig: 88% yn ddioddefwyr posibl benywaidd, 12% yn ddioddefwyr gwrywaidd posibl[136].
- Cam-fanteisio o ran gwaith: 86% yn ddioddefwyr posibl gwrywaidd, 14% yn ddioddefwyr posibl benywaidd[137].

[133] Cymerodd a.59A Deddf Troseddau Rhywiol 2003 le a.57,58,59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn 2013-14.
[134] Mae Data NRM yn cyfeirio at ddioddefwyr posibl, nid pobl sydd wedi cael penderfyniad bod sail gadarn eu bod yn un o ddioddefwyr masnachu.
[135] Mae hyn yn dilyn ymchwiliadau rhagweithiol yng nghyswllt masnachu ar gyfer cam-fanteisio o ran gwaith.
[136] O'r 1,430 o ddioddefwyr posibl benywaidd – h.y. 1,648 ac eithrio cynaeafu organau (1) a cham-fanteisio anhysbys (217)
[137] O'r 1,083 o ddioddefwyr posibl gwrywaidd – h.y. 1,416 ac eithrio cynaeafu organau (4) a cham-fanteisio anhysbys (329)

- O 2014 i 2015, cynyddodd cam-fanteisio ar waith dynion a bechgyn o 554 i 931 o ddioddefwyr posibl (cynnydd o 68.1%).
- O 2014 i 2015, cynyddodd cam-fanteisio rhywiol ar fenywod a merched o 753 i 946 o ddioddefwyr posibl (cynnydd o 25.6%); cynyddodd caethwasanaeth domestig menywod a merched o 237 i 314 o ddioddefwyr posibl (cynnydd o 32.5%)[138].

## Deddfwriaeth

Cyflwynodd y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern bwerau newydd i helpu'r heddlu i atal neu wahardd diffynyddion a gollfarnwyd rhag cynnal gweithgareddau a fyddai yn eu galluogi i gyflawni troseddau masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth a gweithio dan orfodaeth. Gelwir y gorchmynion newydd yma yn Orchmynion Atal Caethwasiaeth a Masnachu Mewn Pobl (STPO) a Gorchmynion Risg (STRO). Gorchmynion sifil yw'r rhain sy'n galluogi i'r llys osod cyfyngiadau a gofynion positif ar y rhai a gollfarnwyd am drosedd berthnasol, neu sydd mewn perygl o gyflawni un.

Mae'r CPS wedi drafftio a chynghori ar nifer o orchmynion a ganiatawyd ers diwedd Gorffennaf 2015. Er mwyn rhoi gorchymyn rhaid i'r llys fod yn fodlon bod risg y gall y diffynnydd gyflawni troseddau eraill a'i fod yn angenrheidiol i ddiogelu eraill rhag niwed. Mae STPO yn effeithiol pan fydd y diffynnydd wedi cwblhau ei ddedfryd a gall barhau am hyd at bum mlynedd; mae STRO yn dod i rym ar unwaith. Mae torri Gorchymyn yn drosedd y dylid ei chosbi gyda hyd at bum mlynedd o garchar.

### Masnachu rhywiol

Roedd y diffynnydd yn gyfrifol am drefnu ac ariannu'r trefniadau teithio ar gyfer rhai oedd yn ymwneud â phuteindra i deithio i'r Deyrnas Unedig o Wlad Pwyl. Roedd yn rhedeg saith puteindy ar draws Lloegr ac yn defnyddio gwefan ar-lein i oedolion i hysbysebu gwasanaethau'r menywod. Yn ychwanegol at ei ddedfryd o garchar, rhoddodd y barnwr y Gorchymyn Diogelu Caethwasiaeth a Masnachu mewn Pobl cyntaf yn erbyn y diffynnydd. Roedd y darpariaethau yn y Gorchymyn yn cyfyngu ar hawl y diffynnydd i deithio, yn ei atal rhag trefnu trafnidiaeth a llety i unrhyw un, yn ei atal rhag meddu dogfennau adnabod yn berchen i eraill, yn ei atal rhag cysylltu ag unrhyw un o'r 16 o ddioddefwyr a enwyd, yn ei gyfyngu i fod â dim ond un ffôn symudol, yn ei wahardd rhag preswylio gydag unrhyw un yn gysylltiedig â'r diwydiant rhyw na theithio gyda nhw mewn car, yn ei atal rhag gweithredu cyfrifon ar safleoedd i oedolion ar y rhyngrwyd ac yn cynnwys gofyn i roi ei enw a'i gyfeiriad i'r heddlu pryd bynnag y byddai'n preswylio yn y Deyrnas Unedig.

[138] Sylwer bod cynnydd mwy yn y % o ddioddefwyr gwrywaidd posibl o ran cam-fanteisio o ran gwaith yn 2015 (ers y flwyddyn flaenorol) na dioddefwyr benywaidd posibl cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig – ond roedd y niferoedd cyffredinol yn is (931 o ddioddefwyr gwrywaidd posibl o ran cam-fanteisio ar waith a 1260 o ddioddefwyr cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig benywaidd posibl).

## Cyfarwyddyd a hyfforddiant cyfreithiol

Ers i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2015, mae'r CPS wedi bod yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gyflwyno hyfforddiant a chyflwyniadau i'r heddlu a Chymdeithas y Gyfraith a rhoi cyfarwyddyd a hyfforddiant i erlynyddion ar effeithiau'r darpariaethau newydd (cyflwynwyd 12 o sesiynau hyfforddi plismona rhanbarthol). Mae hyn wedi cynnwys pwysleisio ar wahanol strategaethau erlyn a phwysigrwydd ymchwilio ariannol, ymchwilio ar lefel uwch a mwy o gyd-weithio gyda phartneriaid yn yr UE. Roedd hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd a'r amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael.

Paratowyd a hyrwyddwyd cyfarwyddyd ar yr amddiffyniad statudol i rai dan amheuaeth a all fod yn ddioddefwyr a sut y mae'n plethu gyda chyfarwyddyd y CPS. Mae cyflwyniadau i Gymdeithas y Gyfraith a'r Bar wedi canolbwyntio ar yr angen i fod yn ymwybodol y gall rhai dan amheuaeth fod yn ddioddefwyr posibl masnachu mewn pobl a'r camau y dylai eiriolwyr eu cymryd. Mae'r CPS hefyd wedi cyflwyno cyflwyniad ar y darpariaethau newydd yn y Gynhadledd Hawliau Dynol Ryngwladol.

### Arfer da lleol:

- Mae Is-grŵp Hyfforddi Grŵp Arwain Gwrth-gaethwasiaeth Cymru wedi sefydlu rhaglen hyfforddi ar draws Cymru gyda'r nod o ddatblygu sgiliau a hyder i roi adroddiadau am gaethwasiaeth ac ymdrin ag o. Mae'r cyrsiau hyfforddi yma yn cael eu cyflwyno i Awdurdodau Lleol, yr Heddlu ac Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith eraill, staff Iechyd, Addysg, Prifysgolion, Meysydd Awyr a Phorthladdoedd, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

- Erlynodd CPS Mersi a Swydd Gaer achos caethwasiaeth fodern amlwg yn cynnwys puteindra. Defnyddiwyd tystiolaeth ariannol a ffôn i brofi'r cyhuddiadau, heb yr angen i alw'r achwynwyr. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Atal Caethwasiaeth a Masnachu Mewn Pobl cyntaf yn yr achos hwn i atal rhagor o droseddu wedi ei ryddhau o'r carchar (gweler yr astudiaeth achos isod).

## Gwaih ar draws y Deyrnas Unedig

Mae'r CPS yn gweithio'n glos gydag awdurdodau erlyn eraill yn y Deyrnas Unedig (Gogledd Iwerddon a'r Alban) a gyda Gweriniaeth Iwerddon i roi ymateb mwy cydlyn a chadarn yn y Deyrnas Unedig i fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth. Mae'r gwaith a wnaed wedi cynnwys cyfnewid profiadau o ddeddfwriaeth newydd a chynlluniau newydd.

Cadeiriodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Gynhadledd ar Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern yn Chwefror 2016. Roedd Arglwydd Eiriolwr yr Alban yno a Chyfarwyddwyr Erlyniadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon a'u penaethiaid plismona. Daeth 40 o wahoddedigion i'r digwyddiad gan gynnwys sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth, seneddwyr a swyddogion gorfodi'r gyfraith. Yn y digwyddiad, trafodwyd y tueddiadau presennol o ran masnachu mewn pobl ynghyd â'r sialensiau a wynebir gan ymchwilwyr ac erlynyddion sy'n ymdrin â'r drosedd hon. Er mwyn helpu i adeiladu ar hyn a gwella'r cydweithio, mae'r penaethiaid gwasanaethau erlyn wedi cytuno ar gyfres o ymrwymiadau o ran y ffordd y bydd awdurdodau erlyn yn gweithio gyda'i gilydd i amharu ar rwydweithiau, erlyn masnachwyr a diogelu hawliau dioddefwyr.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen trwy gyfarfodydd cyson a chyswllt gyda swyddogion ar draws awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig.

## Gwaith rhyngwladol

Mae rhwydwaith rhyngwladol y CPS yn cynyddu'r gallu yn llawer o'r gwledydd lle mae dioddefwyr masnachu mewn pobl yn cael eu recriwtio, trwy Adran Gyfiawnder a Throseddau Cyfundrefnol Rhyngwladol y CPS (IJOC). Mae IJOC yn gweithio gydag ymchwilwyr ac erlynyddion yn y gwledydd hynny i wella'r ffordd y maent yn ymchwilio ac erlyn; i amharu ar fasnachwyr mewn pobl ar y ddaear a chryfhau gweithrediad y gyfraith yn eu gwledydd. Fel rhan o ymateb y llywodraeth i droseddau mewnfudo cyfundrefnol (OIC), mae IJOC wedi defnyddio nifer o erlynyddion arbenigol dros 2015-16 i ymdrin ag OIC mewn gwledydd sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r IJOCD yn cefnogi ac yn annog erlynyddion ac ymchwilwyr i ymwneud ag Eurojust[139], i wneud y mwyaf o gydweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i amharu yn llwyddiannus ar fasnachwyr mewn pobl a sicrhau deilliannau cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr. Mae gwella'r adfer ar asedau trwy gynyddu gallu mewn gwledydd eraill hefyd yn cael ei gyflawni, trwy well cysylltiad rhwng Timau Adfer Asedau Rhanbarthol (RART) gydag ymchwilwyr masnachu mewn pobl, i wella ymchwilio ariannol.

### Llafur gorfodol

Dedfrydwyd perchennog ffatri oedd yn cyflogi nifer fawr o ddynion o Hwngari fel "gweithlu caeth" yn ei fusnes cynhyrchu gwelyau gwerth miliynau o bunnoedd i 27 mis o garchar am gynllwynio i fasnachu mewn pobl. Roedd y dynion yma yn fregus ac roedd arnynt eisiau gwaith yn ddifrifol; gwnaed addewid y byddent yn cael cyflogau da a llety. Ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig roeddent yn wynebu realiti gwahanol gan fyw mewn llety oedd yn cael ei rannu, yn fudr ac yn llawer rhy lawn. Byddent yn gweithio am hyd at 20 awr y dydd, bump i saith diwrnod yr wythnos, am ychydig neu ddim cyflog. Roedd yr arian yr oeddent yn ei ennill yn cael ei drosglwyddo i'r gang masnachu mewn pobl, oedd wedyn yn trosglwyddo symiau bychain iawn i'r dioddefwyr.

Yn Rhagfyr 2015 barnodd y barnwr nad oedd unrhyw achos i'r perchennog ffatri ei ateb. Dynododd nad oedd unrhyw dystiolaeth a allai brofi bod y diffynnydd yn rhan o'r cynllwyn i drefnu neu hwyluso taith unrhyw un o'r dioddefwyr; nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y diffynnydd yn rhan o'r cynllwyn; ac nid oedd ganddo ddigon o dystiolaeth o wybodaeth am gam-fanteisio ar y dioddefwyr. Apeliodd y CPS yn erbyn y penderfyniad hwn ac aeth yr achos i'r Llys Apêl. Canfu'r Llys o blaid y CPS ar y mater cyfreithiol a chytuno y byddai trosedd cynllwynio i fasnachu mewn pobl yn addas ar gyfer amgylchiadau'r achos.

[139] Asiantaeth dan yr UE yw Eurojust sy'n ymdrin â chydweithio barnwrol mewn materion troseddol.

# Puteindra

Yn 2015-16 cychwynnwyd 100 erlyniad am reoli puteindra o gymharu â 83 yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd am blagio ochr y stryd o 227 o droseddau yn 2014-15 i 153 yn 2015-16. Cynyddodd y troseddau cadw puteindy ychydig o 99 yn 2014-15 i 111 yn 2015-16. Arhosodd yr erlyniadau a gychwynnwyd am droseddau hysbysebu puteindra (trwy rannu cardiau mewn mannau cyhoeddus) yr un fath ar 37.

Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd am buteindra ar y stryd yn sylweddol o 456 yn 2014-15 i 163 yn 2015-16.

Nid yw data troseddau ar gael yn ôl rhyw'r diffynnydd na'r dioddefwr.

Mae Tabl 11 yn amlinellu data'r CPS a gasglwyd ar buteindra[140].

## Tabl 11: Erlyniadau Troseddau VAWG: troseddau puteindra, 2009-10 i 2015-16

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A Rheoli puteindra** | | | | | | | |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {52} | 11 | 24 | 19 | 11 | 9 | 25 | 13 |
| Deddf troseddau rhywiol (2003) {53} | 87 | 87 | 61 | 39 | 49 | 58 | 87 |
| **CYFANSWM** | **98** | **111** | **80** | **50** | **58** | **83** | **100** |

| B Cadw puteindai | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33} | 39 | 48 | 35 | 31 | 19 | 19 | 28 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {33A o Atodlen 2} | 70 | 106 | 92 | 54 | 31 | 72 | 75 |
| Deddf troseddau rhywiol 1956 {34} | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Deddf troseddau rhywiol {35(1)} | 2 | 3 | 3 | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Deddf troseddau rhywiol {36} | 3 | 0 | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 { 53A }[141] | 0 | 40 | 7 | 8 | 0 | 3 | 2 |

[140] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau pan gychwynnwyd erlyniad, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd, deilliant na data cydraddoldeb. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau System Gwybodaeth Reoli yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[141] Yn 2010 gwnaeth trosedd newydd a.53A Deddf Troseddau Rhywiol 2003 y rhai sy'n addo talu am wasanaethau rhywiol gan butain sy'n amodol i orfodaeth neu gam-fanteisio yn droseddwyr.

| CYFANSWM | 114 | 197 | 140 | 97 | 55 | 99 | 111 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| C Plagio pen stryd | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 375 | 161 | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf troseddau rhywiol 1985 {2(1)} | 23 | 38 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Deddf troseddau rhywiol 2003 {51A}[142] | 0 | 123 | 305 | 230 | 237 | 227 | 152 |
| **CYFANSWM** | **419** | **327** | **314** | **233** | **237** | **227** | **153** |

| D Hysbysebu puteindra | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 457 | 331 | 149 | 80 | 91 | 37 | 37 |

| E Puteindra Stryd | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Stryd 1959 {1} | 864 | 586 | 484 | 396 | 553 | 456 | 163 |

Polisi'r CPS yw canolbwyntio ar atal pobl rhag arwain neu orfodi pobl eraill at buteindra. Mae'n targedu'r rhai sy'n gwneud bywoliaeth o enillion y rhai sy'n gwerthu rhyw, trwy gyhuddo troseddau o achosi, cymell neu reoli puteindra er eu budd eu hunain, neu fasnachu mewn pobl i gam-fanteisio yn rhywiol arnynt, yn hytrach na phuteindra stryd. Yn ogystal â denu dedfrydau mwy sylweddol, mae'r troseddau hyn hefyd yn cynnig cyfle i atafaelu asedau trwy'r Ddeddf Elw o Droseddau a gweithredu Gorchmynion Atal Masnachu Mewn Pobl.

## Strategaeth Cymru

Mae CPS Cymru yn cymryd rhan yn y Grŵp Gwaith Rhyw Strategol a sefydlwyd yng Nghymru, gan weithio gydag academyddion, i ddatblygu strategaeth i ymdrin â phuteindra, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.

Ar gyfer y troseddau hynny sy'n ddiannod yn unig – loetran a llithio, plagio ochr y stryd, talu am wasanaethau rhywiol, cadw puteindy a hysbysebu puteindra – mae'r heddlu yn cadw'r hawl i beidio ag arestio na rhoi adroddiad i'r CPS am y rhai a amheuir o gyflawni trosedd; gall yr heddlu gyhuddo am y drosedd heb gyfeirio at erlynydd, heb ystyried a yw'r un dan amheuaeth yn bwriadu pledio yn euog neu yn ddieuog. Gall yr heddlu hefyd roi rhybudd syml i un dan amheuaeth, neu benderfynu na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Os bydd yr heddlu yn ystyried y gallai'r un dan amheuaeth fod yn addas i gael rhybudd amodol, gallant ei roi.

[142] O ran erlyniadau, cyflwynwyd trosedd newydd a.51A Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn 2010 i unigolyn ar y stryd neu mewn man cyhoeddus sy'n ceisio caffael gwasanaeth rhywiol fel putain gan rywun arall. Mae hyn yn cynnwys unigolyn mewn cerbyd modur yn y stryd neu mewn lle cyhoeddus, a chymerodd le troseddau plagio pen stryd a loetran cyson dan a.1 ac a.2 SOA 1985.

Am droseddau cadw puteindy, sydd yn ddiannod yn unig, pan fydd achosion yn cael eu hatgyfeirio at y CPS mae hawl i gyhuddo ac erlyn achosion pan fydd morynion yn cael eu cynnwys, gan ddibynnu ar eu rôl. Nid yw'n debygol o fod er budd y cyhoedd erlyn y rhai y mae eu rôl yn gyfyngedig i gynorthwyo i ofalu am y rhai sy'n cymryd rhan mewn puteindra. Bydd erlynyddion yn ystyried graddau'r orfodaeth a'r rheolaeth a ddefnyddiwyd, yn ogystal ag a wnaed elw, wrth ystyried y budd cyhoeddus o erlyn.

## Gwaith traws-lywodraethol

Cyfrannodd y CPS at y papurau briffio i'r drafodaeth yn Neuadd San Steffan ar buteindra yn Hydref 2015 a rhoddodd dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref ym Mawrth 2016.

# Pornograffi ac anweddustra

Yn 2015-16 roedd cynnydd o 965 o droseddau yn gysylltiedig â delweddau cam-drin plant y dechreuwyd eu herlyn – o 21,580 yn 2014-15 i 22,545 yn 2015-16, cynnydd o 4.5%. Cynyddodd neu arhosodd y nifer o erlyniadau ar draws yr holl droseddau perthnasol yn gymharol gyson. Roedd hyn yn cynnwys 16,672 erlyniad a ddechreuwyd am gam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau a chynnydd o 8.9% yn yr erlyniadau yn gysylltiedig â meddu ffotograff anweddus o blentyn o 428 i 5,248 erlyniad a ddechreuwyd.

Nid yw data troseddau ar gael yn ôl rhyw'r diffynnydd na'r dioddefwr.

Mae Tabl 12 yn amlinellu data'r CPS ar droseddau delweddau cam-drin plant[143].

### Tabl 12: Troseddau cam-drin plant trwy ddelweddau, 2009-10 i 2015-16

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) – Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 4,117 | 4,543 | 3,885 | 3,849 | 4,265 | 4,820 | 5,248 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) – Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn [144] | 0 | 21 | 179 | 394 | 534 | 631 | 625 |
| **Cam-fanteisio rhywiol ar blant trwy ffotograffau ac o'r rhain:** | | | | | | | |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) – Tynnu ffotograff anweddus o blentyn | 13,652 | 15,768 | 14,570 | 13,596 | 14,443 | 14,518 | 14,930 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) – Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 804 | 670 | 695 | 803 | 907 | 1,318 | 1,422 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) – Dangos ffotograffau anweddus o blant | 137 | 410 | 333 | 294 | 224 | 292 | 319 |
| ▪ Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1(1)(d)) – cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu'n dangos ffotograffau anweddus o blant | 2 | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |

[143] Mae'r data yn ymwneud â nifer y troseddau pan gychwynnwyd erlyniad, a gofnodwyd yn y llysoedd ynadon ar y system CMS. Nid yw data troseddau'n cael ei gadw yn ôl diffynnydd na deilliant. Y troseddau a gofnodir yn y Bydysawd Troseddau yw'r rhai a gyrhaeddodd wrandawiad. Nid oes awgrym o'r deilliant terfynol neu os oedd y drosedd a gyhuddwyd yn gyhuddiad a brofwyd yn y diwedd. Daeth y data hwn o system TG weinyddol y CPS sydd, fel unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, yn cynnwys camgymeriadau posib wrth lwytho data a'i brosesu. Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallant newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.
[144] dan a.62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi trwy hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010.

Yn ystod 2015–16, cyhuddwyd troseddau pornograffi a throseddau eraill ac fe wnaethant gyrraedd o leiaf un gwrandawiad mewn llysoedd ynadon dan nifer o Ddeddfau[145]. Mae cofnodion y CPS yn nodi faint o achosion a gychwynnwyd dan y troseddau unigol, ond heb wahaniaethu rhwng 'cyfathrebiadau'n ymwneud â phornograffi' a'r rheiny nad ydynt.

Mae Tabl 13 isod yn amlinellu data'r CPS[146] ar droseddau anweddustra[147]. Roedd cynnydd o 20.0% yn y troseddau anweddustra a erlynwyd o 5,782 yn 2014-15 i 6,940 yn 2015-16. Dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg a'r rhyngrwyd, erlynwyd mwy o droseddau dan a.127 y Ddeddf Cyfathrebiadau[148] ac a.1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988[149] gyda llai o erlyniadau dan y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus. Dan a.127, yn 2015-16 roedd cynnydd yn yr erlyniadau yn ymwneud â chyfathrebiadau anweddus iawn neu anllad i 2,026 (20.6%), ochr yn ochr â gostyngiad bychan o 848 (1.9%) mewn erlyniadau yn ymwneud ag achosi aflonyddwch, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall. Ar y cyfan cynyddodd y troseddau dan a.127 Deddf Cyfathrebiadau o 13% ac a.1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 o 32%.

Cafwyd cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o erlyniadau dan yr adrannau newydd, a gyflwynwyd yn Ionawr 2009, yn ymwneud â delweddau pornograffig eithafol, a gyrhaeddodd 1,737 yn 2015-16.

---

[145] Deddf Amddiffyn Plant 1978; Deddf Cyhoeddiadau Anweddus 1959; Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; Deddf (Rheoli) Arddangosiadau Cyhoeddus Anweddus 1981; Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Cyfathrebu 2003.

[146] Gweler troednodyn 144.

[147] Mae Deddfau Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959 a 1964 yn nodi beth yw'r gyfraith yng nghyswllt cyhoeddiadau anweddus. Nodir y prawf anweddustra yn a.1 (1) OPA 1959. Crëwyd y troseddau dan a.2 OPA 1959 ac mae modd eu cosbi gyda charchariad am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae pob deunydd cyhoeddedig yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus (OPA) 1959. Dan y Ddeddf hon mae'n drosedd droseddol cyhoeddi unrhyw erthygl y credir ei bod yn anweddus; sef erthygl y tybia'r llysoedd ei bod yn tueddu i 'lygru' unigolyn sy'n debygol o'i gweld, ei chlywed neu ei darllen. Mae a.63 i 67 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i feddu delweddau pornograffig sy'n darlunio gweithredoedd sy'n
fygythiad i fywyd unigolyn, gweithgaredd sy'n arwain at neu sy'n debygol o arwain at niwed difrifol i anws, i fronnau neu i genitalia unigolyn, i fwystfileiddiwch neu necroffilia; hefyd mae ynddynt ddarpariaeth i eithrio ffilmiau dosbarthedig a.y.b. ac yn nodi amddiffyniadau a chosbau am y drosedd. Daeth y drosedd hon i rym ar 26 Ionawr
2009.

[148] Mae a.127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn creu trosedd o anfon, 'trwy gyfrwng rhwydwaith gyfathrebu electronig gyhoeddus, neges neu fater arall sy'n ffiaidd iawn neu o natur anweddus, aflednais neu fygythiol.' Mae modd defnyddio'r drosedd yng nghyswllt y "cyfryngau'n ehangach" ac mae iddi "gyfoesedd", hyd yn oed "ddiogelwch at y dyfodol" – rhywbeth na welir mohono yn nhelerau mwy caeth rhai deddfwriaethau eraill.

[149] Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus yn gwneud anfon llythyr, cyfathrebiad electronig
llythyr, cyfathrebiad electronig [h.y. e-bost] neu eitem arall i unigolyn arall yn drosedd.

### Tabl 13: Troseddau anweddustra, 2009-10 i 2015-16

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012 - 13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) & (1)(b)) - Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 899 | 1,273 | 1,301 | 1,250 | 1,210 | 1,586 | 2,094 |
| Deddf cyhoeddiadau anweddus 1959 (2 (1) ) – Cyhoeddiadau anweddus | 82 | 71 | 76 | 34 | 33 | 88 | 26 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (1)(a), (1)(b) & (3)) Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,315 | 1,869 | 1,924 | 1,909 | 1,190 | 1,680 | 2,026 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) - Achosi blinder, anhwylustod neu bryder diangen i unigolyn arall | 888 | 1,037 | 1,181 | 1,003 | 936 | 864 | 848 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63 (1), (7)(d) a 67(3)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol[150] | 270 | 1,165 | 1,319 | 1,312 | 1,395 | 1,564 | 1,737 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63(1), (7A)) – Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol yn darlunio treisio/ymosodiad trwy dreiddio | | | | | | | 3 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 { 33(1) a (9) } - Datgelu ffotograffau rhywiol preifat a ffilmiau gyda'r bwriad o achosi gofid | | | | | | | 206 |

## Datgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd

O 13 Ebrill 2015 creodd a.33-35 ac Atodlen 8 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015, drosedd newydd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol personol heb gydsyniad unigolyn sy'n ymddangos ynddynt gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw neu honno.

Yn nodweddiadol gall yr amgylchiadau gynnwys cynbartner o oedolyn yn uwchlwytho delweddau rhywiol personol iawn o'r dioddefwr ar y rhyngrwyd, i achosi cywilydd neu waradwydd i'r dioddefwr. Gall yr achosion hyn sy'n cynnwys 'pornograffi dial' gael eu hystyried dan y canllawiau cyfryngau cymdeithasol[151] sydd wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r drosedd newydd hon. Mae i'r drosedd uchafswm o ran dedfryd o garchar am ddwy flynedd wrth gael collfarn.

Cychwynnwyd 206 o erlyniadau yng nghyswllt y drosedd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat gyda'r bwriad o greu gofid yn 2015-16.

---

[150] Dim ond isadran o ddata a.63 a adroddwyd mewn Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol – mae'r data wedi ei addasu yn yr adroddiad hwn i gynnwys pob trosedd dan a. 63.

[151] Mae'r drosedd yn groes i a.33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn gorgyffwrdd ag a.1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, a.127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac a.2 ac a.4 o Ddeddf Aflonyddu 1997.

## Datgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd

- Dedfrydwyd diffynnydd a anfonodd ffotograffau personol iawn o fenyw i aelodau o'i theulu trwy Facebook a bygwth rhoi rhagor o luniau ar-lein i 12 wythnos o garchar wedi ei ohirio am 18 mis ar ôl iddi bledio yn euog i drosedd pornograffi dial.

- Rhoddodd diffynnydd arall luniau personol iawn o fenyw ar Facebook – nid oedd y dioddefwr yn gwybod bod y llun wedi cael ei dynnu, hyd yn oed, gan achosi mwy o ofid. Fe'i dedfrydwyd i Orchymyn Cymunedol 12 mis, ei ddirwyo £110, ei orchymyn i dalu costau'r llys o £295 a rhoddwyd gorchymyn atal amhenodol iddo.

- Anfonodd diffynnydd ddelwedd bersonol iawn o fenyw i'w ffrind. Fe'i dedfrydwyd i ddedfryd ohiriedig 18 wythnos, derbyniodd gyrffyw gyda thag ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau ac iawndal.

- Ar ôl anfon lluniau o fenyw at ei brawd, dedfrydwyd diffynnydd i 12 mis o garchar a rhoddwyd gorchymyn atal am 3 blynedd.

- Dosbarthodd diffynnydd arall luniau personol iawn o fenyw y tu mewn a'r tu allan i archfarchnad. Derbyniodd ddedfryd o 24 wythnos o garchar, wedi ei ohirio am 18 mis, gorchymyn atal dwy flynedd a dyfarnwyd costau yn ei erbyn.

# Pornograffi Treisio

O 13 Ebrill 2015, diwygiodd a.37 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 y drosedd o fod â delweddau pornograffig eithafol yn eich meddiant yn a.63 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, fel bod, yng Nghymru a Lloegr, y drosedd yn gallu cael ei chyflawni trwy fod â delweddau eithafol yn eich meddiant yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad a threisio.

Cychwynnwyd tri erlyniad yng nghyswllt y drosedd o feddu delwedd bornograffig eithafol yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad a threisio yn 2015-
16

## Erlyn pornograffi treisio

Canfu cynbartner diffynnydd bornograffi eithafol a delweddau anweddus o blant ar ei gyfrifiadur. Darganfu archwiliad yr heddlu fwy na 100 o ffotograffau a ffilmiau anweddus o blant a nifer lai o ddelweddau pornograffig eithafol, gan gynnwys delweddau yn darlunio treisio. Llediodd yn euog ac fe'i dedfrydwyd i Orchymyn Cymunedol yn parhau am 3 blynedd, gyda gofyn iddo fynychu rhaglen Driniaeth i Droseddwyr Rhyw. Gosododd y Llys hefyd Orchymyn Atal Niwed Rhywiol am 5 mlynedd.

Ers 3 Mai 2015 creodd a.69 Deddf Troseddau Difrifol 2015 drosedd newydd o fod â llawlyfr pedoffeil yn eich meddiant, sydd yn unrhyw eitem sy'n cynnwys cyngor neu gyfarwyddyd am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys gwastrodi. Cychwynnwyd erlyn un drosedd yn 2015-16.

Fel y darlunnir yn yr adran cam-drin plant o'r adroddiad hwn, cefnogodd y CPS gyflwyno'r ddeddfwriaeth i wneud negeseuon rhywiol rhwng oedolion a phlant yn drosedd. Derbyniodd y drosedd 'Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn' y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mawrth 2015 ond nid oes dyddiad cychwyn iddo wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi.

Cytunodd y CPS, yr heddlu a'r farnwriaeth ar y cyd i fabwysiadu dull newydd o erlyn nifer ddethol o droseddwyr delweddau ar-lein yn genedlaethol, o 1 Ebrill 2016. Mae'r dull yn defnyddio Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID) i alluogi achosion risg isel i gael eu symud ymlaen yn gyflymach, sy'n golygu y gall rhagor o droseddwyr gael eu herlyn mewn llai o amser.  Cyhoeddwyd cyfarwyddyd diwygiedig y CPS ar Ddelweddau Anweddus o Blant ym mis Gorffennaf 2016.

## Cam-fanteisio ar ddioddefwyr bregus

Roedd swyddog heddlu wedi targedu saith o ddioddefwyr trais domestig dros dair blynedd, gan gam-fanteisio ar eu natur fregus. Anfonodd ddelweddau anweddus a ffotograffau a chymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gyda thair o'r dioddefwyr. Derbyniodd un ddioddefwraig dros 900 o negeseuon testun mewn 13 mis. Cafodd ei ddedfrydu i bedair blynedd o garchar.

# Atodiad 1: Erlyniadau'n ôl Ardal

Ers 2014-15 defnyddiwyd dull diwygiedig o archwilio'r data a rhoi adroddiad arno sy'n rhoi ffigyrau ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP) yn ychwanegol at y 42 llu heddlu arall. Ni fydd y data ar gyfer yr 13 Ardal CPS yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data'r BTP.

### Erlyniadau VAWG yn ôl Ardaloedd CPS

| | 2015-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 5,768 | 75.4% | 1,880 | 24.6% | **7,648** |
| **Dwyrain Lloegr** | 6,008 | 76.2% | 1,880 | 23.8% | **7,888** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 7,076 | 76.2% | 2,206 | 23.8% | **9,282** |
| **Llundain** | 11,197 | 65.0% | 6,036 | 35.0% | **17,233** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | 5,365 | 80.2% | 1,324 | 19.8% | **6,689** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | 5,117 | 72.9% | 1,901 | 27.1% | **7,018** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | 10,319 | 79.0% | 2,739 | 21.0% | **13,058** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | 5,051 | 73.8% | 1,795 | 26.2% | **6,846** |
| **De Orllewin Lloegr** | 4,781 | 73.7% | 1,703 | 26.3% | **6,484** |
| **Tafwys a Chiltern** | 4,859 | 72.0% | 1,891 | 28.0% | **6,750** |
| **Wessex** | 4,100 | 77.5% | 1,192 | 22.5% | **5,292** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 8,886 | 74.1% | 3,112 | 25.9% | **11,998** |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 8,748 | 76.9% | 2,634 | 23.1% | **11,382** |
| **Cyfanswm** | **87,275** | **74.2%** | **30,293** | **25.8%** | **117,568** |

| | Erlyniadau VAWG yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2015-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 2,232 | 73.8% | 794 | 26.2% | **3,026** |
| Swydd Bedford | 747 | 73.5% | 270 | 26.5% | **1,017** |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 381 | 81.4% | 87 | 18.6% | **468** |
| Swydd Gaergrawnt | 1,031 | 78.0% | 290 | 22.0% | **1,321** |
| Swydd Gaer | 2,006 | 80.3% | 491 | 19.7% | **2,497** |
| Cleveland | 1,150 | 75.1% | 382 | 24.9% | **1,532** |
| Cumbria | 731 | 83.0% | 150 | 17.0% | **881** |
| Swydd Derby | 1,867 | 78.6% | 507 | 21.4% | **2,374** |
| Dyfnaint a Chernyw | 1,904 | 74.4% | 655 | 25.6% | **2,559** |
| Dorset | 1,004 | 76.7% | 305 | 23.3% | **1,309** |
| Durham | 1,225 | 76.6% | 375 | 23.4% | **1,600** |
| Dyfed Powys | 636 | 73.4% | 231 | 26.6% | **867** |
| Essex | 2,593 | 74.0% | 910 | 26.0% | **3,503** |
| Swydd Gaerloyw | 653 | 72.6% | 247 | 27.4% | **900** |
| Manceinion Fwyaf | 6,558 | 79.7% | 1,675 | 20.3% | **8,233** |
| Gwent | 1,012 | 76.9% | 304 | 23.1% | **1,316** |
| Hampshire | 2,219 | 76.1% | 696 | 23.9% | **2,915** |
| Swydd Hertford | 1,349 | 73.4% | 489 | 26.6% | **1,838** |
| Glannau Humber | 1,312 | 83.4% | 262 | 16.6% | **1,574** |
| Caint | 2,139 | 74.6% | 727 | 25.4% | **2,866** |
| Swydd Gaerhirfryn | 3,032 | 76.7% | 920 | 23.3% | **3,952** |
| Swydd Gaerlŷr | 1,100 | 75.4% | 359 | 24.6% | **1,459** |
| Swydd Lincoln | 1,047 | 80.7% | 251 | 19.3% | **1,298** |
| Heddlu Llundain | 11,092 | 64.9% | 5,997 | 35.1% | **17,089** |
| Glannau Mersi a Swydd Gaer | 3,350 | 80.1% | 832 | 19.9% | **4,182** |
| Norfolk | 1,414 | 75.7% | 453 | 24.3% | **1,867** |
| Gogledd Cymru | 1,223 | 77.4% | 357 | 22.6% | **1,580** |
| Gogledd Swydd Efrog | 838 | 80.4% | 204 | 19.6% | **1,042** |
| Swydd Northampton | 980 | 72.0% | 382 | 28.0% | **1,362** |
| Northumbria | 2,741 | 70.5% | 1,145 | 29.5% | **3,886** |
| Swydd Nottingham | 2,084 | 74.8% | 701 | 25.2% | **2,785** |
| De Cymru | 2,883 | 74.5% | 985 | 25.5% | **3,868** |
| De Swydd Efrog | 1,964 | 74.3% | 678 | 25.7% | **2,642** |
| Swydd Stafford | 1,588 | 74.9% | 533 | 25.1% | **2,121** |
| Suffolk | 960 | 81.0% | 225 | 19.0% | **1,185** |
| Surrey | 1,088 | 73.5% | 392 | 26.5% | **1,480** |
| Sussex | 1,814 | 72.8% | 678 | 27.2% | **2,492** |
| Dyffryn Tafwys | 2,744 | 70.8% | 1,133 | 29.2% | **3,877** |
| Swydd Warwick | 622 | 79.5% | 160 | 20.5% | **782** |
| Gorllewin Mersia | 1,762 | 76.8% | 533 | 23.2% | **2,295** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 4,685 | 71.6% | 1,856 | 28.4% | **6,541** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 4,611 | 75.6% | 1,485 | 24.4% | **6,096** |
| Wiltshire | 898 | 82.8% | 187 | 17.2% | **1,085** |
| Cyfanswm | **87,269** | **74.2%** | **30,293** | **25.8%** | **117,562** |

## Erlyniadau DA yn ôl Ardaloedd CPS:

| | 2015-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | | | | | **6,664** |
| **Dwyrain Lloegr** | 5,243 | 76.6% | 1,600 | 23.4% | **6,843** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 6,204 | 76.2% | 1,938 | 23.8% | **8,142** |
| **Llundain** | 9,400 | 64.5% | 5,179 | 35.5% | **14,579** |
| **Glannau Mersi a Swydd Gaer** | 4,771 | 80.9% | 1,125 | 19.1% | **5,896** |
| **Gogledd Ddwyrain Lloegr** | 4,510 | 73.3% | 1,643 | 26.7% | **6,153** |
| **Gogledd Orllewin Lloegr** | 9,070 | 79.6% | 2,319 | 20.4% | **11,389** |
| **De Ddwyrain Lloegr** | 4,234 | 74.7% | 1,436 | 25.3% | **5,670** |
| **De Orllewin Lloegr** | 4,024 | 73.5% | 1,450 | 26.5% | **5,474** |
| **Tafwys a Chiltern** | 4,154 | 72.3% | 1,592 | 27.7% | **5,746** |
| **Wessex** | 3,465 | 78.4% | 956 | 21.6% | **4,421** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 7,515 | 73.9% | 2,659 | 26.1% | **10,174** |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 7,558 | 77.3% | 2,221 | 22.7% | **9,779** |
| **Cyfanswm** | **75,235** | **74.5%** | **25,695** | **25.5%** | **100,930** |

| | Erlyniadau DA yn ôl ardal llu heddlu 2015-2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Collfarnau | | Aflwyddiannus | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 1,898 | 74.1% | 664 | 25.9% | **2,562** |
| Swydd Bedford | 629 | 73.3% | 229 | 26.7% | **858** |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydain | 162 | 81.0% | 38 | 19.0% | **200** |
| Swydd Gaergrawnt | 878 | 79.7% | 224 | 20.3% | **1,102** |
| Swydd Gaer | 1,743 | 81.0% | 410 | 19.0% | **2,153** |
